

**Bangor University**

## **DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

### **Astudiaeth destunol o statud Gruffudd ap Cynan**

Thomas, Einir Gwenllian

*Award date:*  
2001

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

#### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

#### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 29. Apr. 2024

**ASTUDIAETH DESTUNOL O  
STATUD GRUFFUDD AP CYNAN  
(CYFROL 3)**

**Einir Gwenllian Thomas**

**I'W DDEFNYDDIO YN Y  
LLYFRGELL YN UNIG**

---

**TO BE CONSULTED IN THE  
LIBRARY ONLY**

**Ph.D Cymru  
(Bangor, 2001)**





## **IMAGING SERVICES NORTH**

Boston Spa, Wetherby

West Yorkshire, LS23 7BQ

[www.bl.uk](http://www.bl.uk)

**PAGE NUMBERING AS  
ORIGINAL**

*Y Testun:*

*Statud Gruffudd ap Cynan*



**Peniarth 127****tt. 202 - 4**

[t. 202]<sup>1</sup> Bid hysbys i bawb o voneddigion a chyffredin vod eisteddvod ar  
 wyr wrth gerdd tavod a thant o vewn tref Gayrwys yn Sir y Fflint yr vgeinvet  
 dydd o vis Gorffenhaf yn y bymthecvet vlwyddyn o goronedigaeth Harri Wythvet,  
 brenhin Lloygr, gerbronn Ritchiart ap Howel ap Ieuan Vychan, esgwier, sirrif yr  
 5 vnrryw sir, drwy gytundeb Syr William Gruffudd, marchoc vrddol, siambyrlen  
 Gwynedd, a Roger Salysburi, esgwier, stiwart Dinbych, drwy bresennol gyngor  
 Gruffudd ap Ieuan, gwr bonheddic, a Thudyr Aled, bardd cadeiriawc, a llawer o  
 voneddigion a doethion eraill, er gwneuthur ordr a llywodraeth ar gerddwyr ac  
 ar i kelvyddyt, nid amgen i gadarnhau a chonffermio y penkeirddieit a'r sawl a  
 10 gavas gradd yn y blaen, i raddio y sawl a'i haedde, ac i roddi spas i eraill i ddysgu  
 a mevyriaw nessaf ag<sup>2</sup> i galler wrth gytwybot ac wrth hen Status Gruffudd ap  
 Kynan.

Llyma y sawl y mae rrydd-dit uddynt: gwr wrth gerdd anavus, er na bo  
 gradd iddaw, megis dall; [*disg*]ybl spas; disgybl disgybleid; disgybl

---

<sup>1</sup> Mae conglau ac ymylon y testun hwn wedi gwisgo i'r fath raddau  
 mewn manau fel na ellir darllen yr hyn a ysgrifennwyd. Mae'r rhannau coll  
 hyn yn eglur yn nhestun G, sef y testun sy'n perthyn agosaf i A o'r rhai sydd ar  
 gael heddiw. Gwelir yr ychwanegiadau hyn wedi eu hitaleiddio o fewn  
 bachau petryal. Yn ogystal, gan mai hanner cyntaf A sydd wedi goroesi,  
 rhaid oedd defnyddio diwedd G er mwyn cwblhau'r testun.

<sup>2</sup> Llsg. ar. Mae'n debyg mai gwneud camgymeriad a wnaeth y  
 copiwr, gan ysgrifennu *r* yn hytrach na *c/g*.

15 penkeir[*ddiaidd*]; a ffenkerdd.

Disgybl spas kerdd davot a ddily [*gwybod y si*]llaveu,[a] ffump messur ar englyn, a mes[*svr kowydd*] deuaire, a'i kanu yn awenyddgar ymarn [*penkerdd a ddy*]wetto a'i gydwybod i gellir prydydd [*ohonaw*].

20 [*Yn*] ddisgybleidd y dily wybod xij o'r mes[*sureu : pvmp*] o englynion, iiij messur kywydd, a iij o [*vessurav odlav*] (toddyn, gwawdodyn hir a byrr); [*a gochel y p*]ymthec bai kyffredin; a dangos kerdd [*o'i waith ar bob*] un o'r xij messur yn ddiuai, ddisgyb[*laidd*].

25 [*Yn ddisgy*]bl penkeirddiaidd y dily wybod yr [t. 203] holl [*si*]lava[v], a role ymadroddion yn ol gramade[g], dosbarth y kynghaneddion, gochel yr holl veieu, kanu yn gydsain neu yn gyuochr y gerdd ar xxj o'r mesureu. Er na chano gerdd o gadwynuurr a thawddgrych cadwynoc, neu ddigwydd un o'r mesureu heb wybod, y mae yn gydymaith i benkerdd.

30 Yn benkerdd y dily wybod y kwawl, a chanu yn gyuochr ac yn groesgynganeddawl ar gymeriadeu, yn destungar ar ddigrivwch, yn ffrwythlawn o synnwyr, yn ddevnydduawr o gerddwriaeth, yn warantedic o awdurdod, ac yn awenyddiol o ddychymic, val y bo esmwythaf dysgu neu ddatkan y gerdd, a divyraf i gwrandaw neu [ei] darllain, a hwyaf gallu dal cof ar uoliant boneddigion.

Kerdd dant.

Disgybl spas graddol a disgybl spas heb radd:

35 Disgybl spas heb radd: nid oes dogyn [*ar i g*]elvyddyt nac ar i rodd onid barn penkerdd a e[*llir gwr*] wrth gerdd ohonaw. Disgybl spas gradd[*ol a ddyle*] gwybod pump kwlm o glymeu, a chadeir, [*ag a varno*] athro o ganiadeu a gostegion.

Yn ddisg[yblaidd y] dyly wybot x o ganiadeu, [x] o glym[av, kadair, a]  
40 cholofyn, a gwybod pa gweirieu a'r [messurav i bon].

Yn ddisgybl penkeirddiaidd: xx o g[lymev, xx o gani]adeu, ij golofn, a ij  
gadeir, xxiii [o glymev kyt]kerdd, a'r pedwar messur ar hugein, [a'i dosbarthv]  
a'i canu yn benkeirddiaidd; ac un [rodd a ffenkerdd] vydd, eithyr ni ddily  
ymgystadlu [a ffenkerdd tra vo] yn y radd honno.

45 Yn be[nkerdd y dyly wybod] xxx o glymeu ymrysson, ac o h[ynny] o'r hyn  
leiaf] tair o kolofneu a thair o'r ca[deiriev]. [t. 204] A vynno dwyn ariandlws  
telyn neu grwth raid iddaw wybod y pedair cadeir, a'r pedair colofn, pedwar  
messur ar hugein, pedwar cwlm ar hugein kytkerdd armunt, a dosbarthu pob  
gwahan a rragwan, pob kynhwysiad, a gorffwysua ar dyniad a chyweirdant, a  
50 dangos kerdd dant warantedic o'i waith e hun yn benkeirddiaidd ac yn  
athrawaidd, ual i bo kydwybodus i benkeirddieid a doethion i varnu a'i ddewisso  
yn owdur ac yn athro ar y gelvyddyt; cans ni ddily neb ddysgu onid gann yr athro<sup>1</sup>  
penkeirddiaidd, neu gael ganthaw varnu neu osod yn iawn a ddysger gann arall.

Ac os telynior vydd rraid iddaw wybod tremwlch odidawc, y cwlm a  
55 raddiwyt gynt yn gyuiwch a deg cwlm a deugaint. Pob colofn o bump colofn a  
raddiwyt yn ddec cw[lm] bob un; pob cadair o bedair cadeir: pum[cwlm] bob un.

[Wedi] hynny ir ordeiniwyt i'r athrawon a'r pen[keirddi]ait gyme[rû]d  
disgyblon wrth reolaeth y gel[vyddy], nid amgen un ar unwaith mewn dogyn  
[brentissiae]th; ac na bo i ddisgybl wneuthur dis[gybl arall; ar] bob disgybl bod  
60 gida'i athro bob [Grawys dann] boen kolli i radd oni bydd achos car[char, nev

---

<sup>1</sup> Llsg. arthro.

gle]vyt, neu y kyfryw escus kyfreithlon.

[Hevyd na bo p]rydydd a gano kerdd i erchi march, gw[alch, nev vilgi],  
neu'r kyfryw annwyldlws, heb gen[nad i berchenn]oc; ac nas anvono gwr wrth  
gerdd dant [dann boen ffin].

65 Hevy[d] na wnel neb dynwarded i athro [nag arall ar i f]eddwl a'i  
vyvyrdot.

Hevyt na wnel [ G, f. 348<sup>r</sup> ] disgibl gerdd heb i dangos y'w athro, a  
gwybod wrth varn i bod yn iawn kynn i chanv allan.

70 Hevyd gorchymyn i bawb o wyr wrth gerdd na wnelont arveroedd  
vacabwndys, rodiad ne grwydrad; ac nad el neb o'r ty [y] del iddaw tra barhao y  
wledd yno heb gennad gwr y ty nev wahawdd gann arall, dann boen colli i glera;  
ac od a o dy i dy: i ddal val vacabwnd, [f. 348<sup>v</sup>] a dwyn i glera, a'i roi yngolevad  
yr eglwys blwyf; ag o brwysga yn y wledd: colli i rodd.

75 O gwna lateiaeth nev ansyberwyt am wraic nev vorwyn lle [y] del: dwyn  
ffin a charchar, a cholli glera vij mlynedd.

Hevyd nad elont i davarnev nev gornelev kvddiedic, a chware dissiev, ne  
gardiev, nev chwarev arall am dda. Pawb yn swyddoc arwnt i ddwyn a vo yn  
i pyrsev.

80 Hevyd na ddysgant na sennev na rimiev gwaradwyddus, na chyvriw a  
hynny – goganv, gwatwar, dynwarded, cablv, ysbio, dychmygv kelwydd nev i  
ddywedut yn ol arall kelwyddog – dann boen ffin a charchar.

Hevyd na wnelont gynnen nev ffræ, twyll ne ladrad, mvrn nev gynllwyn,  
ymgalvn a lladron nev a'r neb a wnel llywodraeth ddrwc arall; cans gwyr wrth  
gerdd a ddylant ddwyn ymarweddiad hyddychol, gostyngar, caredig, vfydd,

85 gwas[f. 349]naethgar i bawb o gywiriaid y brenhin, a'i fentimio a'i swckrio.

A mis ymlaen pob gwyl, ymorol a'i athrawon i wybod pa le ir ant, rac  
myned gormodd i'r vnle; ag nad el ond vn at wr o x pvnt o vywyt, dav at wr o  
xx pvnt o rent ar y tair gwyl arbenic, ag wrth y radd honn at a vo vwch o rent; ac  
i bob athro bod coppi o'r order honn er i dangos vddynt ac y'w coffav pann  
90 ddelont i gymryd i dysg y Grawys.

Diwedd medd Ieuan Llwyd ap Edwart ap William.

7 Sept. Anno 1577.

## B

### Peniarth 194

...holl roledigaethav, gochel yr holl veiav kyffredin, kanv yn gyvochr nev yn gydsain ar vn ar ugaint o'r messurav. Er na chano gadwynfyr, nev ddigwydd vn o'r messurav eraill, mae yn gydymaith<sup>1</sup> ac yn vn rodd a ffenkerdd, eithr na ddylai ymgystadlv a ffenkerdd tra fai yn y radd honno.

5 Pennkerdd kerdd tavod a ddyly gwybod y kwbl, a chanv yn groesgynganeddawl ar gymeriadav, yn ddefnyddiol o ddigrivwch, yn ffrwythlawn o synnwyr, yn gyvlawn o gerddwriaeth, yn warantedic o awdurdod, yn awenyddgar o ddychymic, val y bo esmwythaf dysgv nev atkan y gerdd, a digrivaf i gwrandaw, a howsaf a hwyaf dal kof am voliant bonheddigion a  
10 ffennaethiaid.

Kerdd tant, bellach, a'i reolaeth.

Disgybl ysbas graddol a ddyly gwybod v o glymav, a chadair, ac a varno athro [o] ganiadav a gostegion. Dogn nid oes ar i rodd na'i radd.

Disgybl disgyblaid a ddylai wybod dec o glymav, dec o ganiadav, kadair,  
15 a cholofn, a gwybod pa gweiriav a ffa vessurav y bont.

Disgybl pennkerddaidd a ddyly gwybod vgain o glymav,<sup>2</sup> vgain o ganiadav, dwy golofn, a dwy gadair, pedwar ar vgaint o glymav kydgerdd ar y pedwar messur ar vgaint, a'i dosbarth a'i kanv yn benkerddaidd; ac vn rodd a

---

<sup>1</sup> Llsgr. *gydyma*.

<sup>2</sup> Llsgr. *glmav*.

ffennerdd val vchod.

20 Pennkerdd a ddyly gwybod 30 o glymav ymrysson, ac o hynny [o]’r hynn  
lleiaf tair kadair a thair kolofn. Ac a vynno dwyn ariandlws krwth nev delyn,  
raid iddaw wybod y pedair kadair a’r pedair kolofn.

Ac os telynior vydd raid iddaw wybod tri mwchwl odidoc, y kwlm a  
raddiwyd kyfwwch a 10 a 40 o glymav, a gwybod dosbarth pob gwan a ragwan,  
25 pob kynhwysiad, ac ysmvdiad gorffwysva kyweirdant a thynniad, a dangos  
kerdd o’i waith i hvn yn bennkerddiaid, val y bo kydwybodus i benkerddiaid i  
ddewisso yn athro awduredic ar i gelvyddyd; achos ni ddylid dysgv ond gann  
athro pennkerddaid, nev gael ganto roi yn iawn a ddysger gann arall; ac a  
ddysger amgenach, na bo kyvrifol na chynnwysedic i ynill gradd, eithr y modd  
30 yr ordeiniwyd o’r blaen.

Llyma bellach gopi o’r Ystatus a fv garbronn y taleithioc dywyssoc  
Gruffudd ap Kynan:

Bid ysbys i bawb sydd o vewn talaith Aberffro vod eisteddvod ar wyr  
wrth gerdd tavod a thant yn gyvreithlawn o vewn tref Gaerwys, a gwys a rybudd  
35 trwy awdurdod, garbronn y talaithiawc dywyssoc yn bersenol, Gruffudd ap  
Kynan, a Gwynn ap Eginir, ac eraill o vonhedigion a brehyrion treftadol o’r  
vnrryw dalaith, i wnaethur kyvraith a llywodraeth ar holl anant a<sup>1</sup> cherddwyr  
tavod a thant ac ar i kelvyddyd, yn gymaint a thyvū gorweigion chwynn yn ev  
plith anhaeddedic, i harvolli kanys na bvant tan law athro kyvreithlawn o’r  
40 gelvyddyd, i ddilev y rrain o gwbl, ac i gadarnhav ac i raddio yr haeddedigion

---

<sup>1</sup> Ysgrifennir y llythyren *a* ddwywaith yn y llsgr. wreiddiol.

racddywydedigion pob vn yn i radd, megis ac ir haeddai.

Ac ynn gymaint vod y dywedic dywyssawc, o gydvndeb y gynnvlleidva, ynn keniadv ac yn ordeinio i'r athrawon a'r pennkeirddiaid gymeryd disgyblion wrth reolaeth y gylvyddy, nid amgen vn ar<sup>1</sup> vnwaith mewn dogn o brentissiaeth.

45 A disgybl a gymerir o rodd kenedl nev benndevic a vo tros y genedl; a'r athraw a ddylai ddyvod a'r disgybl garbronn yr orsdedd bennaf, a gofyn i'r pendevigion<sup>2</sup> ai kariadūs gantynt i golwc ar y mab hwnn, o gellir gwr wrth gerdd ohono; ac [os] dywedynt vod yn ffanssiol ac yn gariadūs i golwc arnaw, i gymeryd att yr athraw, a'i ddysgu; ac onis gwelant, ni all athraw i ddysgv.

50 A hevyd ydd ydys trwy yr Ystattus honn yn gwahard i athraw gymeryd tri bath ar ddyn ynn ddisgybl: mab aillt kaeth, mab ac anaf erchyll ar i wyneb, a mab a vo amhevs gan i dad.

A hevyd ydd ydis trwy yr Ystatus honn ynn kenadv tair gradd o bob kelvyddyd tavod a thant, nid amgen disgybl ysbas, disgybl disgyblaid, a disgybl  
55 pennkerddaidd val o'r blaen.

Disgybl penkerdd: oni bydd erbyn pen y tair blynedd yn abl i gael grad penkerdd, na bo iddo o hynny allann ddim o'r gelvyddyd honno ond disgyblaid, ac na [bo] i athraw ymarddelw ohonaw.

Disgyblaidd all sefyll yn y rad honno tra vo vyw.

60 Ac yn yr amser y gwnethbwyd yr Ystatus honn, meibion iengaf i wyr bonheddigion a ordeinid yn wyr wrth gerdd, ac mor anvynych kael y rai hynny

---

<sup>1</sup> Llsgr. *or*.

<sup>2</sup> Llsgr. *a gofyn ir pendevigion a gofyn vddyn*.



ac awenyddiaeth gantynt, rac kolli y gelvyddyd, y roed kennad i bawb a vai o synnwyr a deall i ddysgv y gelvyddyd gann athraw kyvreithlawn, trwy na bai yr vn o'r tri gwaharddedic vchod.

65 A hevyd na bo disgybl<sup>1</sup> a wnel disgybl arall, na dysgv dim a gavas gann i athraw ond yn ysgol i athro, dan i athraw, nev drwy i gennad.

Pob disgybl ysbas oni gaffo radd disgybl<sup>2</sup> disgyblaidd: bod gida'i athraw bob Grawys oni bydd klevyd, nev garchar, nev achos kyvreithlawn.

70 A hevyd na bo i brydyd wnaethur ond pedwar kywydd moliant yn y vlwyddyn i wyr, oni bydd gwahadd nev ddamvniad; ac yn enwedic, nad el a'r gerdd adref ond ar wyl arbennic (Pasc,<sup>3</sup> Nodolic, Sulgwynn, nev Wyl yr Hollsaint); ac os a, y[n] newis y neb y kaner iddo ai talv ai peidio. Ac ef all wnaethvr val y bo yr achos o varwnadav a dyvaliadav.

75 A hevyd na bo prydydd a wnel gerdd i erchi march, na milgi, nev gyvryw anwyldlws nodedic, heb gennad y perchennoc; ac nas anvono gwr wrth dant adref dan boen ffin; ac na wnaed neb danwarded i athraw ar i veddwl na'i vyvyrdod; ac na wnel<sup>4</sup> disgybl gerdd heb i dangos y'w athro i wybod i bod yn iawn kynn i myned allan.

80 A hevyd na wnelon arveroedd rodwyr nev gler y dom hynny (rodiav nev gyrwydraw); ac nad el neb allan o'r ty y del<sup>5</sup> [iddo] tra barha y wledd honno heb

---

<sup>1</sup> Llsg. *disgbl*.

<sup>2</sup> Llsg. *disgyb*.

<sup>3</sup> Llsg. *pas*.

<sup>4</sup> Llsg. *n wnel*.

<sup>5</sup> Llsg. *yr el*.

gennad gwr y ty a gwaodd gann arall; ac od a o dy i dy: i ddal val rod-ddyn, a dwyn a fo yn i bwrs, a'i roi yngolevad yr eglwys; ac o brwysga yn y wledd: kolli i rodd.

85 A hevyd na wnelon lateirwyd [neu] ansyberwyd a merch nev wraic lle i delon i dangos i kelvyddyd dan boen ffin a charchar a<sup>1</sup> cholli i rodd saith mlynedd.

A hevyd nad elont i davarnav nev gornelav kvddiedic i chwarae disav, nev gardiav, nev chwarae arall am dda; ac od an: pawb yn swyddoc arnynt i dwyn a fo yn i pyrsav.

90 A hevyd na ddysgon synnav na rimynnav gwradwyddus, na chyvryw a hynny – goganv, gwatwar, dynwarded, kablv, dychmygv kelwyd nev i ddywedyd yn ol arall – tan boen ffin a charchar.

95 A hevyd na wnelont gynennav, ffraeav, twyll, lledrad, mvrn, kynllwyn, ymgalyn a bradoc nev a'r neb a wnel llywodraeth ddrwc; kanys gwyr wrth gerdd a ddylai dwyn ymarweddiad heddychol, howddgar, karedic, vfvdd, gwasnaethgar i [bawb] o gywiriaid y tywysawc a'i swyddogion, y'w kadarnhav hwyntav.

100 A hevyd mis o vlaen pob gwyl arbennic y dilynt ymweld a'i hathrawon i wybod p'le'r ant yr wyl, rac myned gormod i'r vnle; ac nad el ond vn at wr o ddec pvnt o vywyd, dav at wr o vgain pvnt [ar] y tair gwyl arbennic, ac velly at a vo o vywod vwch.

---

<sup>1</sup> Llsg. o.

## CH

### Peniarth 155

#### tt. 83 - 94

[t.83] Llyma y konffyrmiad a wnaethpwyd ar Ystatus Gruffudd ap Kynan  
yn yr eisteddvod Ynghaerwys.

Bid ysbys i bawb o voneddigion a chyffredin vod eisteddvod ar wyr wrth  
gerdd tavod a thant o vewn tref Gayrwys yn Sir y Fflint yr ail dydd o vis  
5 Gorffennaf yn y xv<sup>ved</sup> flwyddyn o goronedigaeth Harri Wythved, garbronn  
Risiart ap Hywel ap Ieuan Vychan, ysguier, ac o gytvndeb Syr William Gruffudd  
a Syr Roger Salbri, a thrwy bressenol gyngor Gruffudd ap Ieuan ap Llywelyn  
Vychan [t.84] a Thudur Aled, bardd kadeiriawc, a llawer o voneddigion a  
doethion eraill, er gwnevtivr ordyr a llywodraeth ar wyr wrth gerdd ac ar i  
10 kelvyddyd, nid amgen i gadarnhav a chonffyrmio y pennkerddiaid a'r sawl a  
gafas gradd yn y blaen, i raddio y sawl a'i haeddai, ac i roddi i eraill ysbas i  
ddysgv ac i vevyrrio yn nessaf ac i galler wrth gydwytbod ac wrth hen Ystatus  
Gruffudd ap Kynan.

Llyma y sawl y mae rrydd-did vddynt: gwr wrth gerdd anafvs, megis dall  
15 nev vyddar, er na bo gradd iddaw; disgibyl ysbas; disgibyl disgiblaidd; disgibyl  
pennkerddiaidd; a ffenkerdd nev athro.

Disgibyl ysbas kerdd davawd a ddyly gwybod i sillafav oll, a'r pvmp  
messvr englyn, a messvr kywydd davair, a'i kanv yn awenyddgar ymarn

pennkerdd a ddyweto i gellir prydydd ohonaw.

20 Disgibyl disgiblaidd a ddyly gwybod xij o'r messvrau, nid amgen pŵmp  
o englynion, iij o gywyddau, a iij o vessvrau odlav (ysecf ynt: [t.85] toddaid, a'r  
ddau wawdodyn, hir a byrr); a gochel y xv bai kyffredin; a dangos kerdd o'i  
waith i hŵn ar bob vn o'r xij messvrau vchod yn ddivai, ddisgyblaidd.

25 Disgibyl pennkerddiaidd a ddyly gwybod yr holl sillafau, a reolau  
ymadroddion yn ol gramadeg, dosbarth y kynghaneddion, a gochel yr holl veiau,  
kanv yn gydsain nev yn gyfochr y gerdd ar xxj o vessvrau. Er na chano gerdd  
gadwynvyr, na gorches y beirdd, na thawddgyrch kadwynoc, nev ddigwydd vn  
o'r messvrau heb wybod, y mae yn gydymddaith i benkerdd.

30 Penkerdd o athro a ddyly gwybod y kwbl, a chanv yn gyfochr ac yn  
groesgynghaneddawl ar gymeriadau, yn destvngar ar ddigrivwch, yn ffrwythlawn  
o synwyr, yn ddefnyddvawr o gerddwriaeth, yn wrantedic o awdvrddod, ac yn  
awenyddawl o ddychymic, val i bo esmwytha dysgv nev ddatkan, a divyraf i  
gwrandaw nev i ddarlain, a hwyaf gallv dal kof ar voliant boneddigion.

Kerdd dant.

35 Disgibl ysbas graddol a disgibyl ysbas heb radd:

Disgibl ysbas [t.86] heb radd: nid oes dogyn ar i gelvyddydd nac ar i rodd  
onid barn penkerdd a ellir gwr wrth gerdd ohonaw. Disgibl ysbas graddol a  
ddyly gwybod pŵmp kwlm o glymav, a chadair, ac a varno athro o ganiadau a  
gostegion.

40 Disgibl disgyblaidd a ddyly gwybod x o ganiadau, x o glymav, kadair,  
kolofn, [a] gwybod pa gyweiriav a'r messvrau i bont.

Disgybl penkerddiaidd a ddyly gwybod xx o glymav, xx o ganiadau,

45 dwy golofn, a dwy gadair, a'r xxiiij o glymav kydkerdd, a'r xxiiij messvr, a'i dosbarth a'i kanv yn benkerddiaidd; ac yn vn rhodd a phenkerdd, neithr ni ddyly ymgystadlav a phenkerdd nev athro.

Penkerdd nev athro a ddyly gwybod xxx o glymav ymrysson, ac o hynny, o'r hynn lleiaf, tair o'r kolofnav, tair o'r kadeiriav. Ac a vynno dwyn ariandlws telyn nev grwth rhaid yw iddaw wybod i bedair kadair, a'r pedair kolofn, a'r iiij messvr ar xx a'r iiij kwlm kydkerdd ar xx arnynt, a dosbarthv pob gwahan a rhacwan, pob kynwyssiad, a gorffwysva pob ysmvdva ar dyniad a chyweirdant, a dangos kerdd dant wrantedic o'i [t.87] waith i hvn yn benkerddiaidd ac yn athrawaidd val i bo kydwbybodus i benkerddiaid a doethion i varnv a'i ddewissaw yn awdvr ac yn athro ar i gelvyddy; kans ni ddylai neb ddysgv ond gann athro pennkerddiaidd, nev gael gantaw varnv nev ossod yn iawn a ddysger gann arall.

Ac os telynior vydd rraid yw iddaw wybod tri mwchl odidoc, y kwlm a raddwyd gynt yn gyfiwch a x kwlm a xl. Pob kolofn o'r pvmp kolofn a raddwyd yn x kwlm bob vn; pob kadair o'r pedair kadair yn v kwlm bob vn.

60 Gwedi hynn ir ordeiniwyd i'r athrawon<sup>1</sup> a'r penkerddiaid gymryd disgiblon wrth reolaeth y gelvyddy, nid amgen vn ar vnwaith mewn dogyn prentissiaeth; ac na bo i disgibl wnevthr disgibl arall; ac ar bob disgibl vod gida'i athro bob Grawys dann boen kolli i radd oni bydd achos – karchar, nev glevyd, nev gyfriw achos kyfreithlawn.

---

<sup>1</sup> Llsg. *athrawvn*.

65 Hevyd na bo prydydd a gano kerdd<sup>1</sup> i erchi march, gwalch, nev vilgi, nev  
gyfriw anwyldlws, heb gennad i berchennoc; ac nas danvono gwr wrth gerdd  
dant dann boen ffin.

[t.88] Hevyd na wnel neb ddanwarded i athraw nac arall ar i veddwl na'i  
vefyrdod.

70 Hevyd na wnel disgibl gerdd heb i dangos i'w athro, a gwybod i bod yn  
iawn kynn i chanv allan.

Hevyd gorchymvn i bawb o'r gwyr wrth gerdd na wnelont arveroedd  
vakabwnds, rrodiad nev grwydrad o dy i dy; ac nad el o'r ty i del iddaw tra  
barhao y wledd ynno heb gennad gwr y ty nev wahodd gann arall, a hynny dann  
boen kolli i rodd; ac od a o dy i dy: i ddal val vakabwnds, a dwyn i rodd, a'i roi  
75 yngolevad yr eglwys blwyf; ac o brwysga yn y wledd: kolli i rodd.

Hevyd o gwna lateiaeth nev ansyberwyd am wraic nev vorwyn lle del:  
[dwyn ffin a charchar], a cholli glera vij mlynedd.

80 Hevyd nad elont i davarnav nev gornelav kyddiedic i chwaraiv dissociav,  
nev gardiav, nev warav arall am dda yn y byd; ac od ant: pawb yn swyddoc  
armynt i ddwyn a vo yn y pyrssav .

Hevyd na ddysgant sennav na rrimynnav [t.89] gwradyddvs, na  
chyfryw a hynny – goganv, gwatwor, danwarded, kablv, ysbio, dychmygv  
kelwydd nev i ddywedyd yn ol arall kelwyddoc – dann boen ffin a charchar.

85 Hevyd na wnelont gynhennav, ffraeav, twyll nev ledrad, mvrn nev  
gynllwyn, ymgalvn a lladron nev a'r neb a wnel anllywodraeth ddrwc arall; kans

---

<sup>1</sup> Llsgr. *kerrd*.

gwyr wrth gerdd a ddylant ddwyn ymarweddiad heddychol, howddgar, karedic,  
vfudd, gwassanaethgar, ac i bawb o gywiriaid y brenhin a'i swyddogion i  
kadarnhav a'i swkrio ymhob mann.

90 A mis ymlaen pob gwyl ymorol a'i athrawon i wybod pa le ir ant, rac  
myned gormodd i'r vnle; ac nad el ond vn at wr o ddec pvnt o vywyd, dav at  
wr o xx pvnt o vywyd<sup>1</sup> ar y tair gwyl arbennic, ac wrth y radd honno at a vo  
ywch o rent; ac i<sup>2</sup> bob athro bod kopi o'r ordyr honn gidac ef i'w dangos i'w  
ddisgyblion ac i'w choffav pann ddelont i gymeryd i dyc y Grawys.

[t.90] Llyma val i nodwyd wrth Ystatus Gruffudd ap Kynan

95 roddion i bob gradd yn i radd o gerdd tavod a thant.

Tair gwyl arbennic ysydd, nid amgen Pasc, y Nydolic a Svlgwyn.

Rrodd disgibl penkerddiaidd a phenkerdd o athro (kans vn rodd ynt, ond  
na ddyly y disgibl ymgystadlv<sup>3</sup> a'r athro, ond gadael idaw i barch a'i ragor): y  
rrodd nid amgen iijs iiijd.

100 Rrodd disgibl disgiblaidd: ijs.

Rodd disgibl ysbas graddol: xijd.

Yr vn vaint [o] rodd y dily neithior rreiol vod i bawb ac vn o'r tair gwyl  
arbennic vchod.

---

<sup>1</sup> Llsg. *of vywyd*.

<sup>2</sup> Mae'n anodd dweud pa un ai y ynteu / yw'r llythyren hon.

<sup>3</sup> Llsg. *yingystadlv*.

Ac os amledd prydyddion a vyddai, a gwnevthvr kyff kler, ac wrth destyn  
105 gwnevthvr gostegion, y kyff kler a dyly ddyblv i rodd nev y ddwbled nessaf i'r  
orav i'r mab bieivydd y neithiawr. A rrodd neithiawr reiol vydd tystiolaeth ar  
radd gwr wrth gerdd a'i haeddo; [a ffob neithior reiol y gellir graddio gwr wrth  
gerdd yn y radd a ddylai] oni bydd<sup>1</sup> eisteddvod yn i amsser i'w chael; ac wrth  
hynny i gall govyn<sup>2</sup> i rodd oni ddel eisteddvod i'w sicrav ynddi; ac onis ymill  
110 yno: i cholli byth.

[t.91] Rrodd penkerdd mewn neithior arall, gwyl mabsant, nev gylchwyl  
(yr hwn a elwir kwrs klera): xijd.

Rodd disgibl disgyblaidd yr amseroedd<sup>3</sup> hynny (neithior, gwyl mabsant  
a chwrs klera): viijd.

115 Rrodd disgibl ysbas graddol yr vnrryw amseroedd vchod: nid amgen vjd.  
Disgibl ysbas heb radd: nid oes iddo rodd nodedic, onid pa vaint a vo  
syber gann bawb i roi iddaw tra vo yn ynnill gradd a vo gwell wrth yr ysbas a  
gavodd, val i dywetpwyd o'r blaen.

Rodd telvwr, o rann achav boneddigion, lle gwypo dwyn ach y gwr a'r  
120 wraic at vn o'r llwythi reiol a vv yn dwyn arvav gynt: ijd; a'r lle ni vedro ddwyn  
iach ond vn ai'r gwr ai y wraic: jd, a hynny gida syberwyd boneddigion ymhob  
lle i delo. Ac velly, nid oes heddiw i'r penkerdd mwyaf onid syberwyd  
boneddigion.

---

<sup>1</sup> Llsgt. *ar ni bv.*

<sup>2</sup> Yn y llawysgrif wreiddiol ysgrifennir *govyn* ddwy waith.

<sup>3</sup> Llsgt. *yr amsser yr amseroedd.*



Hevyd o daw gwr dieithr o wlad arall i glera, ac ni bydder  
125 kyvadnabyddys arno heb ysgriven vn o'r pennkerddiaid gidac ef i ddangos beth  
a ddyly i gael, bod heb i rodd lle i govynner am hynny, ac yntav yn ddiffygiawl.

Eisteddvod nev neithior reiawl a ddyly vod vddynt gyflawn rybydd o  
ysbas vndydd a blwyddyn, a hynny drwy gyffredinawl rybydd egored ar gyhoedd  
ymhob hynod, nodedic [t.92] varchnad-ddinas, llys gyfreithlawn, a mameglwys  
130 o vewn y dalaith, oddieithr i bendeffigion y dalaith a phenkerddiaid, o gvdvndeb,  
vyrrhav yr ysbas a'r amser pann welont hwy vod yn iawn ac yn dda.

O bydd ariandlws yn gorvedd yn segvr yn i orffwysle perthynassawl, nev  
p'le bynac i bo lle gorchymyno yr athro a'r dygiawdr diwaethaf a vu yn i arwain,  
a bod pennkerdd yn ymglywed i hvn yn abl i'w dwyn wrth fraint i gelvyddyd ac  
135 i atdeb drostaw, i gymeryd a all oddyno, a rroi kyflawn rybydd o vndydd a  
blwyddyn ymhob ffair a marchnad a llys gyfreithiawl o vewn i dalaith i ddangos  
i vod yn kymervd yr ariandlws dann i berigl ac yn ymadnav ohonaw. Ac os  
byddai neb a roddai sialens arno o vewn vndydd a blwyddyn, roed dan i berigl  
yntav; ysef yw hynny: kyva werth<sup>1</sup> yr ariandlws o avr nev ariant, a'i radd heblaw  
140 hynny. Ac ni chaiff neb sialenssio arweniawdr yr ariandlws ond a gavas gradd  
disgibl penkerddiaidd<sup>2</sup> yn y blaen. Ac os roi sialens [t.93] a wna, nev ymadnav,  
a heb allv dwyn hynny i benn, kolli i radd a'i chywerthydd. Ac os gallv kadw  
yr ariandlws a wna yr ymddiffynnwr y term a ddywetpwyd vchod drwy atdeb i  
bawb a'i sialenssio, ni ellir i dwyn oddi arno yn i oes; onid raid yw iddaw yn yr

---

<sup>1</sup> Llsgr. *wrth*.

<sup>2</sup> Llsgr. *penkerdddiaidd*.

145 eisteddvod gyfreithlawn nessaf a vo ddyvod yno a dangos i vod yn abl i'w hadnav ac y'w chadw o gelvyddyd ac awdurdod, i wnevtivr disgyblion wrth yr Ystatus a braint y gelvyddyd. Ac o hynny allan, i'r dalaith i gymervd yn athro ar i gelvyddyd ef, ac i bawb o'r pendefigion i swkrio wrth yr Ystatus a braint y gelvyddyd.

150 Mal i dywetpwyd o'r blaen wrth ragorfraint kelvyddyd, pob kadair a dal v kwlm bob vn, ond kanv pvmp kwlm o'i blaen; pob kolofn a dal x kwlm, ond kanv x kwlm o'i blaen. Tri mwchl odidoc a dal dec a devgain o glyme,<sup>1</sup> ond kanv xxx o'r blaen; ac o'r xxx hynny, iij o'r kadeiriav, iij o'r kolofnav, o'r hynn lleiaf, a'i kyfrif yno yn vn kwlm bob vn, val petvai yn keisio gradd; achos nid  
155 i neb i geissiaw gradd y kowssant y ragorfraint hwnnw, nac i [t.94] prissiwyd wynt velly yn gyfiwch o rifedi klyme, ond lle bai ddav benkerdd yn ymrysson am ariandlws, nev ymrysson arall am flaen a gossod a chadw rragoriaeth rrwng penkerddiaid a disgyblion gwedi kael i graddav o'r blaen mewn eisteddfodav nev neithior reiol.

---

<sup>1</sup> Llsg. o glymle.

## D

### Peniarth 147

#### tt.187 - 95

[t.187]<sup>1</sup> Bid hysbys y bawb o vonyddigion a chyffredin vod isteddvod ar  
wyr wrth gerdd dafod a thant o vewn tref Gaerwys yn Sir y Fflynt yr ail ddydd  
o vis Gorffena yn y bymthegfed vlwyddyn o goronydigaeth Harri Wythfed, brenin  
Lloyger, drwy gomissiwn yr vn enwedig brenin, gairbron Rissiart ap Howel ap  
5 Ieuan Vychan,<sup>2</sup> ysgwier, o gydyndeb Syr William Gryffydd a Syr Roger Salbri,  
a thrwy bresenol gyngor<sup>3</sup> Gryffydd ap Ieuan ap Llywelyn Vychan a Thydyr Aled,  
bardd cadiriawg, a llawer o vonyddigion a ddoythion eraill, er gwnythyrdyr  
a llywodraeth ar wyr wrth gerdd ag ar y celfyddyd.

Llyma eiriay yr Ystatys a ddywetpwyd vchod: nyd amgen y gadarnhau ag  
10 y gonffirmio y pencerddiaid a'r sawl y gafas gradd yn y blaen, ag y raddio y sawl  
a'y hayddai, ag y rodidi ysbas y'r llaill y ddysgu ag y vyfyrio yn nessaf ag y galler  
wrth gydwybod ag wrth hen<sup>4</sup> Ystatvs y tywysoc a gyrbwyllwyd o'r blaen.

Llyma y sawl y mai rydd-did vddynt: gwr wrth gerdd anafys, megis dall  
ney vyddar, er na bo gradd yddo; [*disgybl*] ysbas; [*disgybl*] dysgyblaidd; [*disgybl*]

---

<sup>1</sup> Mae D yn cynnwys sawl bwlch, felly defnyddiwyd M (i), sef perthynas agos i D, i lenwi'r bylchau hyn. Gwelir yr ychwanegiadau wedi eu hitaleiddio rhwng bachau petryal.

<sup>2</sup> Llsgr. *vycha*.

<sup>3</sup> Llsgr. *Gymgor*.

<sup>4</sup> Llsgr. *yr hen*.

15 pencerddiaidd; [*a ffenkerdd*] ney [*athro*].

Dysgybl ysbas cerdd dafod a ddyly gwybod y silltafau, a'i<sup>1</sup> bymp mesyr [t.188] englyn, a mesyr cywydd deyrir hirion, a'y cany yn awenyddgar ymarn pencerdd a ddywetto y gellir prydydd ohonaw.

20 Dysgybl dysgyblaidd a ddyly gwybod deyddeg o'r mesyrau: pypm o'r englynion, pedwar o gywyddau, a thri o vesyre odlau (toddaid,<sup>2</sup> gwawdodyn hir a gwawdodyn byr); a gochel y pymtheg bai cyffredin; a dangos cerdd o'i<sup>3</sup> waith y hvn ar bob vn o'r dayddeg messyr vchod yn ddysgyblaidd, ddifai.<sup>4</sup>

25 Dysgybl penceirddiaidd a ddyly gwybod yr holl silltafau, a reolau ymadroddion yn ol grymadeg, dosbarth y cangenyddion, gochel yr holl veiau, a chany yn gysonreg ney yn gydgysson ney yn gydsain y gerdd ar vn ar higain o'r mesyrau. Er na chano gerdd gadwynvyr ney dawddgrych cadwynoc, ney ddigwydd vn o'r mesyrau heb wybod, y mae yn gydymaith y bencerdd.

30 Pencerdd ney athro a ddyly gwybod y cwbl, a chany yn gyfoythoc ag yn groesgynganiddiawl ar gymeriadau,<sup>5</sup> yn dysdyngar ar ddigryfwch, yn ffrwythlawn o synwyr, yn ddeynyddfawr o gerddwriaeth, yn warrantedic o awdyrdawd, yn awenyddawl o ddychymic, val y bo esmwyth y dysgu ney ddatgan y gerdd, a difyrira y gwrando ney y darllain,<sup>6</sup> a hwyra gallu dal co ar voliant

---

<sup>1</sup> Llsg. *a*.

<sup>2</sup> Llsg. *toddiad*.

<sup>3</sup> Llsg. *o*.

<sup>4</sup> Llsg. *difai*.

<sup>5</sup> Llsg. *ar cymeriadau*.

<sup>6</sup> Llsg. *y ddarllain*.

bonyddigion.

[t.189] Cerdd dant, bellach.

35 Dysgybl ysbas heb radd [a] dysgybl ysbas graddol:

Dysgybyl ysbas heb radd: nyd oes dogyn ar y gelfyddyd nag ar y rodd, onyd barn y pencerdd a ellir gwr wrth gerdd ohonaw. Dysgybl ysbas<sup>1</sup> graddol a ddyly gwybod pypm cwlwm o glymau, a chadair, ag y varno athro o ganiadau a gostegion.

40 Dysgybyl dysgyblaidd a ddyly gwybod deg o glymau, a deg o ganiadau, cadair, a cholofn, a gwybod pa gyweiriau a'r mesyrau y bont.

Dysgybl penceirddiaidd a ddyly gwybod [vgain o glymav], igain o ganiadau, dwy golofyn, a dwy gadair, pedwar ar higain o glymau cydgerdd, a'r pedwar messyr ar higain, a'y dosbarth a'y cany yn benceirddiaidd; ag vn rodd a  
45 ffencerdd, eithyr ny ddyly ymgystadly a ffencerdd ney athro tra vo yn y radd hono.

Pencerdd ney athro a ddyly gwybod deg ar higain o glymau ymrysson, ag o hyny, o'r hyn<sup>2</sup> lleiaf, tair o'r colofnau, tair o'r cadiriau. Ag a vyno dwyn ariandlws<sup>3</sup> telyn ney grwth raid yw yddo wybod y pedair cadair, a'r pedair  
50 colofn, a'r pedwar mesyr ar higain a dec cwlwm ar higain cydcerdd arnynt, a dosbarthu pob gwahan a ragwahan, pob cynhwysiad, a gorffwysva pob symydiad ar dyniad a chyweirdant, a dangos cerdd dant o'y waith y hvn yn

---

<sup>1</sup> Llsg. *ysbos*.

<sup>2</sup> Llsg. *hwn*.

<sup>3</sup> Llsg. *ariandls*.

benceirddiaidd ag yn athrawaidd, val y bo cydwy[t.190]bodys y benceirddiaid a  
doethion y varny a'y ddewisso yn awdyr ag yn athro ar y gelfyddyd; cans ny  
55 ddyly neb ddysgu ond gan athro penceirddiaidd, ney gael gantho varny ney ossod  
yn iawn a ddysger gan arall.

Ag os tylynior vydd raid yddaw wybod tri mwchwl odidawg, y cwlwm  
y raddiwyd gynt yn gyfiwch a deg cwlwm ar higain, ond canu deg cwlwm ar  
higain o'r blaen; ag yn y deg ar higain hyny, tair cadair a thair colofn, o'r hyn  
60 lleiaf, a'y cyfri yno yn vn cwlwm bob vn, val petai yn ceisio gradd. Pob colofn  
o bymp colofn a raddiwyd yn ddeg<sup>1</sup> cwlwm bob vn; pob cadair a dal bymp<sup>2</sup> bob  
vn. Ag nyd y neb y geisio gradd y cawsant y ragorvraint hwnw, nag y prisiwyd<sup>3</sup>  
hwynt velly yn gyfywch o rifedi clymay, onyd lle bai dday bencerdd yn ymrysson  
am ariandlws, ney ymrysson arall rwng penceirddiaid ney ddysgyblon am gael  
65 ragoriaeth wedy caffel y graddio yn y blaen mewn eisteddfae ney neithorau  
riolion am vlaen a gossod, o gydnabod ragor rwng cydraddolion vrodyr o'r  
gelfyddyd.

Wedy hyny yr ordeiniwyd y'r athrawon a'r penceirddiaid gymeryd  
dysgyblion wrth riolaeth y gelfyddyd, nyd amgen [t.191] vn ar vnwaith mewn  
70 dogyn o brentisiaeth; ag na bo y dysgybl wnythyr dysgybl arall heb genad athro  
ym myw y athro; ag ar bob dysgybl vod gyda'y athro bob Grawys dan boen colli  
y radd ony bydd achos carchar, ney glefyd, ney gyfriw achos cyfraithlawn.

---

<sup>1</sup> Llsgr. *yny deg*.

<sup>2</sup> Llsgr. *pymp*.

<sup>3</sup> Llsgr. *prifiwyd*.

Hefyd na bo prydydd a gano cerdd y erchi march, gwalch, ne vilgi, ney gyfriw anwyldlws nodedic, heb ganiad<sup>1</sup> y berchenawg; ag nas anfono gwr wrth gerdd dan boen ffin.

75

Hefyd na wnel neb ddanwared y athro nag arall ar y veddwl na'i vefyrdod.

Hefyd na wnel dysgybl gerdd heb y dangos y'w athro y wybod y bod yn iawn cyn y chany allan.

80

Hefyd gorchymyn y bawb na wnelont arveroedd vacabwns, rodiad ney grwydrad; ag nad el neb o'r ty y del yddaw tra byrhasso y wledd heb genad gwr y ty, er [i] wahawdd gan arall, dan boen colli y rodd; ag od a o dy y dy: y ddal val vacabwnd, a dwyn a fo yn y bwrs, a'y roi yngoleyad yr eglwys blwyf; ag o brwysga yn y wledd: colli y rodd.

85

Hefyd o gwna lateiaeth ney ansyberwyd am wraig ney vorwyn lle y del y ddangos y gelfyddyd: dwyn ffin a charchar, a cholli y radd a'y roddion saith mlynedd.

Hefyd nad elont y dafarnau ney gornelau cidiedic y chware [t.192] disiau, ney gardiau,<sup>2</sup> ney chwaraau arall am dda; ag od ant, lle y dalier, pawb yn swyddog arnynt y ddwyn a fo yn y pyrsau.

90

Hefyd na ddysgont na senau na riniau gwradwyddys, na chyfriw a hyny – gogany, gwatwar, [*danwared, kablv, ysbio, dychmygv kelwydd*] ney y ddywedyd yn ol arall - dan boen ffin a charchar.

---

<sup>1</sup> Llsg. *heb gainad*.

<sup>2</sup> Llsg. *ney gardau*.

95 Hefyd na wnelont gynhenau, ffrayae, twyll ney ledrad, myrn ney  
gynllwyn, ymgalyn a lladron ney a'r neb y wnel llyfodraeth ddrwc arall; cans  
gwyr wrth gerdd a ddylant ymddwyn yn heddychol, hawddgar, caredic, vfydd,  
gwsnaythgar, ag y bawb o gywiriaid y brenin a'u swyddogion y cadarnhau a'y  
swkrio.

100 Hefyd mis ymlaen pob gwyl arbenig y dylant ymorol a'y hathrawon y  
wybod p'le yr ant, rag myned gormod y'r vnllle; ag nad el ond vn at wr o ddeg  
pynt o vywyd, dau at wr o igain pynt o vywyd, ag wrth y radd hono at y vo ywch  
o vywyd ar<sup>1</sup> y tair gwyl arbenig. Ar bob athro bod copi o'r order hon er y dangos  
ag er y choffau y'w ddysgyblon pan ddelont y gymryd y disc y Grawys.

105 [t.193] Llyma val y nodwyd roddion bob gradd wrth Ystatys y Tywysoc  
Gryffydd ap Cynan:

Rodd pencerdd y tair gwyl arbenig (y Pasc, y Nydolic a'r Sylgwyn) a lle  
bo nithor rial y vab vchelwr: iiis a iiiid.

Rodd dysgybl dysgyblaidd ar y ryw amseroedd a ddywetpwyd vchod: iis.

110 Rodd dysgybl ysbas ar yr enwedic<sup>2</sup> ddyddiau hyny: xiid; hefyd ar wyl  
mapsant a neithor ny bo neithior rial: xiid.

Cwrs clera y dysgybyl ddysgyblaidd: viiid. Dysgybl ysbas graddol: vid.

Teleywr, o ran iache bonyddigion, lle y gwypo ddwyn iach y gwr a'r wraig  
at vn o'r llwythau reiol a vu yn dwyn arfau gynt: dwy genioc; a'r lle ny vettro  
dwyn ond vn ai'r gwr ai'r wraic: cenioc, gyda syberwyd bonyddigion.

---

<sup>1</sup> Llsgr. *ney ar*.

<sup>2</sup> Llsgr. *ewedic*.



115 Hefyd o daw gwr o wlad arall y glera heb<sup>1</sup> ysgrifen vn o'r penceirddiaid  
y ddangos beth vydd y radd ag y ddyle<sup>2</sup> y gael, bod heb y rodd lle y gofynner am  
hyny, ag yntau yn ddyffgiol.

O bydd ariandlws yn gorwedd yn segyr yn y<sup>3</sup> orffwysle perthynassol, ney  
p'le bynag y bo lle y gorchmyno yr athro a'r dygiawdr diwaythaf a fyssai yn y  
120 ddwyn, [t.194] a bod penceirdd yn ymglywed y hvn yn aby l o gelfyddyd y'w  
arwain ac y ateb drostaw, y chymeryd a all oddyno, a roi cyflawn<sup>4</sup> rybydd o  
vndydd a blwyddyn ymhob ffair a marchnad a llys gyfraithlon o vewn y dalaith  
y ddangos y vod ef yn cymeryd yr ariandlws dan y berigl. Ag os neb a wna  
sialens arno, roi dan y berigl yntau o vewn vndydd a blwyddyn drwy roi gwystl  
125 o ariandlws o aur ney arian yn y erbyn, a'y radd heblaw hyny. Ag os gallu cadw  
yr ariandlws a wna yr ymddiffynwr y term y ddywetpwyd vchod drwy ateb y  
bawb a'y sialensio, ny ellir y ddwyn oddi arno yn y oes; onyd raid yw yddaw yn  
yr isteddfod gyfraithlon nessaf at hyny ddyfod a dangos y vod yn abl y'w arwain  
o gelfyddyd ag awdyrdawd, y wnythyr dysgyblon wrth yr Ystattys a braint y  
130 gelfyddyd. Ag o hyny allan, y'r dalaith y gymryd yn athro ar y gelfyddyd, ag y  
bawb o'r pendefigion y swcrio wrth yr Ystattys a braint y gelfyddyd. Ag na bo  
y neb sialensio arwenwr [t.195] yr ariandlws ond y gafoedd gradd dysgybl  
penceirddiaidd yn y blaen. Ag os roi sialens y wna, ney ymwadney o'r ariandlws,

---

<sup>1</sup> Llsg. *a heb*.

<sup>2</sup> Llsg. *a ddylo*.

<sup>3</sup> Llsg. *ney*.

<sup>4</sup> Llsg. *cyfiawn*.

a heb allu dwyn hyny y ben, colli y radd a'y chwerthydd.<sup>1</sup>

135

Ag velly y tervyna hyny.

---

<sup>1</sup> Llsgr. *ay chwerddydd*.

## E

### Llanstephan 195

#### tt.3 - 5

[t.3] Bid ysbys i bawb o voneddigion a chyffredin vod eisteddva ar wyr  
wrth gerdd tavod a thant o vewn tref Gayrwys yn Sir y Fflynt yr vgeinved dydd  
o vis Gorffena, y bymthegfed floyddyn o raynedigaeth Harri Wythved, o rym  
comyssiwn a'r oedd i Syr William Gruffudd, siambyrlen<sup>1</sup> Gwynedd, a Syr Rogerr  
5 Salwsburi, ystiwart Dynbych, ag eraill, drwy bersenol gyngor Gruffydd ab Ifan,  
gwr bonheddig, a Thudyr Aled, bardd kadeiriog, a llawer o voneddigion a  
doethion erill, er gwnevthvr ordyr [a] llywodraeth ar gerddwyr ac ar [y]  
gylvyddydd, nid amgen i gadarnhav a chonffermio y penkeirddiaid, y sawl a gavas  
gradd yn y blaen, ac i raddio y sawl a'i haeddo, ag i rod-di ysbas i eraill i ddyscv  
10 ac i vvyvrio yn nesaf [ag] i galler wrth gydwybod ac wrth hen Ystatys Gruffydd  
ab Kynan.

Llyma y sawl y maent rydd vddvnt glera: gwr wrth gerdd anafus, er na bo  
gradd iddo, megis gwr dall; dysgybl ysbas; dysgybl disgyblaidd; dysgybl  
penkeirddiaidd; a ffenkerdd.

15 Dysgybl ysbas kerdd dafod a ddyly wybod i silldafav, a ffvmp messvr  
englyn (nid amgen vnodyl vnion, vnodl kwrka, vnodyl kyrch, prost kyfnewidiog,  
prost kadwynoc), kowydd devair hirion a'i vesvr, kanv vn o'r chwe mesvr yn

---

<sup>1</sup> Llsg. *siabyrlen*.

awenyddgar ymarn penkerdd a ddoetto ar i gydwybod a ellir pyrydydd ohono.

20 Dysgybl dysgyblaidd a ddyly wybod devddeg o'r mesvre, nid amgen  
pvmp o'r englynion, pedwar o gywydde (devair hirion, devair vyrion, kowydd  
llogymnoc, owdwl gowydd), tri mesvr owdyl (toddaid,<sup>1</sup> gwawdodyn byr a  
gwawdodyn hir); a gochel y pymtheg bai kyffredin; a dangos o'i waith i hvn ar  
bob vn o'r xij mesvr yn ddivai, ddysgyblaidd.

25 Yn ddysgybl penkeirddiaidd y dyly wybod yr holl silldafav, a'i rwoli  
ymadroddion yn ol gramadec, dosbarth y kynganeddion,<sup>2</sup> gochel yr holl feiav,  
kanv yn kydsain ne yn gyfochr<sup>3</sup> i gerdd ar xxi o'r mesvrav. Er na chano gerdd  
gadwynver nev dowddgroch kadwynoc, nev ddigwydd vn o'r mesvrav heb i  
wybod, y mae yn gydymaith i benkerdd.

30 Yn benkerdd y dyly wybod y kwbl, a chanv yn gyvochr ac yn  
groesgynganeddawl ar gymeriadav, yn destungar ar ddygrifwch, yn ffrwythlawn  
o synwyr, yn ddenyddfawr o gerddwriaeth, yn wrantedic o awdvrdod, ac yn  
awenyddol o ddychymic, val i bo esmwythaf dysgv ne ddatkan i gerdd, a dygriva  
a divyraf i gwrando, a hwyaf gallv dal kof ar voliant boneddigion.<sup>4</sup> Ac velly y  
tyrvyna ran prydydd.

35 [t.4] Kerdd dant.

Dysgybl heb radd: nid oes ar i gelvyddyd nac ar i rodd ond barn penkerdd

---

<sup>1</sup> Llsgr. *toddiaid*.

<sup>2</sup> Llsgr. *kyngnaveddion*.

<sup>3</sup> Llsgr. *gyforch*.

<sup>4</sup> Llsgr. *boneneddigion*.

a ellir gwr wrth gerdd ohono.

Dysgybl ysbas graddol a ddyly wybod pmp kwlwm o gylme, a chadair,  
a barn athro o ganiadav ac o osdegion.

40 Yn ddisgybl dysgyblaidd i dylly wybod deg o ganiade, deg o gylme,  
kadair, a cholon, a gwybod pa ryw goweiriav ar y mesvrv i bon.

Yn ddisgybl penkerddiaidd y dylly wybod vgain o gylme, vgain o  
ganiade, dwy golofn, a dwy gadair, pedwar ar hvgain o gylme kydgerdd, a'r  
pedwar mesvr ar hvgain, a'i dosbarth a'i kanv yn benkerddiaidd; ac vn rodd a  
45 fferkerdd a vydd, neithyr ni ddyly ymgystadlv a fferkerdd tra vo yn y radd hono.

Yn benkerdd y dylly wybod deg ar hvgain o gylme ymryson, a[c o] hyny,  
o'r hyn lleiaf, tair kolofn, tair o'r kadeirie. A vyno dwyn ariandlws telyn nev  
grwth, raid yw iddo wybod y pedair kolofn, a'r pedair kadair, a'r pedwar messvr  
ar hvgain [a] xxiiij o glyme kytgerdd arnvnt, a'i dosbarth pob gwan a ragwan,  
50 pob kynhwysiad, a gorffwysva<sup>1</sup> pob ysmvdva ar dyniad a chowirdant,<sup>2</sup> a dangos  
kerdd yn wrantedic o'i<sup>3</sup> waith i hvn yn benkeirddiaidd ac athrawaidd val i bo  
kydwybodys i benkeirddiaid a doithion i varnv a'i ddewiso yn awdvr ac yn athro  
ar i gelvyddyd. Ni ddyly neb ddyscv ond gan athro penkeirddiaidd, nev gael  
gantho varnv nev ossod yn iawn a ddysger gan arall.

55 Ac os telynior vydd raid yw iddo wybod tri mwchyl odidoc, y kwlwm a  
raddiwyd gynt yn gyviwch a deg kwlwm a devgain. Pob kadair o'r pedair

---

<sup>1</sup> Llsgt. *ac orffwysva*.

<sup>2</sup> Llsgt. *a chowirdan*.

<sup>3</sup> Llsgt. *ai*.

kadair, pvm kwlwm pob vn; pob kolofn [o'r pedair kolofn], dec kwlwm pob vn.

60 Gwedi hynny ir ordeniwyd [i]athrawon ar benkerddiaid gymryd dysgyblon  
wrth rwolaeth i'r gelvyddydd, nid amgen vn ar vnwaith mewn dogn brentisiaeth;  
ac na bo i ddysgybl wnevthvr dysgybl arall; ac ar bob dysgybl bod gida'i athro  
bob Grawys dan boen kolli i radd oni bydd achos – karchar, nev glevyd, nev y  
kyfriw achos kyfreithlawn.

65 Hevyd na bo prydydd a gano kerdd i erchi gwalch, march, milgi, nev  
kyfriw anwydlws nodedic, heb genad [i] berchenoc; ac nas anvono gwr wrth  
gerdd dant adre dan boen ffin.

Hevyd na wnel neb ddynwared athro na'i veddwl na'i vyvyrdod.

Hevyd na wnel dysgybl gerdd heb i dangos o'i athro, a gwybod i bod yn  
iawn kyn i chanv allan wrth varn i athro.

70 Hevyd gorchymyn i bawb na wnelont arveroedd backamwnt, rodiad<sup>1</sup>  
nev<sup>2</sup> grwydriad; ac nad el neb o'r ty [y] del iddo tra barhao y wledd yno heb  
genad gwr y ty nev wadd gan arall, dan boen i glera; ac od a o dy i dy: i ddal val  
vackamwnd, a dwyn i glera, a'i roi yngolevad yr eglwys.<sup>3</sup>

Hevyd o brwysca yn y wledd: kolli i rodd.

75 [t.5] Hevyd o gwna lateieth nev ansyberwyd am wraic nev vorwyn lle i  
del: dwyn ffin a charchar, a cholli i glera saith mylynedd.

Hevyd nad elon i dafarnav nev gornelav kvddiedic i chware disie, nev

---

<sup>1</sup> Llsgr. *rodio*.

<sup>2</sup> Llsgr. *new*.

<sup>3</sup> Llsgr. *y yr eglwys*.

gardie, nev chware arall am dda; ac od ant,<sup>1</sup> pawb yn swyddawc arnvt, a  
dwyn hyn a vo yn ev pyrsev.

80 Hevyd na ddysgant na senav na rimynav gwradyddvs, na chyfriw a  
hynny – goganv, gwattwar, dynwared, kablv, ysbio, dychmygv kelwydd nev i  
ddovdvd yn ol arall kelwyddoc – dan boen ffin a charchar.

85 Hevyd na wnelont gamav na ffray, twyll nev ladrad, mvrn ne gynllwyn,  
dan boen ffin a charchar, nag ymgalvn a lladron na'r neb a wnel llyvodraeth  
ddrwc arall; kanys gwyr wrth gerdd a ddylant ddwyn ymadroddion heddychol,  
90 howddgar, kyredic, vfvdd, gwasnaethgar, ac i bawb o swyddogion y brenin i  
kadarnhav a'i swckrio.

95 Hevyd mis ymlaen pob gwyl arbenic, ymorol a'i athro i wybod pa le ir el,  
rag myned gormod i'r vnle; ac nad el ond vn at wr o ddeg pvnt o vowyd, dav at  
wr o vgein pvnt o rent, ac wrth y radd honno at a vo vwch o rent,<sup>2</sup> ac i bob athro  
90 bod koppi o'r ordyr hon er [ei] dangos vddvnt ag y'w koffav pan ddelont i  
gymryd i dysc y Grawys.

Hefyd am roddion gwyr wrth gerdd, bob gradd yn i radd:<sup>3</sup>

Dan ddysgybl dysgyblaidd: nid oes dim rodd iddo.

95 Dysgybl dysgyblaidd pob vn o'r tair gwyl avrbenic (nid amgen Pasc, y  
Nydolic a'r Svlwyn): pedair ar hvgain o rodd; pob neithior reirol yr vn modd:  
xxiiij; kwrs klera: chwe chenioc vnwaith bob tair blynedd; neithiorav kyffredin:

---

<sup>1</sup> Llsg. *ac o dant i gwnant*. [A]c o gwnant a geir yn H, L, W, C<sup>(1)</sup>.

<sup>2</sup> Llsg. *ac wrth y radd honno at a vo vwch o rent, dav at wr o vgein  
pvnt o rent*.

<sup>3</sup> Llsg. *gradd*.

yr vn modd, vjd vnwaith.

100 Dysgybl penkerddiaidd: iij swllt a iiij keinoc pob vn o'r tair gwyl  
avrbenic; neithior reiol: yr vn modd, iij swllt iiij keinoc; kwrs klera pob tair  
blynedd: devdded keinoc; pob neithior kyffredin: yr unn modd, xijd.

Rodd penkerdd o brydydd am i gowydd: kenioc a ffedwar vgain; ac os  
athro vydd, mae iddo angwanec o ddillad, nev arf, nev rvw dlws arall.

Rodd disgybl disgyblaidd o brydydd am i gowydd nev [i] owdwl: iij swllt  
a iiij kenioc; kwrs klera: val gwyr wrth gerdd dant o'r radd honno.

105 Ac velly i tervyna hyn o ordyr a llyvodraeth ar ol hen Ystatvs Gruffydd  
ap Kynan, twysoc Yberffro.

Hevyd o daw gwr o wlad arall i glera heb ysgriven vn o'r penkerddiaid  
i ddangos beth a ddyly i gael wrth i radd, ag onis bydd bod heb i rodd.



F

**B 15038**

**ff. 94<sup>r</sup> - 99<sup>r</sup>**

[f. 94<sup>r</sup>] Gryffydd ap Kynan, twysoc Kymrv, a wnaeth kyvraeth ar

y gwyr wrth gerdd,

yr honn a elwir Ystatyt Gryffydd ap Kynan.

Llyma y sawl ysydd rydd yddynt glera: gwr wrth gerdd anafys, megis gwr  
5 dall; dysgybl ysbas; dysgybl<sup>1</sup> dysgyblaidd; dysgybl pennkerddiaidd;<sup>2</sup> a ffenkerdd.

Dysgybl ysbas kerdd dafod a ddyly wybod i silldafav, a ffymp mesyr  
englyn (nid amgen [vnodl vnion], vnodl<sup>3</sup> krwka, ac vnodl kyrch, prost  
kyfnewidioc, prost kadwynoc), a mesyr kowydd deyair hirion, a'i kanv yn  
awenyddgar ymarn penkerdd a ddweto ar i gydwybod a ellir prydydd ohono.

10 Yn ddysgybl dysgyblaidd y dylai wybod deyddec o'r mesyre: pypm mesyr  
englyn, pedwar mesyr kowydd (deyair hirion, a deyair vyrion, owdl gowydd a  
chowydd llosgymoc), tri mesyr owdwl (toddaid, gwawdodyn byrr, gwawdodyn  
hir); a gochel y pymthec bai kyffredin; [f. 94<sup>r</sup>] a dangos kerdd o'i waith i hvn ar  
bob vn o'r deyddec mesyr yn ddifai, ddysgyblaidd.

---

<sup>1</sup> Llsg. *dysgyb*.

<sup>2</sup> Llsg. *penn keddiaidd*.

<sup>3</sup> Llsg. *vynodl*.

15 Yn ddysgybl pennkeirddiaidd i dylai wybod yr holl silldafav, a rrywl yr ymadroddion yn ol y gramadec, a dosbarth y kynganyddion, gochel yr holl veiav, kany yn gytsain ne yn gyfochr i gerdd ar vn ar hvgain o'r mesyreu.<sup>1</sup> Er na chano gadwynfyr nev dawddgrych kadwynoc, ne ddygwydd vn o'r mesyre heb wybod, y mav yn gydymaith i benkerdd.

20 Yn benkerdd i dily wybod y kwbl, a chany yn gyfochor ac yn gytsain, yn groesgynganeddawl ar gymeriadav, yn destyngar ar ddigrifwch, yn ffrwythlawn o synwyr, yn ddenfyddfawr o gerddwriaeth, yn warantedic o awdyrdod, ac yn awenyddawl o ddychymic, val i bo howsa dysgy ne ddatgan i gerdd, a difyrraf [i] gwrando ne'i ddarllain, a hwya [gallu] dal kof ar voliant gwyr  
25 boneddigion.

Kerdd dant.

Dysgybl ysbas heb radd iddo: nid oes ar i gelfyddyd nac ar i rodd ond barn pennkerdd<sup>2</sup> a ddwedo ar i gydwybod a ellir gwr wrth gerdd ohonno.

[f. 95] Dysgybl ysbas graddol a ddyle wybod pym kwlwm, a chadair, dec  
30 kwlwm, a cholofn, ac wyth o ganiadav.

Yn ddysgybl dysgyblaidd i dyle wybod dec kwlwm, a dwy gadair, vgain kwlwm, a dwy golofn, ac vn ar bymthec o ganiade, a ffedwar mesyr ar hvgain, a'i kanv drwy ryol.

Dysgybl pennkerddiaidd a ddyly wybod pymthec o glyme, a thair kadair,  
35 a xxx o glyme, a thair kolofn, a ffedwar ar hvgain o ganiade, a'r pedair gostec,

---

<sup>1</sup> Llsg. *mesyrou*.

<sup>2</sup> Llsg. *penn kerrdd*.

a medry y pedwar mesyr ar hvgain, a medry mesyro'i gelfyddyd drwy ryolaeth, a dosbarth [ac] 'adnabod gwahan rrwng pob rryw a'i gilidd.

Pennkerdd a ddyle wybod vgain o glyme, a ffedair kadair, a deigain o glyme, a ffedair kolofn, a xxxij o ganiadav, a ffedair gostec, a gwybod mesyro a  
40 dosbarth ar xxiiij, a'i dosbarth megis y mav y dosbarthlyfr yn doedyd, a medry gwneythyr kerdd i hvnan [f. 95<sup>v</sup>] yn ddifai, yn gelfyddys, ac yn awenyddgar, a medry holl ddosbarth gwahan rrwng pawb a'i gilidd, bob kynhwysiad, a gorffwysva pob symydfa ar gweirdant a thyniadav kyddiedic ac anghyddiedic, pob nod ar gweiriav i gid, a dangos<sup>1</sup> kerdd yn warantedic o'i waith i hvn yn  
45 bennkerddiaidd ac yn athrawaidd, val i bo kydwbybod i benkerddiaid a doethion i varny a'i ddewiso yn awdr ac yn athro ar y gelvyddyd. Ni ddyle neb ddysgv ond gan athro pennkerddiaidd, ne gael ganto osod yn iawn a ddysgai gann arall.

Ac os telynior vydd raid iddo wybod y tri mwchwl odidawc, yr hwnn a raddiwyd yn gyfiwch a dec kwlwm a devgain, ond kany y dec kwlwm a deygain<sup>2</sup>  
50 o'r blaen; a'r tri mwchwl newydd yn gwch i radd a'r pedair kadair – hynny ydiw, vgain kwlwm – ond kanv yr vgain kwlwm o'r blaen.

Gwedi hynny ir ordeiniwyd<sup>3</sup> i'r athrawon a'r pennkerddiaid gymryd dysgyblon wrth reolaeth i'r gelfyddyd, nid amgen noc vn ar vnwaith mewn dogon<sup>4</sup> prentisiaeth; ac na bo i ddysgybl wneythyr dysgybl arall; ac ar bob

---

<sup>1</sup> Llsg. *danggos*.

<sup>2</sup> Llsg. *deygan*.

<sup>3</sup> Ysgrifennir y geiriau *ir ordeiniwyd* ddwywaith yn y llsg. wreiddiol.

<sup>4</sup> Llsg. *gonon*.

55 dysgybl vod gida'i athro bob Grawys dan boen kolli i rodd oni bydd karchar, ne  
glefyd, ne'r kyfriw [f. 96<sup>7</sup>] achos kyfreithlon a hwnnw.

Hevyd na vo prydydd a ganno kerdd i erchi march, gwalch, ne vilgi, ne'r  
kyfriw anwyldiws, heb genad i berchenoc; ac na[d] anfono gwr wrth gerdd dant  
dan boen ffin a charchar.

60 Hevyd na<sup>1</sup> wnel dysgybl danwared ar i athro'i hvn nac ar athro arall, nac  
ar i veddwl na'i weithred.

Hevyd gorchymyn na wnel dysgybl gerdd heb i dangos y'w athro, a  
gwybod wrth varn i bod yn iawn kynn i chanv.

65 Hevyd gorchymyn i bawb na wnelon arferoedd vakabwns nev rodiaid o  
dy i dy; ac nad el gwr wrth gerdd o'r ty i del iddo tra byrhao y wledd [heb gennad  
gŵr y tŷ] a gwawdd gann eraill, dan boen kolli [i] glera; ac od a o dy i dy: i ddal  
val fakabwnd, a dwyn i glera.

Hevyd o brwysga yn y wledd: kolli i rodd.

70 Hevyd o gwna lateieth ne ansyberwyd am wraic ne vorwyn: dwyn ffin a  
charchar, a cholli glera yno saith mylynedd.

Hevyd nad elont i dyfarnav ne gomalav kyddiedic i chware dise, ne  
gardie, na chware arall am dda yn y byd; ac os gwnant, pawb yn swyddoc arnynt,  
a dwyn i pyrsav ac a vo yndynt.

Hevyd<sup>2</sup> na ddysgon rimynav na senav gwradyddys, na goganv, na

---

<sup>1</sup> Llsgr. *n*.

<sup>2</sup> Llsgr. *Heved*.

75 gwatwar, danwared, kabyl, ysbio, a dychmygv<sup>1</sup> kelwydd ne i ddwedyd yn ol arall  
kelwddoc, dann [f. 96<sup>v</sup>] boen ffin a charchar.

Hevyd na wnelont ffræe, twyll, lledrad, myrn na chynllwyn, na chalyn  
lladron na neb a wnel anllywodraeth arall; kans gwyr wrth gerdd a ddylai ddwyn  
ymadroddion heddychol, howddgar, kredigaidd, yfydd, gwsnaethgar, ac o  
80 byddant velly i bawb o swyddogion y brenin i kadarnhav a'i swkro hwynt.

A mis ymlaen pob gwyl arbenic i dylant ymorol a'i hathrawon i wybod  
ple'r elont yr wyl hono, rac myned gormodd i'r vnllle; ac nad elont ond vn at wr  
o ddec pynt, a dav at wr o vgain pynt o rent o'r tair gwyl arbenic, ac wrth y rat  
honno at a fo ywch o renti; ac i bob athro vod kopi o'r Ystatyd hon ganto y'w  
85 dangos y'w ddysgyblon pan ddelont ato i gymryd dysc y Grawys.

Rodd disgybl pennkerddiaidd yw iijis iijid bob vn o'r tair gwyl arbenic, a  
ffob neithior reiol [vn rhodd a'r tair gwyl arbennig; a rhodd y penkerdd] yn vwy  
o syberwyd na rrodd y dysgybl.

Dysgybl ysbas graddol: oni ddysg vod yn ddysgybl dysgyblaidd erbyn  
90 penn y tair blynedd yn yn ol kymryd y radd honno, kolli y radd a gowse [fel] na  
bo vn radd iddo.

Dysgybl dysgyblaidd ni ddysgo bod yn ddisgybl[f. 97] pennkerddiaidd  
ymhen y tair blynedd: kolli i radd ddysgyblaidd.

Dysgybl pennkerddiaidd ni ddysgo bod yn benkerdd ymhen y tair  
95 blynedd: kolli i radd pennkerddiaidd a sefyll yngradd dysgyblaidd.

Datgeiniad a ddyle wybod kanv telyn a'i chweirio, a gwybod pedair ar

---

<sup>1</sup> Llsg. *dychmygv*.

ddec o brifgeinke ar danne, a datgan kowydd gida hwy, a gwybod kwlwm a  
chaniad, a gwybod i silldafav, a gwybod a fydd pennill o gowydd yn i le, a medry  
i rroi yn i lle oni byddant. A'i rodd yw pedair ar hygain pob vn o'r tair gwyl  
100 arbenic; a neithiore kyffredin a chwrs klera bob tair blynedd: chwe cheinoc.

Pedair kerdd radd ysydd wrth yr Ystatyd: prydydd, telynior, krythor a  
datgeiniad. Pedair [kerdd] diradd ysydd yn i galw yn bedair ofergerdd,  
nid amgen pibydd, hydol, tabrer,<sup>1</sup> a ffidler; a rrodd pob vn o'r pedair hynny yw  
keinoc, a chanv o'i sefyll; ac oni bydd bodlon y'w rodd: gofram.

105 Llyma val i dodwyd wrth Ystatyd Gruffydd ap Kynan roddion i bob gradd  
yn i radd o gerdd dafod a thanav:

Athro a dysgybl pennkerddiaidd: vn rodd ynt, ond na ddyly dysgybl  
ymgystadly a'r athro, ond gadv iddaw i ragawr. I rodd yw iijs a iiijd.

Rodd dysgybl ysbas graddol: swllt.

110 Rodd dysgybl disgyblaidd: [f. 97] devswllt; a hynny yw i rodd bob vn o'r  
tair gwyl arbenic.

Ac os amledd o brydyddion a vydd, [a] gwneythr kyff kler, ac wrth destyn  
gwneythr gostegion, y kyff kler a ddylai ddybly i rodd ne ddwbled nesaf i'r orav  
i'r mab a bioedd y neithor.

115 A ffob neithior reiold i gellir graddio gwr wrth gerdd yn y radd a ddylai oni  
bydd ysteddfod yn i amser y'w chael, ac wrth hynny i gall ef ofyn i rodd yni ddel  
ysteddfod y'w sikrav yndi; ac onid ynnill yno, i cholli byth.

Rodd pennkerdd mewn neithor gyffredin, gwyl mabsant, ne gylchwyd (yr

---

<sup>1</sup> Llsgr. *tabner*.

hwnn a elwir kwrs klera): swllt.

120 Rodd dŷgybl dysgyblaidd<sup>1</sup> yn yr amseroedd hynny (neithor, ne wyl mabsant, a chwrs klera): viijd.

Rodd dysgybl ysbas graddol yr amseroedd ychod: vjd.

Dysgybl<sup>2</sup> ysbas heb radd: nid oes rodd nodedic iddaw ond syberwyd tra fo yn enill gradd wrth yr ysbas a gafodd.

125 Rodd telywr, o rann iachav boneddigion, [f. 98<sup>r</sup>] lle gwypo ddwyn iach y gwr a'r wraig at vn o'r prif lwythi reiol a fy'n dwyn arfav gynt: dwy gennioc; a lle ni fetro dwyn ond vn ai'r gwr ai'r wraig: kennioc.

Hevyd o daw gwr diert h o wlad arall ne dalaith arall i glera, ac<sup>3</sup> ni bydder kydnabyddys arno heb ysgrifen vn o'r pennkerddiaid gidac ef i ddangos<sup>4</sup> beth a ddylai i gael, bod heb i rodd lle gofyrer am hynny iddo, ac ynte yn effygiol.

130 Ysteddfod ne neithor reiol a ddyly bod yddynt gyflawn rybydd o ysbas vndydd a blwyddyn, a hynny drwy gyffredinol rybydd ygored ar goedd ymhob hynod, nodedic ddinas, llys gyfreithlawn, a mameglwys o fewn y dalaith, oddieithr i bendefigion y dalaith a ffenkerddiaid, o gytundeb, vrrhav'r ysbas a'r amser penn welont i vod yn iawn.

O bydd ariandlws yn gorwedd yn segyr yn i gorffwysle byrthnasawl, ne p'le bynac ar i bo lle gorchmynodd yr athro a'r dygiawdr diwaythaf a fy yn i

---

<sup>1</sup> Llsg. *dysgybl dysgybl dysgybl*.

<sup>2</sup> Llsg. *desgybl*.

<sup>3</sup> Llsg. *ar*.

<sup>4</sup> Llsg. *ddaangos*.

harwain, a bod y pennkerdd yn i glowed i hvn yn abl y'w dwyn wrth vrait i  
gelfyddyd ac i ateb drostaw, y'w [f. 98'] gymryd, a roi kyflawn rybydd o vndydd  
140 a blwyddyn ymhob ffair a marchnad a llys gyfreithlawn o vewn y dalaith i  
ddangos i fod yn kymryd yr ariandlws dann i berigl, ac yn ymadnav ohonaw. Ac  
o byddai neb a roi sialens arnaw o vewn vndydd a blwyddyn, [rhoed] dan i berigl  
yntav; sef yw hynny: kyfan werth yr ariandlws o avr nev arian, a'v radd heblaw  
hynny. Ac na chaiff neb sialensio arwenawdr yr ariandlws onid a gafas gradd  
145 dysgybl pennkerddiaidd yn y blaen. Ac os roi sialens a wna, nev<sup>1</sup> ymadnav, a  
heb allel dwyn hynny i benn, kolli i radd a gwerth yr ariandlws. Ac os gally  
kadw yr ariandlws o'r ymddiffynwr y term a ddwetbwyd ychod, drwy ateb i bawb  
a'i sialensio, ni ellir i dwyn oddi arno yn i oes; ond rraid yw iddaw yn yr  
ysteddfod gyfreithlon nesa ar a fo ddowad i ddangos i fod yn abl y'w hadnav ac  
150 y'w chadw o gelfyddyd ac awdyrdod, i wneythyr dysgyblon wrth yr Ystatyd a  
braint y gelfyddyd. Ac o hynny [f. 99'] allan, i'r dalaith i gymryd yn athro ar y  
gelfyddyd ef, ac i bawb o bendefigion i swkrio wrth ragorfaint y gelfyddyd.

Pob<sup>2</sup> kadair a dal pypm kwlwm bob vn, ond kanv y pypm kwlwm o'i  
blaen; pob kolofn a dal dec a deygain o glyme, ond kanv y dec a deygain o'i  
155 blaen; ac o'r dec a deygain hynny, pedair kadair a ffedair kolofn, a'i kyfri yn vn  
kwlwm bob vn, val petvai yn keisio gradd. Achos nid i neb i geisio gradd i  
kowsant y rragorfaint hwnnw ac i prisiwyd<sup>3</sup> hwynt yn gifiwch o rrifedi klyme,

---

<sup>1</sup> Llsgr. *nav*.

<sup>2</sup> Llsgr. *pb*.

<sup>3</sup> Llsgr. *prifiwyd*.



ond lle [ba]ji ddav benkerdd ymryson am ariandlws, ne ymrysson arall am vlaen  
a gossod a chadw rragorieth rrwng pennkerddied a dysgyblon gwedi kael gradde  
160 o'r blaen mewn<sup>1</sup> ysteddfodav ne neithiorav reiol.

Ac velly y tervyna Ystatyd Gryffydd ap Kynan, twysoc Gwynedd, ar y  
gwyr wrth gerdd.

---

<sup>1</sup> Llsg. *newn*.

**Peniarth 77****tt. 167 - 74**

Statût Grûffudd ap Cynan ar y gwyr wrth gerdd.

Llyna y sawl ysydd rydd vddûnt glera: gwr wrth gerdd anafûs, megys gwr  
dall;<sup>1</sup> discipl spas; a discipl disciplinaidd; a discipl pencerddiaidd; a phencerdd.

Discipl spas cerdd davod a ddyly wybot [i] sillafaû, a phvmp mesûr ar  
5 englyn (nid amgen [vnodl vnion,] vnodl crwca, ac vnodl cyrch, prost  
cyfnewidioc, prost cadwynoc), a mesûr ar gywydd deûair hirion, a'i canv yn  
awenyddgar ymbarn pencerdd a ddyweto ar i gydwybot a ellir prydydd ohonaw.

Yn ddiscipl disciplinaidd y ddyly wybot deûdddec o vesûraeu: pvmp mesûr  
englyn, pedwar mesûr cywydd (deûair hirion, a deûair vyrrion, owdl gywydd,  
10 cywydd llosgymnoc), a mesûr owdl (toddaid, gwawdodyn byrr a gwawdodyn hir);  
a gochel y pymthec bai cyffredin; a dangos o'i waith e hvn o bob vn o'r xij mesûr  
yn ddisciplinaidd.

Y discipl pencerddiaidd a ddyly wybod yr oll sillafaû, a rheol yr  
ymadroddion yn ol y gramadec, a dosparth y canghaneddion, gochel yr oll veiaû,  
15 [t.168] canv yn gydsain neû yn gyfowchgerdd ar xxj o'r mesûrae. Er na chano  
vyrr na thoddgrych gadwynoc, neû ddigwydd vn o'r mesûrae eb i wybot, y mae  
yn gydymdeith i bencerdd.

---

<sup>1</sup> Uwchben yr *a* yn *dall* ceir *a* arall.

Yn bencerdd y dily wybot y cwbl, a chanv yn gyfochr ac yn gydsain, yn  
groesgynganeddol ar gymeriadau, yn destyngar ar ddigrifwch, yn ffrwythlawn  
20 ar synhwyr, yn ddefnyddvawr<sup>1</sup> ar gerddwriaeth, yn warantedic o awdurdod, ac yn  
awenyddol o ddychymic, val y bo hawsaf i dyscu neû ddatcan y gerdd, [a]  
dyvyrraf hei gwranddo ne'i darllain, a hwyaf gallû dal cof ar voliant boneddicion.

Discipl spas heb radd: nid oes nag ar ei gelyddyd, neû ar i radd, neû ar  
i rodd, ond barn pencerdd a ellir gwr wrth gerdd ohono.

25 Discipl spas graddol a ddyly wybot x cwlwm, a cholon, a phvmp cwlwm  
o gytgerdd, a chadair, ac viij o ganiadau.

[t.169]Yn ddiscipl disciplinaidd y dily wybot xx o glymeû, a dwy golon,  
a chwlwm o gytgerdd, a dwy gadair, ac xvj o ganiadau, a'r xxiiij mesûr, [a]'i  
ganv drwy reol.

30 Discipl pencerddiaidd a ddyly wybod xxx o glyme, a thair colon, a xv o  
glyme cytgerdd, a thair cadair, a xxiiij o ganiadau, a'r pedwar gostec, a medrû'i  
mesûro, a dosparth ac adnabod gwahan rhwng pob rhyw a'i gilydd.

Pencerdd a ddyly wybod deûgain cwlwm, a phedair colon, ac vgein  
cwlwm cytgerdd, a phedair cadair, a xxxij o ganiadau, a iiij gostec, a gwybod i  
35 oll vesûr y gyd a'i reol, gwybod xxiiij o ddifre, a dosparth y mesûr megys y mae  
[yn] y llyvyr.

Dosparth yw dangos a medrû gwneuthûr cerdd i vnan yn ddivai ymbarn  
pencerddiaid,<sup>2</sup> a medrû i oll dospartheû, bob gohan a rhacohan, bob cynnwysiad

---

<sup>1</sup> Llsg. *ddefnyddvar*.

<sup>2</sup> Llsg. *pencerddiaidd*.

[a] gorphwysiad bob ysmydva ar tynniadeû a chyweirdanneû cûddiedic [t.170]  
40 ac anghyddiedic, a'i dangos yn warrantedic o'i waith e hvn yn bencerddiaidd ac  
yn athrawaidd, val y bo cydwybodûs i bencerddiaid a doethion i varnv a'i  
ddewiso yn awdûr ac yn athro ar y gelvyddyd. Ni ddyly neb ddyscû ond gan  
athro pencerddiaidd, neû [gael] ganto osod yn iawn a ddyscer gan arall.

Ac os telynior vydd rhaid iddo [wybod i] dri mwchwl odidawc, yr hwn a  
45 raddiwyd yn gyfwrch a'r pedair colon. Pob colon o'r pedair a raddiwyd yn x  
cwlwm; pob vn o'r tri mwchwl newydd yn gyfwrch o radd a'r iiij cadair, a'r iiij  
cadair yn v cwlwm bob vn.

Gwedy hyny yr ordeiniwyd i'r athrawon a'r pencerddiaid gymeryd  
disciplon wrth reolaeth y gelvyddyd, nid amgen noc vn ar vnwaith mewn dogyn  
50 brentisiaeth; ac na bo i ddiscipl wneûthûr discipl arall; ac ar bob discipl bob  
Grawys vod gyda'i athro [t.171] dan boen colli i radd oni bydd achos – carchar,  
neû y cyfryw achos cyfreithlawn.

Hevyd na bo prydydd a gano gerdd i erchi march, gwalch, milgi, neû y  
cyfryw anwyldlws, eb genad y perchenoc; ac nad anvono gwr wrth gerdd dant  
55 dan boen fin.

Hevyd na bo [i] neb ddânward na gwatwar ar athro am i veddwl a'i  
vevyrdod.

Hevyd na wnel discipl gerdd eb ei dangos y'w athro, a gwybod wrth varn  
hi bod yn iawn cynn i chanv allan.

60 Hevyd gorchymyn i bawb na wnelont arveroedd vagabwnd, rodiad neû  
gyrwydriad; nad el neb i wyl mapsant o'r tûy i del iddo tra pery y wledd yno eb  
gennad gwr y tûy neû wahawdd gan arall, dan boen colli i glera; ac od a o dûy i

dûy: i ddala val vagabwnd, a dwyn i glera, a'i roi wrth raid yr ecclwys; ac o  
brwysca yn y wlëdd: colli i rodd; ac o gwna latyaeth [t.172] neû ansyberwyd am  
65 wraic neû vorwyn lle y del: dwyn fin a charchar, a cholli i glera saith blynedd.

Hevyd nad elont i davarneû neû gorneleû cûddiedic i chware dise, neû  
gardie, neû chwareû arall am dda; neû os gwnant, pawb yn swyddoc arnvt a  
dwyn hyny vo yn i pwrse.

Hevyd na ddyscant na sennaû na rhiminaû gwaradwyddûs, na chyfryw  
70 a hynny – gwatwar, danwarded, caplû, yspio, dychymic celwydd neû ddywedyd  
yn ol arall – dan boen fin a charchar.

Hevyd na wnelont gynnen neû ffray, twyll neû ledrad, mûrn neû  
gynllwyn, nag ymgalyn a lladron na neb a wnel llywodraeth ddrwc arall, dan  
boen fin a charchar; canys gwyr wrth gerdd a ddylant<sup>1</sup> ddwyn ymadroddion  
75 hawddgar, heddychlun, caredic, vfúdd, gwasanaethgar, ac i bawb o gywirieid y  
brenhin a'i swyddocion i gadarnhaû a'i swcrio.

[t.173] Hevyd mis ymblaen pob gwyl ymorol a'i hathro i wybod pa le ir  
el, rhac myned gormod i'r vnle; ac nad el ond vn at wr o xl o vowyd, a daû at  
wr o xxl o vowyd neû rent; ac i bob athro bod copi o'r ordr hon er [i] dangos  
80 vddvnt a'i coffa pen ddelont i gymeryd eû dysc y Grawys.

Am y rhoddion.

Rodd discipl disciplinaidd am i gywydd: iijs iiijd.

Rodd discipl pencerddiaidd am i gywydd: vjs a ixd; ac i athro, ychwanec  
o syberwyd o ddillad neû o ryw dlws.

---

<sup>1</sup> Llsg. *a ddlyant*.

Discipl spas graddol: xijd bob<sup>1</sup> vn o'r tair gwyl arbenic.

[*Dysgibl dysgyblaidd iijs bob vn o'r tair gwyl arbenic*]<sup>2</sup> (Pasc, a'r Natolic, a'r Sulgwyn), a phob neithior reiol; neithioreu eraill a chwrs clera bob dair blynedd: vijd.

90 Rodd discipl pencerddiaidd bob vn o'r tair gwyl arbenic: iijs a iijid, a phob neithior reiol yr vn modd; neithioreu [t.174] ereill a chwrs clera vnwaith bob dair blynedd: xijd. A rhodd pencerdd yn vwy syberwyd na discipl.

Discipl spas graddol: ony ddysc vod yn ddiscipl disciplinaidd erbyn pen y tair blynedd, colli i radd [fel] na bo vn iddo.

95 Discipl disciplinaidd: oni ddysc vod yn ddiscipl pencerddiaidd ymhen y tair blynedd, colli ei radd discipl disciplinaidd.

Discipl pencerddiaidd: oni ddysc vod yn bencerdd ymphen y tair blynedd, colli gradd discipl pencerddiaidd a syrthio i radd disciplinaidd.

---

<sup>1</sup> Llsg. o bob.

<sup>2</sup> Yn TH.

## H

### B 19711

Bid hysbys i bawb o vonheddigion a chyffredin<sup>1</sup> vod eisteddvod ar wyr  
wrth gerdd tavod a thant o vewn tref Gaerwys yn Sir y Fflint yr ail dydd o vis  
Gorffenhaf, y bymthe[g]ved vlwyddyn o goronedigaeth Harri Wythved, garbronn  
Rissiart ap Howel ap Ieuan Vachan, ysgweier, o gyd[vn]deb Syr Wiliam  
5 Gruffudd a Syr Roetsier Salbri, a thrwy bersonol gyngor Gruffydd ap Ieuan ap  
Llywelyn Vychan [a] Thudur Aled, bardd kadairiawc, a llawer o vonheddigion  
a doethion<sup>2</sup> am benn hynny, er gwnaethur ordr a llywodraeth<sup>3</sup> ar wyr wrth gerdd  
ac ar i kelvyddyd wrth eiriav Ystatus Gruffudd ap Kynan, tywysoc Gwynedd,  
nid amgen i gadarnhav a chonffvrmio pennkerddiaid a'r sawl a gavas gradd yn  
10 y blaen, ac i roddi i'r sawl a'i haeddai, ac i roi i eraill ysbas i ddysgv ac i vvyrio  
y nessaf i galler wrth gydwibod ac wrth Ystatūs y Tywysoc Grūffudd ap Kynan.

Llyma y rai mae rydd-did vddynt, er [ev] bod wedy e bargovi a  
ddysgasant, val na bo gradd vddynt: gwr wrth gerdd anavus, dall, nev vyddar,  
hynny vydd o lusenaws gynnwys a haeddigawl gynnwys.

15 Tri disgybl ysydd: disgybl ysbas, disgybl disgyblaid, disgybl  
pennkerddiaidd, a ffennkerdd.

Disgybl ysbas: nid oes dogyn ar i rodd na'i radd ond barn pennkerdd a

---

<sup>1</sup> Llsgr. *chredin*.

<sup>2</sup> Llsgr. *doethin*.

<sup>3</sup> Llsgr. *llywyodraeth*.

ellir gwr wrth gerdd ohonaw.

20 Disgybl ysbas graddol o gerdd davod a dyly gwybod eu silltavav oll, a  
phump messur ynglyn, a messvr kywydd devair hirion, a'i kanv yn<sup>1</sup> awenyddgar  
ymarn pennkerdd<sup>2</sup> a ddyweto y gallir prydydd ohonaw, ac ateb drosto ar ddysgv  
gradd disgybl disgyblaidd erbyn penn y tair blynedd.

25 Disgybl disgyblaidd kerdd davod: devddec o'r messurav: pump o  
englynion, pedwar o gywyddav, a thri o vessvrvav odlav (toddaid, gwawdodyn  
byrr a gwawdodyn hir); a gochel y pympthec bai kyffredin; a dangos kerdd o'i  
waith e hvn ar bob vn o'r devddec messvr yn ddivai, ddisgyblaidd.

30 Disgibl pennkerddiaidd a dyly gwybod yr holl silltavav a'i naturiaethav  
ac a berthyno arnynt, a reolav yr ymadroddion yn ol gramadec, dosbarth y  
kynghaneddon yn i holl reoledigaethav, gochel yr holl veiaav kyffredin, kanv yn  
gyvochr nev yn gydsain ar vn ar hvgain o'r messurav. Er na chano gadwynvyr,  
35 nev ddigwydd vn or mesvrvav eraill [heb i wybod], y mae yn gydymddaith i  
bennkerdd, ac yn [vn] r[o]dd a phennkerdd, eithr na ddyly ymgysdadlv a  
phennkerdd tra vo yn y radd honno.

35 Pennkerdd a ddyly gwybod y kwbl, a chanv yn groesgynganeddawl ar  
gymeriadav, yn ddefnyddgar o ddigrifwch, yn ffrwythlawn [o] synnwyr, yn  
ddefnyddgar<sup>3</sup> o gerddwriaeth, yn warantedic o awdurdod, ac yn awenyddgar o

---

<sup>1</sup> Ysgrifennir y gair *yn* ddwywaith yn y llsg. wreiddiol.

<sup>2</sup> Llsg. *pennperdd*

<sup>3</sup> Llsg. *ddefnygar*.



ddychymic, val y bo esmwytha dysgv nev atgan y gerdd, a digrifaf i gwrando a'i<sup>1</sup>  
darllain, a hwyaf daly kof ar voliant bonheddigion.

Kerdd dant.

40 Disgybl ysbas graddol a ddyly wybod pūmp kwlm, a chadair, ac a varno  
athraw o ganiadav a gostegion.

Disgybl disgyblaidd a ddyly wybod 10 o glymav, a 10 o ganiadav, kadair,  
a cholofn, a gwybod pa vessurav a ffa gweiriav y bont.

45 Disgybl pennkerddiaidd a ddyly wybod 20 o glymav, ac 20 o ganiadav,  
[d]wy gadair, a dwy golofn, a'r 24 ar hvgain o glymav kydkerdd, a'r pedwar  
messūr ar vgaint, a'i dosbarthv a'i kanv yn bennkerddiaidd; ac vn rodd yw a'r  
pennkerdd, ond na ddyly ymgystadlv ac ef yn benkerdd.

Pennkerdd a ddyly wybod 30 o glymav ymrysson, ac o hynny o'r hynn  
lleiaf 3 kadair a thair kolofn. Ac a vynno dwyn ariandlws telyn nev<sup>2</sup> grwth,  
50 raid iddaw wybod 4 kolofn, a'r 4 kadair, a'r 24 o glymav kydgerdd, a'r pedwar  
messvr ar vgaint yssydd arnynt.

Ac os telynor, raid iddaw wybod tri mwchwl odidoc, y kwlm a raddiwyd  
gyvūwch a dec kwlm a 40, a gwybod dosbarth pob gwan a ragwan, pob<sup>3</sup>  
kynhwysiad, ac ysmvda pob gorffwysfa ar dyniad a chywairdant, a dangos  
55 kerdd warantedic o'i waith e hvn yn bennkerddiaidd ac yn athrawaidd, val y bo

---

<sup>1</sup> Ysgrifennir y gair *ai* ddwywaith yn y llsg. wreiddiol.

<sup>2</sup> Ysgrifennir y gair *nev* ddwywaith yn y llsg. wreiddiol.

<sup>3</sup> Llsg. *vob*. Ymddengys mai anghofio rhoi coes ar y llythyren *p* a  
wnaeth y copiwr.

kydwybodūs i bennkerddiaid a doethion i<sup>1</sup> varnu a'i ddewisso yn awdūr ac<sup>2</sup> yn  
athraw ar i gelvyddyd; kans ni ddyly neb ddysgv eithr gann athraw  
pennkerddiaidd, nev gael ganto ossod yn iawn a ddysger gann arall; ac a ddysger<sup>3</sup>  
amgenach,<sup>4</sup> na bo kyvrifawl na chynnwyssedic i ynnill gradd eithr<sup>5</sup> y modd ir  
60 ordeiniwyd.

Llyma yr eisteddvod a fv garbronn y Tywysoc Gruffudd ap Kynan yn  
berssonol:

Bid hysbys i bawb a'r a sydd o vewn talaith Aberffraw yn rref Gaerwys  
vod eisteddvod gyfraithlawn<sup>6</sup> o wys a rybvdd, drwy awdūrdod a charbronn y  
65 talaithiawc dywysawc a'i vrenhinllwyth – Gruffudd ap Kynan, a Gwynn ap  
Eginir i ddistain, ac eraill o vonheddigion a brehyrion yr vnrryw dalaith – i  
wnaethvr kyvraith a llywodraeth ar holl anant a cherddwyr tavod a thant ac ar i  
kelvyddyd, yn gymaint a thyfv gorweigion chwynn yn ev plith anhaeddedic, i'w  
harvolli kans ni<sup>7</sup> buont dann law athraw kyvraithlawn o'r gelvyddyd, i ddilev y  
70 raini o gwbl, ac i gadarnhav<sup>8</sup> a graddio yr haeddedigion ac y'w kynhorthwyo –

---

<sup>1</sup> Mae'r llythyren *i* mewn inc gwan iawn yn y llsgr.

<sup>2</sup> Mae'n anodd dweud yn bendant pa un ai *c* ynteu *r* ydyw'r ail lythyren.

<sup>3</sup> Llsgr. *dlyger*.

<sup>4</sup> Llsgr. *anngenach*.

<sup>5</sup> Llsgr. *eirth*.

<sup>6</sup> Llsgr. *gyfrathlawn*.

<sup>7</sup> Llsgr. *n*.

<sup>8</sup> Llsgr. *gadhnav*.

y raglyddedigion – pawb yn i radd a’i haeddai.

Ac yn gyntaf bod y dywydedic dywyssawc, o gydvndeb y gynnulleidfa, yn kenadv [ac] yn ordeinio i’r athrawon a’r pennkerddiaid gymeryd disgyblion wrth rolaeth y gelvyddyd, nid amgen vn ar vnwaith mewn dogn o brentissiaeth.

75 Ysef mal y kymerir y disgybl: o rodd kenedl nev benndevic a vo dros y genedl; a’r athraw a ddyly ddyvod yngwydd yr orsedd bennaf a’r mab kanto, a govyn i’r penndevigion ai kariadūs gantyn i golwc ar y mab hwnnw, o gellid gwnaethur gwr wrth gerdd graddol ohonaw. Os dywedynt vod yn ffansiol gantyn ac yn  
80 garedigawl [gantyn] i golwc arno, i gymeryd a all yr athraw, a’i ddysgv; ac os y penndevigiawn ni welant i golwc a’i ffansi arno, nis gall.

Hevyd bod drwy yr Ystatūs honn ryw vath ar ddynd ni all athro i kymryd yn ddisgybl: mab aillt kaeth, mab amhaūs gann i dad, a mab ac anaf erchyll, angharedigawl ar i wyneb.

Hevyd yr ydys drwy yr Ystatūs honn yn kenadv tair gradd o bob<sup>1</sup>  
85 kelvyddyd ac a berthyno atynt, nid amgen disgybl ysbas, disgybl disgybliaidd, disgybl pennkerddiaidd.

Disgybl ysbas: nid oes dogn ar i gelvyddyd nac ar i rodd oni wyppo a varno athraw o gelvyddyd, ac yna mae ef yn ysbas graddol i gael gradd a rodd disgybl disgybliaidd; ac oni bydd ef wedi kyrhaeddyd gradd ddisgyblaid erbyn  
90 penn y tair blynedd, na bo iddo mwy o hynny allan ddim o’r gelvyddyd honno, nac i athraw ymarddelw ohonaw.

---

<sup>1</sup> Llsg. *boob*.

Disgybl disgyblaidd<sup>1</sup> a all sefyll yn y radd honno dra vo byw, os mynn.

Disgybl pennkerddiaidd: oni bydd erbyn penn y tair blynedd yn ynnill o gwbl wrth vrant y gelfyddyd, val y mae yn dangos rac llaw, ef a gyll i radd o hynny allan.

Ac yn [yr] amser y gwnaethbwyd Ystatūs Gruffudd ap Kynan, y meibion iangaf i wyr bonheddigion a ordeinid yn wyr wrth gerdd, ac mor anvynych kael y rai hynny ac awenyddiaeth gantynt, a rac kolli y gelvyddyd, y roed i bob math ar ddyn a vai yn avrifed o awen, a synnwyr, a deall, ddysgv y gelvyddyd gann athraw kyvreithlawn, drwy na bo vn o'r tri gwaharddedic vchod.

Hevyd na bo i ddisgybl wnaethūr disgybl arall na dysgv dim a'r a gafas gann i athraw onid a wnel dann i athraw yn ysgol yr athro, nev drwy i ganiad i ddysgv arall; ac ar bob disgybl bod gida i athraw y Grawys – ac yn enwedic pob disgybl ysbas, nes ynill gradd disgybliaidd – dan boen kolli i radd, oni bydd karchar, nev glevyd, nev gyvryw achos kyvreithlawn.

Hevyd ydd ydys trwy yr Ystatūs honn yn kenadv o lussenawl gynnwys gwr wrth gerdd dall nev vyddar, er i vod wedi ebargofi a ddysgasent val na bo gradd vddynt: bod ev roddion yn y modd y bvont yn i haeddv pann ytoeddynt iach.

Hevyd na bo prydydd a wnel kerdd i erchi march, nev vilgi, nev gyvryw anwydlws nodedic, heb gennad y perchennoc; ac nas anvono gwr wrth gerdd dant dann boen ffin.

Hevyd na wnel ddanwarded i athro ar i veddwl na'i vyvyrdod; ac na wnel

---

<sup>1</sup> Llsgr. *disgybl*.

disgybl gerdd heb i dangos y'w athraw i wybod i bod yn iawn kynn i chanv allan.

115 Hevyd na wnel prydydd ond 4 kywydd yn y vlwyddyn o voliant i wr, oni  
bydd gwahawdd nev ddamvniad; ac yn enwedic nad eler a'r gerdd adref ond ar  
wyl arbennic (Pasg, Nodolic, Sŷlgwynn, neu Wyl yr Hollsaint); ac os a,y[n] newis  
y neb kaner iddo ai talv ai paidio, onid airch iddaw ddyvod; ac os eirch, doed  
pann archer. Amod a dyrr kyvraith. Neithr ef all wnaethur a vynno val y  
120 digwyddo yr achos o varwnadav a dyvaliadav, a dyvod ac hwynt adref pann  
vynno ar amser y digwyddo vod yn dda.

Hevyd na wnelont arveroedd vakabwns nev gler y dom hynny, rodiad ne  
grwydrad; ac nad el neb<sup>1</sup> allan o'r ty y del [iddo] tra barhao y wledd honno heb  
gennad gwr y ty a gwaodd gann arall; ac od a o dy i dy: i ddaly val rod-ddyn,<sup>2</sup> a  
125 dwyn a fo yn i bwrs, a'i roi yngolevad yr eglwys. O brwysga yn y wledd val na  
allo i ymlywodraeth i hvn: kolli i rodd wrth yr Ystatus honn.

Hevyd na wnelon lateirwydd nac ansyberwyd am wraic nev vorwyn lle  
del i ddangos i gelvyddyd dan boen ffin a charchar, a chida hynny kolli i rodd  
saith mlynedd.

130 Hevyd nad elont i dafarnav nev i gornelav kvddiedic i chwaraiv disiaiv,  
nev gardiaiv, nev warae arall am dda; ac od ant: pawb yn swyddoc arnynt i ddwyn  
a<sup>3</sup> vo yn i pyrssav.

---

<sup>1</sup> Ysgrifennir y geiriau *el neb* ddwywaith yn y llsgr. wreiddiol.

<sup>2</sup> Llsgr. *i ddaly val roddyn i ddal[y]*. Ymddengys fod y copiwr wedi gwneud camgymeriad, gan gynnwys y berfenw 'dal' ddwywaith. "[V]al Rodddyn i ddâl" a geir yn C, e.e.

<sup>3</sup> Ysgrifennir y llythyren *a* ddwywaith yn y llsgr. wreiddiol.

Hevyd na ddysgont sennav na rimynnav gwradwyddus, na chyvryw<sup>1</sup> a  
hynny – goganv, gwatwar, danwared, kablv, dychmygv kelwydd, nev i ddywedud  
135 yn ol arall – dan boen ffin a charchar.

Hevyd na wnelont gynhennav, ffraeav, twyll nev ledrad, mvrn nev  
gynllwyn, ymgalyn a lladron nev a'r neb a wnel llywodraeth ddrwc arall; kans  
gwyr wrth gerdd a ddylai ddwyn ymarweddiad heddychol, hawddgar, karredic,  
140 vfvdd, gwassnaethgar i bawb o gywiriaid y tywysoc a'i swyddogion, i kadarnhav  
a'i kanhorthwy.

Hevyd mis ymlaen pob gwyl arbennic y perthyn vddynt ymwel a'i  
hathrawon i wybod<sup>2</sup> pa le yr ant, rac myned gormod i'r vnle; ac nad el ond<sup>3</sup> vn  
att wr 10 pvnt o vywyd, dav att wr o 20 pvnt o vywyd y tair gwyl arbennic, ac  
velly att a vo vwch o vywyd.

145 Hevyd or daw gwr o wlad arall ar gylchwyl heb ysgrivenn o law vn o'r  
pennkerddiaid i ddangos pa radd y bo, onide bod heb i rodd lle govynner, ac  
yntav yn ddyffygiol.

Llyma sy siars yr eisteddwyr a'r brawdwy a fo yn barnv ariandlwsav val  
hynn: ar i llw pwy aplaf<sup>4</sup> i ddysgv y gelvyddyd yn iawn i arall, ac i wellav a vo arr  
150 gam.

Hevyd o bydd neb wedi kael gradd disgybl pennkerddiaidd, nev a vo abl

---

<sup>1</sup> Llsg. *vryw*.

<sup>2</sup> Llsg. *wybont*.

<sup>3</sup> Llsg. *on*.

<sup>4</sup> Llsg. *pwy aplaf ac aplaf*.

y'w chael yn ddiddiffic wrth yr Ystatūs, y gall ymarddel a'r tlws ariant, a thann  
i berigl i harwain, a roi rybudd mewn llys a marchnad i vod yn kymeryd y tlws,  
a roi ateb i bawb a ro sialens arno drwy roi kywerthydd yr aryandlws yn i erbyn  
155 o vewn vndydd<sup>1</sup> a blwyddyn. A'r dydd hwnnw, dyvod o ddygiawdr yr ariandlws  
gann ovyn oes neb a ro klaim arno; ac or bydd, ar y neb a'i rroddo roi  
kywerthydd yr ariandlws yn [i] herbyn i'r llawr, a'i radd hevyd; ac os kyll, na  
chaffo byth radd bennkerddiaidd am ymgystadlv a'r neb nis gallai. Ac yna,  
kymered y pennkerd yr ariandlws,<sup>2</sup> ac ni chaiff y llall roi sialens ar ariandlws  
160 byth.

Hevyd os ariandlws a enillir mewn eisteddvod gyvreithlawn drwy  
gymissiwn vndydd a blwyddyn, ni chaiff neb roi klaim na sialens byth ar  
ariandlws a yniller mewn eisteddvod<sup>3</sup> yn oes y dygiawdr hwnnw; a phawb i  
gyvadnabod a hwnnw yn vnic athraw y dalaith honno; ac i'r athraw hwnnw, wrth  
165 gymeryd yr ariandlws, vachnio ar edvryd yr ariandlws hwnnw yn ol i amser i'r  
orffwysle berthynasol [yn] y ty y doeth ohonaw allan.

Athro o gerdd dant a ddyly gwnaethvr<sup>4</sup> kwl mav a chaniadav e hvnan yn  
warantedic ac y'w chadw kans athro o'r gelvyddyd ac o'r dysc ac yn gwnaethur  
yn warantedic,<sup>5</sup> ac nid y rai sydd yn i chanv. Gwneler wrth wasanaeth a gwaith

---

<sup>1</sup> Llsgr. *vn*.

<sup>2</sup> Llsgr. *iandlws*.

<sup>3</sup> Llsgr. *Eisteddvodd*.

<sup>4</sup> Llsgr. *gwnaeth*.

<sup>5</sup> Llsgr. *ac i warantedic*. Ymddengys fod y darlleniad hwn yn llwgr, felly ni ellir sicrhau fod y diwygiad yn gywir.

170 ac ysdigrwydd athrawon yn i dysgv val dysgv krefft arall; a'r kyvryw rai hynny  
a elwir atkeniaid kerdd dant.

A llawer o wahanaid yssydd rwng gwnaethvriawdr ac atkeiniad, kans  
gwnaethuriawdr<sup>1</sup> a wyr gwnaethur pob peth, ac atkeiniad yssydd yn kanv peth  
a wnaeth ef o'r blaen; achos y neb a fo yn gwnaethur y peth ni wnaethbwyd  
175 erioed, ac na wypo neb o atgeiniaid<sup>2</sup> y mvssic<sup>3</sup> beth a vo, hwnnw piav y glod a'r  
braint o'i blegid; a'r neb a vo yn kanlyn y gelvyddydd a heb wybod gwneithur  
dim, val anivail ydd ydys yn i gyfflybū. Os kanmol vwchder llyverydd yr assen  
ar yr eos ai a'r llaw vwchaf o vwchder llais, am hynny nid yr vwchaf a gano a  
roir yn ddoethineb ar dysg<sup>4</sup>.

180 Llyma y modd y graddiwyd kerdd dant: pob kadair o bedair a dalant  
pump kwlm pob vn, ond kanv pūmp kwlm o vlaen y ddwy gyntaf; pob kolofn o'r  
pedair kolofn a dalant ddekwlm bob vn, ond kanv dekwlm o vlaen pob vn o'r  
ddwy gyntaf. Tri mwchwl odidoc a dal dec kwlm a devgain, ond kanv y dec  
kwlm ar hugain o'i vlaen; ac yn y dec ar hvgain hynny, tair kadair a thair kolofn,  
185 o'r hynn lleiaf, a'i kyfrif yno yn vn kwlm bob vn, val pe bai yn keissio gradd;  
achos nid i<sup>5</sup> neb i geisio gradd a gaffo yr vwchelvrant hwnnw, nac i prissiwyd  
hwynt velly yn gyfvwch o rifedi kwlmav, eithr lle bai ddav benkerdd yn ymrysson

---

<sup>1</sup> Llsgr. *gwnaethuriaidr*.

<sup>2</sup> Llsgr. *atgeinid*.

<sup>3</sup> Ymddengys mai *myssic* oedd y darlleniad gwreiddiol, ond fod y  
copiwr wedi ceisio dileu coes y llythyren y i greu v.

<sup>4</sup> Ymddengys mai *ar ddysgv* oedd y darlleniad gwreiddiol, ond fod y  
copiwr wedi ceisio dileu'r llythyren v.

<sup>5</sup> Llsgr. *a*.



am ariandlws, nev ymryson arall rwng pennkerddiaid nev ddysgyblon am gael  
ragoriaeth<sup>1</sup> wedy kaffael gradd yn y blaen mewn eisteddvodav nev neithiorav  
190 reiol, nid dim eithr am gael blaen llaw vchaf, a gossod o gyfadnabod<sup>2</sup> ragor rwng  
kydraddolion vrodur vn gelvyddyd.

Ac i benkerdd nev athraw o gerdd tavod i perthyn bod atkeiniad i atken  
y gerdd a bryto ef trwy awdurdod kelfyddyd. A'r atkeiniad hwnn a berthyn iddo  
wybod darllain Kymraec, a gwybod i wyth rann ymadrodd, i silltavav, a  
195 gwnaethur ynglyn yn devlūaidd i ddiddanv rianedd a gwragedd da, a gwybod  
dosbarth, ac atkan tair kaink prydyddiaeth (ynglyn, kywydd ac awdl), a  
chyvadnabod<sup>3</sup> o bydd bai ar bennill o waith prydydd, a'i ddangos i brydydd, a  
disyf arno i roi yn i le, a gwnaethur diwyd wasanaeth i'r prydydd, a'i ddilūd, a  
gwisgo amdano, a diosg amdano, a dwyn dwfr a thwel iddaw, a chwbl o'i  
200 wasanaeth<sup>4</sup> kyvreidiol am benn hynny. A'r rodd a ddichon ef i sialaens yw grod.

Ac wedi hynny y dichon atkeiniad vwynhav i rodd [gan ] godi i radd drwy  
awdurdod kelvyddyd kerdd dant, nid amgen dysgv i blethiadav oll, a ffroviad  
kyffredin, a'i ostegion, a thair ar ddec o brifgeinkiaiv, a'i gwybod yn iawn<sup>5</sup> yn i  
partiaiv, ac atkan i gywydd gida hwy; a gwedi hynny y dichon ef sialens grod  
205 drachefn o rann tannav; ac velly<sup>6</sup> y gall atkaniad sialens dwy rod rwng tavod a

---

<sup>1</sup> Llsg. *ragiaeth*.

<sup>2</sup> Llsg. *gyfadnabob*.

<sup>3</sup> Llsg. *chyvanabod*.

<sup>4</sup> Llsg. *oi wasaeth*.

<sup>5</sup> Llsg. *iwn*.

<sup>6</sup> Ysgrifennir y geiriau *ac velly* ddwywaith yn y llsg. wreiddiol.

thant. Ac ni fferthyn i atgeiniad glera ar gylchwyl<sup>1</sup> ond trwy ddilid pennkerdd  
o gerdd davod`nev o gerdd dant.

210

Ac i gerddwyr graddol<sup>2</sup> mae sialens<sup>3</sup> roddion ar wyr o 100 swllt o rent  
allan, pa ffordd bynnac y bo ef yn i oddiwes, ai o rent tir, ai o vric da gwylltdion  
ai dovion.

Pwy bynnac a gyrrhaeddo gradd o gelvyddydd mewn vn dalaith, ef a  
ddichon sialens i rodd ymhob vn o'r tair talaith yn gystadl bob vn a'i gilydd.

215

Ac na bo i brydydd dann radd disgybl brydv na chanv namyn i verched  
ac i ofer bethav, yn ddyvaliadav, i gyfadnabod a'i awenydd nes kael gradd mewn  
eisteddvod warantedic.

Hevyd na bo i neb arwain dwy gelvyddydd, megis telynior nev grythor a  
ffrydyddiaeth nev a chreffft arall, nev brydydd yn of ac yn brydydd; ac na bo i neb  
o athraw gymryd yn ddisgybl neb a vv brentis i grefft,ac na [bo]kyvrifol a ddysgo.

220

Pynkiav yr Ystatūs honn, trwy ddyvndeb brenhin y deyrnas o'i gwbl  
gennad:

Bod rydd-did i gelvyddydd kerdd tavod a thant, telyn a chrwth, ac i gael  
pūmp erw rydd, nid amgen: Nodolic, a chylchwyl yn i ol hyd Wyl Vair y  
Kanwyllav; a'r<sup>4</sup> ail: Pasg, a'i gylchwyl hyd Ddydd Iav Drychavael; y  
Sūlgwynn, a'i gylchwyl hyd Dydd Sūl y Kreiriav; pedwaredd erw rydd: pann vai

---

<sup>1</sup> Llsgr. *gylchwwyl*.

<sup>2</sup> Llsgr. *addol*.

<sup>3</sup> Llsgr. *silens*.

<sup>4</sup> Llsgr. *A*.

225 benndevic yn kyvodi ty, bod i wyr wrth gerdd rodd pob vn wrth vrait i radd. Ac  
yn<sup>1</sup> y kyvamsér hwnnw y byddai i'r penndevic anrregion gann i dailiaid a'i  
genedl a'i berthynassav; a'r erw rydd honno, drwy ddyvndeb penndevigion, y  
dilewyd hi, drwy ganadv i wyr wrth gerdd erw rydd yn i lle, nid amgen gwyl  
mabsant. Y bvmed erw rydd yw kyfarwys morwyn ievank, ysef priodas riain  
230 wry; ac o damwainia i ffriodi yr eilwaith, nid oes i wyr wrth gerdd sialens rodd  
o hynny allan.

Ac o'r tair kelvyddyd i soniwyd vchod amdanynt – nid amgen tavod,  
telyn a chrwth –  $y^2$  mae tair gradd ymhob vn ohonynt, nid amgen  
pennkerddiaeth, disgybliaeth a thinkerddiaeth.

235 Llyma megis i nodwyd roddion gann vrehyrion treftadawl o bŭmp pvnt  
o vywyd allan, vnwaith bob dair blynedd:

Pennkerdd kerdd davod a ddychon sialens am i gywydd geinioc a 80; ac  
os athraw vydd, ef a ddylai gael ryw dlws, arf, nev ddiillad, nev beth arall val y  
bai syberwyd y roddwr. Ac os neithior reiol vydd, a gwnaethŭr kyff kler, yr  
240 athro nev y pennkerdd a vo kyff kerdd a ddyly ddyblv i rodd nev swrkod; sef yw  
honno: y ddwbled nessaf i'r orav i'r mab a brioder.

Rodd penkerdd a disgybl pennkerddiaidd tavod a thant ar y tair gwyl  
arbennic: devgain; neithior reiol yr vn modd; a chylchwy: swllt; neithior  
gyffredin yr vn modd.

---

<sup>1</sup> Ysgrifennir y gair *yn* ddwywaith yn y llsgr wreiddiol.

<sup>2</sup> Llsgr. *ac y mae*.

245            Rodd disgybl disgyblaidd am i gywydd: iijs iiiid; ac<sup>1</sup> arr bob<sup>2</sup> gwyl  
arbennic: dav swllt; neithior reiol [yr] vn modd; ar gylchwyl: dwy rod; neithior  
gyffredin yr vn<sup>3</sup> modd.

              Tevlŵwr, o rann iachav, lle gwypo achav y gwr a'r wraic: dwy geinioc; lle  
ni wypo ond<sup>4</sup> vn: keinioc, gida syberwyd bonheddion.

250            A bod kopi o'r ordr honn gida ffob athro y'w dangos y'w ddysgyblon  
pann ddelont i gymeryd i dysc y Grawys.

              Pob dair blynedd y perthyn bod eisteddvod yn yr eisteddle nodedic, a  
gwys a rybŷdd ymhob ffair a marchnad i draethŷ ac atgan i'r gynnŷlleidva, a'i  
gosod vndydd a blwyddyn i gael ysbas i'r disgyblon i ddysgŷ ac i'r graddolion  
255 vrodŷr astudiaw a myvyriaw<sup>5</sup> tavod a thant.

---

<sup>1</sup> Llsgr. *ar*.

<sup>2</sup> Llsgr. *bol*.

<sup>3</sup> Llsgr. *vm*.

<sup>4</sup> Llsgr. *on*.

<sup>5</sup> Llsgr. *a myvyr a myvyriaw*.

185 wrth gerdh a dhyly dwyn ymarwedhiad hedhychlawn, gostyngheidhic, vbhvdh,  
caredigaidh, hawdgar, gwasanaethgar i bhonhedhigion a chyphredin, ac i  
gywiriaid y brenhin a'i swydhogion, a'i cadarnhav a'i hamdhiphyn yn ei alhv.

Hebhyd gwyr wrth gerdh a dhyly bod yn gymodrodhwyr, yn dhydhwyr,  
ac yn hedhychwyr rhwgh pleidiev ny bo cymodlonedh rhyghtvnt.

190 Hebhyd nyd oes i wyr wrth gerdh [o] honestrwydh bhyned i pheiriev, na  
sessiwnev, na lhysoedh, nev dhadlevoedh o dy i gilydh, i dhiscwyl pen byrdhev  
nac i bhwrw cerdh ar wyr o'i hanbhodh; canys ebh a bhydh ar bhonhedhigion a  
chyphredin beth o'i wnevthvr yno heblaw gwasanathv gwyr wrth gerdh yno.

Hebhyd pob dyscybl a dhyly bhis o bhlaen pob gwyl arbennic ymarail a'i  
athro i wybod p'le yr ant, rhac myned gormodh i'r vnlhe.

195 Hebhyd yr athrawion a dhyly dangos vdhvnt yr Ystatut hwnn bob Grawys,  
a'i trebhvv bhal nad el ond vn gwr wrth gerdh at wr dan dhec pynt o rent, dav at  
wr o vgeint pynt o bhywyd, tri at wr o dhec pynt ar hvgant o bhywyd, ac wrth y  
radh honno at a bho vwch ar bob vn o'r tair gwyl arbennic.

200 Hebhyd y pennadvr a bho o dv y mab yn y neithiawr nev'r wledh, drwy  
gyghor ac athrawiaeth yr athro nev'r pencerdh a bho yno, dhyly rannv y da i bawb  
wrth ei rodh.

Hebhyd ny dhyly gobhyn da wrth gerdh, na[i] gael, ond a bhedro canv  
rhann dyscybl yspas gradhawl, na dyscybl cerdh dabhawd na cherdh dant bho,  
na bod mywn cybhribh, na'i gynnwys ymmysc gwyr wrth gerdh.

[t. 284] Lhyma weithion bhal y dodpwyd rh[odhion]

205 wrth Ystatut y Tywysoc Gruphudh ap C[ynan a Rhys] ap Tewdwr.

chowydh nac awdl:

I bencerdh nev athro: iijs iiijd.

I dhyscybl penceirdhiaidh: iijs.

210 I dhyscybl dhyscyblaidh: xxd.

I dhyscybl yspas: xviijd.

Mywn neithiawr ny bo neithior bhrenhinawl nev wyl mapsant:

I bencerdh nev athro: ijs.

I dhyscybl pencerdhiaidh: xvid.

215 I dhyscybl dhyscybleidh: xijd.

I dhyscybl yspas: viijd.

Hebhyd yn helynt clera o'r Nadolic hyd Wyl Bhair y Canhwylhev, ac o'r Pasc i'r Pasc Bychan, ac o'r Sulgwyn i Sul y Drindawd; a'i rhodh wrth ossymdheith a bywyd a gradh y pendebhigion, ac wrth radh y gwyr wrth gerdh.

220 Tair talaith yssydh Yghymry, y rhai a dhyly gwyr wrth gerdh ev cylchynv, megis yn nhalaith Aberphraw ym Mon vn bhlwydhyn, ac yn nhalaith Dinebhwr yn Nhehevbarth yr ail bhlwydhyn, ac yn nhalaith Bhythrabhael ym Mhowys y drydydh bhlwydhyn.

225 Hebhyd ny dhyly gwr wrth gerdh dychanv neb ond a'i dychano yntev, nev a'i henlhibio o ryw chwedl (celwydh dybryd), ac<sup>1</sup> a ladratao arnaw.

Hebhyd o daw gwr wrth gerdh i glera nev<sup>2</sup> i le aralh i obhyn da wrth gerdh

---

<sup>1</sup> Llsg. *ai*.

<sup>2</sup> Llsg. *nac*.

heb yscribhen ei athro i dhangos beth a bho ei radh a pheth a bho ei rodh, myned  
heb ei rodh, ac yntev yn dhyphygiawl.

230 Tevlvwr, o rann achev bonedhigion, o gwyr ebh dhwyn ach y gwr a'r  
wraic at vn o'r pypm brenhinlhwyth (nyd amgen at Gruphudh ap Cynan, Rhys ap  
Tewdwr, Bledhyn ap Cynbhyn, Iestyn ap Gwrgan ac Elystan Glodrydh), dwy  
geinawc yw ei rhodh; ony dhwc onyd vn, geiniawc.

235 O bydh ariandlws yn gorwedh yn segur yn ei gorphwysle perthnassawl,<sup>1</sup>  
nev p'le bynac y bo lhe gorchmynno yr athro a'r dygiawdr diwethabh a bhvassei  
yn ei dwyn, a bod pencerdh yn ymglowed ei bhod yn abl o gelbhydhyd i arwein  
yr ariandlws ac i ateb drosti, ei chael a dhyly odhyno, a rhoi cybhiawn rybudh  
[o] vndydh a blwydhyn ymmhob phair a marchnad a lhys cybhreithlawn o  
bhywn y dalaith, a dangos ei bhod ebh yn cymrvd yr ariandlws dan ei berigl dros  
vndydh a blwydhyn, ac yn rhoi cybhan werth yr ariandlws o avr nev ariant yn ei  
240 herbyn, a'i radh heblaw hynny. Ac os cadw yr ariandlws a dhichon yr  
ymdhiphynnwr y terbhyn a dhywetpwyd vchod drwy ateb i bawb o'r a'i calensio,  
ny elhir ei dwyn odhi arnaw yn ei oes ebh, ond rhaid yw idhaw yn yr eistedhbhod  
gybhreithlawn gyntabh ar y bho yn y dalaith [dhybhod yno], a dangos ei bhod yn  
abl i['w] adnav, ac y'w ardhel, ac y'w gadw o dhyse [ac] awdurdawd a  
245 chelbhydhyd, ac yn abl i dhyscv ac i wnevthvr dyscyblon wrth yr Ystatut a  
braint y gelbhydhyd. Ac o hynny alhan i'r dalaith ei gymryd yn athro ac yn  
awdur ar gelbhydhyd cerdhwriaeth, ac i bawb o'r pendebhigion a'r cyphredin ei  
gynnwys a'i gymhorth a'i nerthv wrth yr Ystatut a braint y gelbhydhyd. Ac na

---

<sup>1</sup> Llsg. *pernassawl*.

250 bo i neb galensio arwedhiawdr yr ariandlws ond a gabhas [t. 285][radh dyscybl  
pen]cerdhiaidh. Ac [os] calen[si]o a wna nev [ymadnav], ac heb alhel dwyn  
hynny i ben, colhi gwerth [yr aria]ndlws, a cholhi ei radh hebhyd.



**Peniarth 158****tt. 81 - 9**

[t.81] Deddf ne gyfraith Gryffydd ap Kynan, a rai a'i geilw Ysdatvd  
 Gryffydd ap Kynan, yr hon ysydd yn rany y llyfr hwn yn chwe llyfr, nid amgen  
 pvm llyfr kerddwriaeth wrth y pvm gradd ellir devall, a'r gweddill yn llyfr ar i  
 ben i hvn, sef ar y gwyr wrth gerdd dafod a thanav fal i mae yn ysbys<sup>1</sup> am y rhai  
 5 ysydd rydd vddynt glera,<sup>2</sup> nid amgen [t.82] gwr wrth gerdd anafys, megis gwr  
 dall, er na bo gradd iddo, disgybl ysbas heb radd, disgybl ysbas graddol, disgybl  
 disgyblaidd, disgybl pennkerddiaidd, a ffenkerdd ag athro.

Disgybl ysbas kerdd dafod a ddyle wybod i silldafav, a ffymp mesvr  
 englyn a'i dosbarthv (nid amgen vnodl inion, vnodl krwka, ag vnodl kyrch, pros  
 10 kefnewidiog a ffrosd kadwynog), a dav fesvr kowydd (devair hirion a devair  
 fyrion), a'i kanv yn awenyddgar ymarn pennkerdd a ddoeto ar i gydwybod a ellir  
 gwr wrth gerdd ohono ai nis galler. Llyna vn llyfr kerddwriaeth.

Yn ddisgybl disgyblaidd i dyle wybod y radd a'r llyfr vchod yn llwyr, a  
 ffymp mesvr enghwaneg, nid amgen kowydd llosgymiog, ag owdl gowydd, a thri  
 15 mesvr owdl (nid amgen toddaid, gwawdodyn byr a gwawd[odyn] hir); a gochel  
 y beiav kyffredin; a dangos kerdd o'i waith i hvnan yn ddifai, ddisgyblaidd, ar

---

<sup>1</sup> Llsg. *ysbysv*.

<sup>2</sup> Llsg. *gleraf*.

bob vn o'r devddeg mesvr vchod, a'i dosbarthv yn gyfion. Llyna'r ail llyfr.

20 Yn ddisgybl penkerddiaidd<sup>1</sup> i dylav wybod y ddav lyfr vchod a chael y  
ddwy radd, a gwybod yr holl silldafav,<sup>2</sup> a'r holl ganangheddion a'i rwolav, a  
dosbarth y mesvrv, a'i wyth ran ymadrodd, a rwole gramadeg, dosbarth y  
kanganheddion, a gwnythvr kerdd yn ddifai, warantedig ar dri ar higen o'r  
mesvrv ysydd i henwav yn y llyfr dosbarth a henwyd vchod o'i waith i hvn,  
gochel yr holl feiav, a chanv yn gerddwrawl ag yn ffrwythlawn ar dri enaid  
kerdd, nid amgen mesvr, synwyr, a chynghagedd. Er na chano gadwynfyr ne  
25 dowddgrych kadwynog, ne ddigwydd vn o'r mesvrv heb i wybod, er hyny i mae  
ef yn gydymaith i benkerdd ag yn vn rodd a ffenkerdd, ond na ddylv ef  
ymgysdadlv a ffenkerdd. Gwilied wybod i berthynasav i gyd, a gwybod iachav  
brenhinoedd a doethion pendefigaidd. Llyna y trydydd llyfr.<sup>3</sup>

[t. 83] Yn bennkerdd y dylav wybod gwynythvr i bedwar mesvr ar  
30 higain, a'i kanv yn gyfochr, yn gydseiniol ar gymeriadav, yn desdyngar, yn  
ffrwythlon o synwyr a cherddwriaeth, yn groesgangeddol, yn ddevnyddfawr  
ar felysdra a digrifwch, yn warantedig o awdvrddod, yn awenyddol o ddychymig,  
yn eglyredig o ddevall, yn benkerddiaidd o'i waith i hvn, fal i bo howsa i dysgv  
a'i datgan, a difyra i gwrando nei i darllain, a hwyaf i delir kof ar foliant Dvw a'i  
35 foneddigion. Llyna [sut] i diwedda y pedwerydd llyfr.

---

<sup>1</sup> Llsg. *pem kreddiaidd*.

<sup>2</sup> Llsg. *sildafav*.

<sup>3</sup> Llsg. *llyf*.

Yn athro i dyle wybod y pedwar<sup>1</sup> llyfr vchod a chael y pedair gradd, a roi  
arnyn gyfion ddevall athrawaidd fal i perthyn i ddysgawdr, sef docdor, a chymryd  
gafal dros i ddysgyblion. Ag na wnelo neb drigionys i'r gylfyddyd hon, eithr rai  
onesd, ag o ryw a rieni daionys; kanys kydymaith i ail mab pendefig yw gwr wrth  
40 gerdd, os bydd fal i perthyn iddo. Ag am hyny i dylav athro fod yn ofalys dros  
bawb o'r gelfyddyd, a myny gwybod pa fodd i byddai bawb yn kerdded, ai drwy  
awdvrddod ai nide; ag onid aen yn weddaidd, peri i kosbi; a hefyd llesdair yddyn  
gael kam fel y'w tiffedd i hvn ag iddo ariandlws, sef kadair arian.

Bellach i doedwn am gerdd danav, sef:

45 Disgybl ysbas kerdd dant: os bydd heb radd, nid oes dogvn nag ar i radd  
nag ar i rodd ond barn penkerdd a ddoeto ar i gydwybod a ellir gwr wrth gerdd  
ohono ai nis gellir.

Disgybl ysbas graddol a ddyle wybod deg kwlwm, a cholofn, a ffvm  
kwlwm [cydgerdd], a chadair, ag wyth o ganiadav.

50 Yn ddisgybl disgyblaidd i dyle wybod igain o glymav,<sup>2</sup> a dwy golofn, a  
deg kwlwm[cydgerdd], a dwy gadair, ag vn ar bymtheg o ganiadav, a'i bedwar  
mesvr ar higain, a'i kanv drwy rwole [t.84] a dosbarth yn ddifai ag yn gyfion  
ymarn athrawon.

55 Yn ddisgybl penkerddiaidd y dyle wybod deg kwlwm ar higain, a thair  
kolofn, a thair kadair, a ffedwar ar higen o ganiade, a'r pedair gosdeg, a'i<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Llsg. *pewar*.

<sup>2</sup> Llsg. *glym*.

<sup>3</sup> Llsg. *a*.

mederv a'i dosbarthv, a ffymtheg o glyme kytgerdd, ag ydynabod gwahan rwng pob mesvr a'i gilidd a ffob ryw ddosbarth.

60 Yn benkerdd y dylav wybod deg kwlwm a deigain, a'r pedair kolofn, ag igen o glyme kydgerdd, a'r pedair kadair, a devddeg ar higain o ganiadav, a'r pedair gosdeg, a'r holl fesvrav a'i rwolav, a'r pedwar deifr ar higain, a gwybod i holl gweiriav a'i pyrthynasav, a'r kynwysiadav a'r gogynwysiadav fal i mae y llyfr dosbarth yn erchi, a medry gwnythvr kerdd i hvn yn ddifai, warantedig ymarn penkerddiaid, a dosbarthv pob gwahan a ragwahan, pob kynhwysiad, a gorffwysiad<sup>1</sup> pob ysmvdiad ar dyniadav a chowirdanav kvddiedig ag  
65 anhvddiedig,<sup>2</sup> a'i dangos yn warantedig o'i waith i hvnan yn benkerddiaidd, yn athrawaidd, fal i bo kydwbybod i benkerddiaid a doethion i farnv a'i ddewiso yn awdvr ag yn athro ar i gylfyddy; kanys ni ddyle neb ddysgv ond gyn athro, ne gael gantho osod yn iawn a ddysger gan arall.

70 Ag os telynior a fydd raid yw iddo wybod y tri mwchl odidog, yr hwn a raddiwyd yn gifiwch a'r pedair kolofn; kanys pob kolofn a raddiwyd yn ddeg kwlwm bob vn; y tri mwchl newydd a raddiwyd yn gifiwch a'r pedair kadair, a'r pedair a raddiwyd yn bvm kolofn bob vn onaddynt.

[t.85] Yn ol [hynny] i trefnwyd i'r athrawon gymryd disgyblion, nid amgen vn ar vnwaith mewn dogvn brentisieth; sef yw hyny: saith mylynedd; ag na ddyle  
75 neb ddysgv ond gan athro; ag ni chaniedir i ddysgybl<sup>3</sup> wnythvr disgybl arall,

---

<sup>1</sup> Ar ôl *a gorffwysiad*, ceir *a gorffwysiad* eto, mewn cromfachau y tro hwn.

<sup>2</sup> Llsgr. *ang anhvddiedig*.

<sup>3</sup> Llsgr. *ddylgybl*.

kanys anghymwys ag anferthol ydyw; ag ar bob disgybl bob Grawys bod gida'i athro dan boen kolli i radd oni bydd klwyf, ne ddolwr, nev garchar, nev'r kyfriw achos kyfreithlon.

80 Hefyd na bo prydydd a gano kerdd i ofvn ne erchi march, gwalch, milgi, ne'r kyfriw anwydlws, heb genad y perchenog; ag nad<sup>1</sup> anfoned gwr wrth gerdd danav na datganiad mo'r kowydd hwnw adre dan boen ffin a charchar.

85 Hefyd nad elont i dafarnav ne gornelav kvddiedig i chware disie, ne gardie, na dim chwarythieth arall am dda yn y byd; ag od ant: pawb yn swyddog arnynt fal ar leidr, a dwyn hyn a fo'n i pyrsav, a'i roi wrth waith yr eglwys nev i'r tylodion.

Hefyd gorchymvn<sup>2</sup> na ddysgant na senav na rimynav gwradwyddys, gwatwar, danwared, kablv, ysbio, doed kelwydd na'i ddychmvgv na'i ddoedyd ar ol arall, dan boen ffin a charchar.

90 Hefyd na wnelont gyneav ne ffraeav, twyll ne ladrad, mvrn ne gynllwyn, ne chymdeithas a lladron ne'r rai drygarferys a nel<sup>3</sup> anllyfodraeth dan boen ffin a charchar.

Hefyd na wnel neb danwared na gwator athro am i feddwl a'i fyfyrdod.

[t.86] Hefyd na nel disgybl gerdd heb i dangos y'w athro kyn i chanv<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Llsg. *na*.

<sup>2</sup> Llsg. *gorchymv*.

<sup>3</sup> Yn y llsg. wreiddiol, *a le* a geir, ond fe ychwanegir y llythyren *n* rhwng *a* a *le* i gael *nle*. Mae'n debyg mai camgymeriad ar ran y copiwr yw hyn, ac mai *nel*, hynny yw, *gwnel*, sy'n gywir.

<sup>4</sup> Llsg. *chananv*.

allan, a gwybod wrth farn i bod yn iawn dan boen kolli i radd.

95           Hefyd' gorchymvn nad elont i wnythvr arferoedd fagabwns, rodiad ne  
gyrwydrad; ag nad elond ar yr<sup>1</sup> uchelwyl, gwledd, ne wyl mabsant o'r lle i delon  
heb genad gwr y ty ne wahodd gan arall dan boen ffin a charchar a cholli i glera;  
ag od a o dy i dy: i ddal fel fakabwnt, a dwyn i glera, a'i roi wrth waith yr  
eglwys; ag o brwysga yn y wledd: kolli i rodd.

100           Hefyd o gwna lateieth ne ansyberwyd am wraig nev forwyn lle i del: dwyn  
ffin a charchar, a cholli i glera saith mylynedd yn y wlad hono; kans gwyr wrth  
gerdd a ddylent ddwyn ymadroddion howddgaraid, hyddychlawn, karedig,  
vfvddgar, gwasnaethgar, ag i bawb o gowiriaid y brenin a'i swyddogion i  
kadarnhav a'i swkrio a'i konorthwyaw.

105           Mis ymlaen pob gwyl ymorawl a'i hathro i wybod p'le idd elon, rag mynd  
gormod i'r vnll; ag nad el ond vn at wr o ddeg pvnt o ardreth, a dav at wr o igen  
pvnt o ardreth, ag wrth y radd hono at a fo vwch o rent; ag i bob athro bod kopi  
o'r ordyr hon gidag ef y'w dangos i'r dysgyblon a'i choffav pan ddelont i  
gymryd i dysg bob Grawys.

110           Bellach i doedir am roddion pawb yn ol i graddav, nid amgen:

Disgybl disgyblaidd am i gowydd a ddyle gael deigain o rodd.

[t.87] Disgybl pennkerddiaidd am i gowydd yw vn a ffedwar igen o rodd;  
ag i benkerdd ynghwaneg [o] syberwyd, ai dilledyn ai rvw dlws arall.

Disgybl ysbas graddol kerdd dant: swllt bob vn o'r pedair gwyl arbenig,

---

<sup>1</sup> Llsg. y.

115 nid amgen d'vw Nydolig, Pasg, Svl'gwyn a d'vgwyl yr Holl'saint.<sup>1</sup>

Disgybl disgyblaidd pob vn o'r gwiliav v'chod: pedair ar higan; pob neithiar yreiol yr vn modd; a ffob neithior arall a chwrs klera: saith geiniog.

120 Disgybl penkerdd pob vn o'r pedair gwyl a ffob neithior yreiol: deigain o rodd gwyl; a ffob neithiar eraill a chwrs klera: swllt o rodd; a ffenkerdd yr<sup>2</sup> vn modd, oni fynir synied arno, a chwrs klera vnwaith bob tair blynedd.

Disgybl ysbas graddol: oni ddysg fod yn ddisgybl disgyblaidd kyn penn y tair blynedd, kolli [i] radd a bod heb yr vn.

Disgybl<sup>3</sup> disgyblaidd: oni ddysg fod yn ddisgybl penkerdd ymhen y tair blynedd, kolli i radd a dowad yn ddisgybl ysbas.

125 Disgybl pennkerddiaidd: oni ddysg fod yn benkerdd kyn penn y tair blynedd, kolli i radd a dowad yn ddisgyblaidd.

130 Hefyd i mae datganiad a ddylid son am i swydd, er nad oes vn radd iddo,<sup>4</sup> kanys yfe yw'r penna o'r gylfyddyd hono; a'r kysefin henw yw<sup>5</sup> tylevwr; ag vn rodd a disgybl<sup>6</sup> [t.88] disgyblaidd. Ag ef a ddyle wybod part o dair kylfyddyd, nid amgen:

O ran y posfeirdd i dylav wybod i silldafav a'i ganganheddion, a medry gradd disgybl ysbas graddol o gerdd dafod fal i gallai wybod a fyddai gerdd

---

<sup>1</sup> Ll'sgr. *hol saint*.

<sup>2</sup> Ll'sgr. *vr*.

<sup>3</sup> Ll'sgr. *disgyb*.

<sup>4</sup> Ll'sgr. *iddio*.

<sup>5</sup> Ll'sgr. *yn*.

<sup>6</sup> Ll'sgr. *disggybl*.

yngham, a medry i rhoi yn i lle.

135 Hefyd raid yw iddo wybod<sup>1</sup> peth o swydd yr arwyddfardd; sef yw hwnw:  
iachwr; a rodd yr arwyddfardd i bob ty i del (a gwybod iach y gwr o dad i dad  
ne o fam i bo yn dal tir i bymtheg llwyth ne frenhinllwyth ne wehelyth): i rodd  
ef yw keiniog; ag os medr ddwyn y wraig hefyd, i mae'r rhodd yn ddwy geiniog;  
a'i gwrs vnwaith bob dair blynedd. Ef a ddyle fedry dysgrebo arfav, a gwybod  
chwedlav tylevaid.

140 Hefyd raid yw iddo wybod ar delyn ne grwth dair ar ddeg o brifgeinkiav,  
a chanv gida nhwy a'i dafod, a medrv gosod bwrth a'i godi garbron pendefigion,  
kerfio ne dori pob bath<sup>2</sup> ar yderyn gwyllt, a bod yn wasnaethgar a chadw'r  
pynkiav vchod.

145 Ag fal dyna y pedair kerdd raddol: nid amgen prydydd, telynior,<sup>3</sup> krythor,  
a dadganiad.

Pedair ofergerdd ysydd: nid amgen – ni lafasaf ddoedyd – pibydd, hvdol,  
tabrer<sup>4</sup> a chlerwr; a rhodd pob vn o'r rhai<sup>5</sup> hyny yw keiniog, a chanv o'i sefyll.  
Mae ngwaneg i'r pibydd, nid amgen offt, sef gofram.

150 A fal hyn i terfyna Ysdatvd Gryffydd ap Kynan, [t.89] tywsog Kymrv a'i  
ffenaeth. Ag yn i amser ef i doeth Wiliam Kwnkwerwr i dernasv i Loegr, ag ef  
a wisgodd allan Wiliam Kwnkwerwr, a Wiliam Goch, i fab ef, a Hari y Kyntaf.

---

<sup>1</sup> Llsgr. *wybop*.

<sup>2</sup> Llsgr. *pobath*.

<sup>3</sup> Llsgr. *telyniol*.

<sup>4</sup> Llsgr. *tabner*.

<sup>5</sup> Llsgr. *or hai*.



Ag ef a fv wr deddfol, ag a fv fyw chwaneg i bedwar igen mylynedd; ag ef a gladdwyd yn Ysgobdy Daniel ym Mangor Fawr yn Gwynedd, o'r tv deav i'r eglwys. Ag ef a naeth lawer o bethav gorchesdol, kanmoladwy.

Cambrobrytannicae Cymraecaeue Lingvae

Institvtiones et Rudimenta accurate

Londini Excudebat Thomas Orwinas 1592

tt. 295 - 304

[t. 295] Constituta seu edicta antiquitis in vsum

bardorum & musicorum præscripta.

Braint ar wyr wrth gerdh drwy waith tywyssogion Cymry

a oedhent ynn cynnal gwîr dhebhôdeu y Brytannieid.

5 Gruphydh ab Cynan, tywyssawg Aberphraw, a Bledhyn ab Cynbhyn,  
tywyssawc Mathrâbhael, a wnaethont bhraint a threbhn arr wyr wrth gerdh, nyd  
amgen rhag myned nêb yn wyr wrth gerdh namyn y rhai a dhylyei bhyned drwy  
eistedhbhod, a honno vnweith bôb tair blynedh yghoruchel lhys y tywyssawc ynn  
Aberphraw ym Môn ac ym Mathrâbhael ym Mhowys; a nawdh a gorchymyn  
10 hyd nadd elei nêb yn wyr wrth gerdh o'r dydh hwnnw alhan onyd a elai drwy  
gennad yr arglwydh a thrwy rodh cenedlad yr athraw, ag i'r athraw hwnnw ateb  
ohono yn wr wrth gerdh abl erbyn dydh cybhreithiawl, gossodêdic.

Ac hebhyd na bai i nêb gynnal dwy gelbhydhyd, megis prydydhiaeth a  
chanu telyn neu grwth, neu gynnal crepht a chelbhydhyd pa bynnac odhieithr ei  
15 gelbhydhyd ei hûn.

[t. 296] Ac hebhyd nawdh na bei i wyr wrth gerdh erchi dros benn gwerth chweigeint o' dhim ynn y byd, megis meirch, neu ychen, neu wiscoedh enrhydêdhus, a hynny dann bóen colhi eu da wrth gerdh hyd benn y tair blynedh, a'r rhôdh yn phorphet i'r brenhin.

20 Ac yn ôl Gruphydh ab Cynan, tywyssawc Gwynedh, Bledhyn ab Cynbhyn, tywyssawc Powys, a gadarnháawdh breinieiu a Statûteu gwyr wrth gerdh, ag a wnaeth rai ereilh o newydh.

A chyd â hynny yr Arglwydh Rhys ab Gruphydh ab Rhys ab Tewdr, tywyssawc Deheubarth, talaith Dhinêbhwr, gwedy idhaw orphen y twr newydh  
25 ynn Aberteibhi, a anbhônes gwawdh a gorchymyn i bawb o'r a geisieu dha wrth gerdh o Gymry, a Lhoegr, ag Iwerdhon, ac o Scotland, dhybhod i'r wlêdh bhawr i Aberteibhi dann rybydh vndydh a blwydhyn.

Ac ynn y gwledhoedh enrhydêdhus hynny y gwnaethpwynt ag y cadarnháwyd braint a Statûteu celbhydhôdeu gwyr wrth gerdh, nyd amgen  
30 prydydhiaeth, teuluwriaeth a chlerwriaeth; a rhodhion i bawb wrth i bhraint o'r cerdhorion gyd â'r tywyssogion arr bôb vn o'r tair gwyl arbennic.

Ac wedi meirw o'r tywyssogion y cymerth gwyr bonhedhigion, a hanoedhynt o wáed y tywyssogion, y gwyr wrth gerdh attynt, ac i rhoesont idhynt gylchwy yn ôl pôb vn o'r tair gwyl arbennic o bhywn eu talaith e hûn, ac vnweith  
35 bôb teir blynedh drwy y tair talaith; a chyd â hynny, hwy a roesont idhynt neithiôrau morynnion iebheighc; ag yn ammod, i'r prydydhion gynnal iaith y Brytannieid, a'e hachoedh a'e gweithrêdoedh.

Ac i rhodhed i'r clerwyr geiniawc a gobhram o bôb aradr, a dimmeu o bôb hanner aradr; a lle ny chephynt arian: dwyn gabhael. Ac nadd elei y clerwr

40 i dy yr vchêlwr, na'r pencerdh i dy y gwregh; ac odd elei, na chaphai onyd rhôdh  
y clerwr. Ag arr y clerwr ir oedh ymsennu, a dybhâlu, a dynwâred, ac ymbil  
drwy wradwydh, a hynny arr eulun cerdh dabhawd. A'r geiniawc a rodhyd  
idhaw er mwyn i bhôd yn ardhel i hanbhod, megys chwynn, o wyr wrth gerdh; a  
gobhram a rodhyd idhaw er mwyn dirmygu y cythreul a'i tynnawdh mywn diôgi  
45 a glythineb a lhesgedh.

Ag arr y teulûwr ir oedh tystynniaw, a digribhhâu, a phrydu  
gordherchgerdh, ac erbhynneid da yn deulûeidh heb nêb ryw ymbil amdanynt.

Ac os rhoi tystyn a wneid ynn y gwledhoedh hynny arr wr wrth gerdh,  
iawn oedh i rhodhi o bêth ny bei wîr, rhac cywilydhio y gwr wrth gerdh; a'r gwr  
50 a dhychênid a gaei dhwy rôdh herwydh i bhraint i hûn.

Pencerdh gwlâd a geiph gobreu merched y cerdhorion a bhéynt yndhi.  
Ebh a geiph gybhâr wys morynnion iebheighc pann wrháont, nyd amgen pedair  
arr hûgeint.

Pann bhynno y brenhin wrandaw canu cerdh, caned y pencerdh dhau ganu  
55 idhaw yghhyntedh y neuadh, vn o Dhuw, ac aralh o'r brenhin; canys êbh a dhylu  
dechreu cerdh ynn y lhys, a'r bardh teulu a dhylu canu y trydydh canu is cyntedh  
y neuadh.

Pann bhynno y bhrenhînes gerdh o'i gwrandaw ynn yr ystâbhelh, caned  
y bardh teulu idhi dri chanu o gerdh aghau trwy lêbh gymhedrawl, rhac rhwystro  
60 ynn y neuadh. Y tir a geiph yn rhydh, ag ny cheiph dhim o neithiôrau gwagedh  
gwriawg cynn no hynny, sebh gwagedh gwedhwon gwedi ail briôdi.

Sebh yw pencerdh: [t. 297] bardh gwedi'r enilho cadair. Ny dhichon  
bardh erchi dim hyd i bô ynn i swydh ebh heb gennad, ony bydh bardh gorwlad.

65 Cyd gorabhûner rhodhi dim i eirchieid ynn y wlâd, hyd ymmhen ysbaid o amser,  
rhydh bhydh y pencerdh.

Quibus bardis præmiorum comparandorum causâ  
peragratio concedebatur.

Pwy rai yssydh rydh idhynt glera.

70 Y rhai yssydh rydh idhynt glera ynt yr rhain: nyd amgen gwr wrth gerdh  
anâbhus, megys gwr dalh; a dyscybl yspâs; a dyscybl dyscyblaidh; a dyscybl  
penceirdhiaidh.

Bardorum officia propria, à singulorum gradibus petita.

Swydhau priôdawl gwyr cerdh dabhawd, pawb yn herwydh i râdh.

75 Dyscybl yspâs cerdh dabhawd a dhyly wybod y sylhâbheu, a phymp  
mesur eghlyn (nyd amgen vnawdl vniawn, ac vnawdl crwcca, ac vnawdl cyrch,  
a phrôst cybhnewidiawc a phrôst cadwynawc), a mesur cywydh deuair hirion; a'e  
canu yn awenydgar ym marn pencerdh a dhywetto arr i gydwybod a elhir  
prydydh ohonaw.

80 Dyscybl dyscyblaidh a dhyly wybod y deudhec mesur, nyd amgen pypm  
mesur eghlyn, a phedwar mesur cywydh (sebh cywydh deuair hirion, a chywydh  
deuair bhyrrion, ac owdl gywydh a chywydh lhosgyrniawc), a thrî mesur owdl  
(nyd amgen todheid, gwawdôdyn byrr a gwawdôdyn hir); a gochel y pymthec bai

cyphrêdin; a dangos o'i waith i hûn bôb vn o'r deudhec mesur yn dhyscyblaidh ac yn awenydhawl.

85           Dyscybl penceirdhiaidh a dhyly wybod ei holh sylhâbhau, a rhêol yr ymadrodhion yn ôl y grammâdec, a dosparth y cyghhanedhion, a gochel yr holh bheieu, a chanu yn gytsain neu yn gybhawchrgerdh arr vn mesur arr hûgeint.

              Pencerdh a dhyly wybod y cwbl, a chanu yn gybhochr ag yn gytsain ag yn gróesgyghhanêdhawl arr gymeriâdau, ac yn destyngar arr dhigribhwch, ac yn  
90           phrwythlawn o synnwyr, ac yn dheunydhbwyr o gerdhwriaeth, ag yn warantêdic o awdurdawt, ac yn awenydhawl o dhechymyc, bhal i bô hawsabh i dyscu neu dhatcânu y gerdh, a dibhyrr o'i gwrandaw neu ei darlhein, a hwyabh galhu dala côbh arr bholiant bonhedhigion.

[t. 298] *Musicorum officia peculiaria, iuxta graduum diuersitatem.*

95           Swydhau priôdawl gwyr cerdh dant, pawb yn ôl ei râdh.

              Dysgybl yspâs heb râdh: nyd oes arr i gelbhydhyd, nac arr i râdh, nac arr i rôdh onyd barn pencerdh a elhir gwr wrth gerdh ohonaw.

              Dysgybl yspâs gradhawl a dhyly wybod dêc cwlwm, a cholobhn, a phump cwlwm o gytgerdh, a chadair, ac wyth o ganiâdau.

100           Dysgybl dysgyblaidh a dhyly wybod vgein cwlwm, a dwy golobhn, a dêc cwlwm cytgerdh, a dwy gadair, ac vn arr bymthec o ganiâdau, a'r pedwar mesur arr hugeint, a'e canu trwy rêol.

              Dysgybl penceirdhiaidh a dhyly wybod dêc cwlwm arr hugein, a thair colobhn, a phymthec o glymmeu cytgerdh, a thair cadair, a phedwar arr hugeint

105 o ganiâdau, a'r pedair gostec, a medru eu mesûraw a'e dosparthu, ac adnâbod gwahan rhwgh pôb rhyw a'i gilydh.

Pencerdh a dhyly wybod deugeint cwlwm, a phedair colobhn, ac vgein cwlwm cytgerdh, a phedair cadair, a deudhec arr hûgein o ganiâdau, a phedair gostec, a gwybod i holh bhesûreu i gyd a'e rheôlaeth, a gwybod pedair arr  
110 hugeint o dheibhrey, a dosparth y mesurau megis y mae y lhybhr dosparth ynn dangos, a medru gwneuthur cerdh i hûnan yn dhibhai ym marn penceirdhiaid, a medru i holh dhosparthau, a phôb gwân a rhacwan, a phôb cynhwysiad, a gorphwysiad a phôb symudbha arr dynniâdau a chowerdannau cudhiêdic ac aghudhiêdic, a'e dangos yn warantêdic o'i waith i hûn yn benceirdhiaidh ac yn  
115 athrâwaidh bhal y bô cytwybôdus i benceirdhiaid a doethion i bharnu ebh a'i dhewis yn awdur ac yn athro arr i gelbhydhyd. Ny dhyly nêb dhyscu onyd gann athro penceirdhiaidh a bhetro ossod yn iawn a dhyscer gann aralh.

Ac os telynior bhydh y cerdhawr, rhaid idho wybod y trí mwchwl odîdawc, yr hwn a radhiwyd yn gybhuwch â'r pedair colobhn. A phôb colobhn  
120 o'r pedair a radhiwyd yn dhêc cwlwm bôb vn; y tri mwchwl newydh a radhiwyd yn gybhuwch o râdh â'r pedair cadair; a'r pedair cadair yn bump cwlwm bôb vn.

[t. 299] *Canticorum formæ variæ, à sonorum & harmoniarum varietate ductæ.*

Enwau cyweiriau celbhydhyd cerdh dant.

Arr y bregod gyweir:

125 Caniad yr Hen Bhregod Gywair, Caniad Pibau Morbhyd, Caniad Crych arr Gaighc Obhyd, Caniad y Gortrêchw neu y Gordherchw, Caniad yr Attêbwr,

Caniad Hûn Wennlhian, Caniad Marwnad Ieuan ab y Gôbh, Caniad o Waith  
Lhywêlyn ei bhâb, Caniad Marwnad Ieuan ab y Gôbh o waith Dahydh Athro,  
Caniad Marwnad Gruphydh, Caniad Dau Hanner, Caniad arr Gaighc Cychôlyn,  
130 Caniad Marwnad Gwennlhian o Scotland, Caniad Gronw Bâch o Gebhn y Rhôs,  
Caniad Gwynn Bibydh, Caniad Eidhîgyn, Caniad Marwnad Swsanna, Caniad  
Adha Pildir, Caniad Gwenn Bhrewy, Caniad Lhywêlyn Delynior, Caniad Bâch  
Ronwy ab Seisylht, Caniad Croyw Modhai, Caniad Bâch i Ieuan ab y Gôbh,  
Caniad Anrhec Dewi, Caniad arr Gaighc Dhabhydh ab Gwilym, Caniad arr  
135 Gaighc Sioned, Caniad arr Gaighc Nêst bherch Dhabhydh Bhongam, Caniad arr  
Gaighc Bhredydh Dhû, Caniad arr Gaighc Rhys ab Cawrda, Caniad arr Gaighc  
Syr Gruphydh Lhwyd, Caniad arr Gaighc Hawdhhbhyd.

Caniâdau arr y crâs gywair:

Caniad y Twrch Trwyth, Caniad Bâch i Gydwgi, Caniad Mawr i Gydwgi,  
140 Caniad Gwynn ab y Gôbh, Caniad Mawr i Wynn, Caniad y Pibydh Môel, Caniad  
yghhywair y Wrach aliâs Wraic, Caniad y Côs arr y Gwrês alias yr Eos; Caniad  
Rhymart, Caniad Tryssel, Caniad y Chwibânad, Caniad Iarlh Cormac Wydhel,  
Caniad Hûn y Brenhin Lhawgoch, Caniad Crych arr y Carsi, Caniad Crych arr y  
Crâs Gywair, Caniad o Bhesur Brâth yn Ysgol, Caniad arr Bhesur Coetiatelht, [t.  
145 300] Caniad Cybhnerth Wâs Maelgwn, Caniad Crych i Gildir, Caniad Newydh  
o waith Dabhydh Athro, Caniad Newydh o waith Ieuan ab y Gôbh, Caniad y  
Gwydhel, Caniad Gruphydh Bhardh, Caniad Dabhydh Gamm Delynior, Caniad  
Lhêbh Tant, Caniad Gruphydh o Gayoc, Caniad Ednybhed ab Goralhwyn.

Caniâdau arr y lhedhbh gywair:

150 Caniad Einion Delynior, Caniad y Grôc, Caniad Barwnad Syr Rhys,



Caniad Edwlph Opheiriad, Caniad Gwydhar, Caniad Ymdhidiânwr, Caniad y Marchoc Gwydhel, Caniad Croeso y'r Cymro, Caniad Ysgalachwewli, Caniad Marwnad Dabhydh ab Ieuan.

Clymmeu ymrysson arr y bragod gyweir:

155 Cwlwm Lhedhbh Garrec, Cwlwm Côr Carrec, Cwlwm Hîr arr y Bragod Gyweir Golobhn, Cwlwm Mwloch Mwri, Cwlwm y Sant, Cwlwm Hên Daro Tant, Cwlwm Dabhydh Athro, Cwlwm Lhywêlyn Bhanach ab Lhywêlyn Bhóel, Cwlwm Lhywêlyn ab Ieuan, Cwlwm Ieuan y Pwrs; Cwlwm Newydd arr Dhrychâbhael Tant.

160 Clymmau arr y lhedhbh gywair:

Cwlwm y Gwydhel vn o'r Colobhnau, Cwlwm Dau Hanner, Cwlwm Ymrysson Phlamm a Thalgrych, Cwlwm Dilach Dwd, Cwlwm Lhywêlyn Bhychan arr y Lhedhbh Gywair, Cwlwm Deulwyn ab y Gôbh, Cwlwm Hîr arr y Lhedhbh Gywair.

165 Clymmau arr y crâs gywair:

Cwlwm Carndêdic arr y Pedair Colobhn, Cwlwm Sythmôlach, Cwlwm Trialmwchl Newydd, Cwlwm Trialmwchl Was Mair, Cwlwm yr Hên Badarn, Cwlwm y Corelwi, Cwlwm Atyr Sant, Cwlwm Carndêdic Trahaearn, Cwlwm Trialmwchl Odîdoc, Cwlwm y Bhrechtan, Cwlwm y Darnsach, Cwlwm Almaeca, 170 Cwlwm Sant Wdan, Cwlwm Marwnad Athrîben, Cwlwm Hergêpher, Cwlwm Phawran Newydd, Cwlwm Phawran Mydr, Cwlwm Alban Bridr. Terbhyn.

Trebhn gyphrêdin arr holh wyr wrth gerdh.

175 Gwedi hynny yr ordeiniwyd i'r athrâwon a'r pennceirdhieid gymryd  
dyscyblon wrth reôlaeth eu celbhydhyd, nyd amgen noc vn arr vnweith mywn  
dogyn o amser prentussiaeth; ac na bô i dhyscybl wneuthur dyscybl aralh; ac arr  
bôb dyscybl bôb Garawys bhôd gyd â'i athro dann bóen colhi i râdh ony bydh  
achos-carchar,neu glebhyd,neu y cybhryw achaws cybhreithlawn-ynn ei rwystro.

180 Hebhyd na bô prydydh a gano cerdh i erchi march, neu walch, neu bhilgi,  
neu y cybhryw annwyldlws, heb gennad y perchennawc; ac nadd anbhôno gwr  
wrth gerdh tant dann bóen phîn.

185 Hebhyd na wneler danwâred neu watwar<sup>1</sup> a dybhâlu arr athraw am ei  
bhedhwl a'i bhybhyrdawt; canys rhydh a theilwgh i brydydh dyscêdic ac  
awdurdawt idho bhybhyrio arr y peth a bhynno a medhwl am ba bêth bynnac a  
bho da gantho, cann nys gwna y bhâth ryw brydydh a hwnnw namyn y pêth a  
gydwêdho.

Hebhyd na wnelo dyscybl gerdh heb i dangos idh i athro, a gwybod wrth  
bharn i bôd yn iawn cynn i chanu alhan i nêb, hyd na bô nac i'r dyscybl nac i'r  
athraw na chywilydh na gwarth o ethryb y gerdh honno pann dhêlo i glawr.

190 Hebhyd gorchymyn i bawb na wnelont arbhêroedh o glêr y domm,  
rhodiad neu gyrwydrad.

---

<sup>1</sup> [N]eu wawtar a geir yn y testun argraffedig.

195 Hebhyd nadd elo nêb arr wyl mabsant<sup>1</sup> o'r ty y dêl idho yn gyntabh tra  
barháo y wlêdh yno heb gennad gwr y ty neu i wawdh gann aralh dan bóen colhi  
i glera; ac odd eiph o dy i dy, i dhala bhal<sup>2</sup> gwibiawdr cyrwydrad, a dwyn i glera  
odhi arno ebh, a'i rhodhi wrth oleuad a rhaid yr eglwys. Ac o brwysca ynn y  
wlêdh: colhi ohonaw i rôdh. Ac o gwnâ latteiaeth neu ansyberwyd arr wraic neu  
bhorwyn mywn vnman lhe i dêl: dwyn phîn a charchar am ei bóen, a cholhi i  
glera saith mlynedh arr ôl hynny.

200 Hebhyd nadd elont i dabharnau neu i goghlau cudhiêdic i chwareu disieu,  
neu gardieu, neu chwareu aralh am dha; ac os gwnânt, bîd pawb yn swydhawc  
arnâdhynt, a dwyn odhi arnynt y cwbl olh a bhô ynn eu pyrseu.

Hebhyd na dhyscant na sennau na rhinniau gwradwydhus, na'r cybhryw  
dhim â hynny, na gwatwar, na danwâred, na chablu, nac yspîo, nac yspeilio, na  
dychymygu celwydh neu i dhywêdyd<sup>3</sup> yn ôl aralh, dann bóen phîn a charchar.

205 Hebhyd na wnelont gynnen, na phraeeu, na thwylh, na lhedrad, na myrn,  
na chynlhwyn, nac ymganlyn â lhadron nac â nêb a wnelo dhim lhywodraeth  
dhrwc aralh dann bóen phîn a charchar; canys gwyr wrth gerdh a dhylyent dhwyn  
ymadrodhion hawdgar, hedhychlon, carêdic, vbhydh, gwasanaethgar, a phawb  
o gywirieid y brenhin a'i swydhogion a dhylyent gadarnhau a chanhorthwyaw  
210 gwyr wrth gerdh.

Hebhyd mîs ymmlâen pôb gwyl ymôrawl ohonynt â'e hathraw i wybod

---

<sup>1</sup> [B]absant a geir yn y testun argraffedig.

<sup>2</sup> [I] dhalabh bhal a geir yn y testun argraffedig.

<sup>3</sup> [I] dhyêdyd a geir yn y testun argraffedig.

i ba le yr elont, rhac myned gormodh onadhynt i'r vnlhe; ac nadd êl onyd vn  
ohonynt at wr o dhec punt o ardreth, a dau ohonynt at wr o vgein punt, ac wrth  
y râdh honno at a bhô vwch o ardreth; ac i bôb athraw bhôd a choppi ganthaw o'r  
215 drebhn honn er dangos idhynt ac er eu copháu pann dhelont i gymryd eu dysc y  
Garâwys.

[t. 302] Bardorum præmia iuxta singulos cuiusque gradus, & dignitatem.

Rhôdh i bôb rhyw wr wrth gerdh dabhawd yn herwydh anian ei râdh.

Rhôdh dyscybl dyscyblaidh am ei gywydh yw dêcrot.

220 Rhodh dyscybl pennceirdheidh am ei gywydh yw chwe swlht a naw  
ceiniawc; ac i'w athraw yr vnrhyw rôdh a rodir, onyd o syberwyd i wr i gelhir  
rhodhi idho ryw dhilhêdyn neu dlws.

Musicorum præmia iuxta singulorum gradus & merita.

Rhodhion i wyr wrth gerdh dant yn ôl gradheu eu celbhydhyd.

225 Dyscybl yspâs gradhol: swlht o rôdh a geiph arr bôb vn o'r tair gwyl  
arbennic. Sebh ynt y gwiliu hynny: gwyl y Nydôlig, gwyl y Pâsc, gwyl y  
Sulgwynn.

Dyscybl dyscyblaidh gradhawl a geiph dheuswlht arr bôb vn o'r tair gwyl  
arbennic ac arr bôb neithiawr bhrenhinawl, sebh y sawl a dhêl o hil y brenhin; ac  
230 arr neithiôrau ereilh ac arr bôb cylch clera vnweith bôb tair blynedh, wyth  
ceiniawc a geiph.

Rhodh dyscybl pennceirdhiaidh yw, bôb vn o'r tair gwyl arbennic, tri swlht a grôt, ac arr bôb neithiawr bhrenhinawl; a neithiôrau ereilh a chylch clera bôb tair blynedh yw swlht. A rhôdh penncerdh a bhydh yn bhwy o rann syberwyd no rhôdh dyscybl.

Bardi graduum dignitate priuabantur, qui in arte bardica,  
nullum effatu dignum profectum progressumue habebant.

Diradhiâdeu arr wyr wrth gerdh ny chynnydhant ynghradheu eu celbhydhyd.

Dyscybl yspâs gradhawl: ony dhysc bhôd yn dhyscybl dyscyblaidh ymmhenn y tair blynedh, colhi i râdh a<sup>1</sup> orbhydh idhaw, hyd na bô vn râdh idhaw o hynny i máes.

Dyscybl dyscyblaidh: ony dhysc bhôd yn dhyscybl pennceirdhiaidh ymmhenn y tair blynedh, colhi grâdh dyscybl dyscyblaidh a orbhydh idhaw, a syrthiaw i râdh yspâs.

Dyscybl pennceirdhiaidh: ony dhysc bhôd yn benncerdh ymmhenn y tair blynedh, colhi grâdh dyscybl pennceirdhiaidh a bhydh rhaid idho, a syrthiaw i râdh dyscyblaidh.

[t. 303] Musicorum genera.

Rhywieu cerdhorion.

Wyth ryw gerdhawr yssydh, nyd amgen pedwar cerdhawr gradhol, nyd

---

<sup>1</sup> [O] a geir yn y testun argraffedig.

amgen prydydh neu bhardh caw (a hwnnw o drî rhyw, sebh pribhardh, posbhardh, awrydhhbardh), telynior, crythawr, datceiniad.

255 Pedwar obhergerdhawr, nyd amgen: pibydd, hudawl, tabrer, phidler (sebh cerdhawr grwth tri thant). A rhôdh pôb vn o'r pedwar hynn, sebh yr obhergerdhorion,<sup>1</sup> yw ceiniawc, a chanu o'e sebhylh.

260 Pwy bynnac a dhywetto i bhôd yn arwydhhbardh, gwybydhed achoedh brenhinoedh a thywysogion, a chybharwydhyd odhi wrth y Trî Pribhardh Ynys Prydain (nyd amgen Myrdhin ab Morbhrynn, a Myrdhin Emrys a Thaliessin Benn Beirdh). Ac ynghhelbhydhyd arwydhhbardhoniaeth – o rann gwybod yn  
265 berphaith wîr achoedh, ac arwydhon, a theilyghdawt, ac odidogion weithrêdoedh pendebhigion a bonhedhigion Cymry – odidocabh a phennabh a pherpheithiabh, a hynny yn dhiamheu, y bernir *Thomas Siôn*, aliâs *Moetheu*, o Borth y Phynnon yn ymyl Trêbhgaron. [**Thomas Jones of Fowntayn Gate.**] A phan dharpho amdano, ebh a bhydh dhigon petrus y dhamwain alhu ohono y rhawc adu yn ei  
270 ôl vn cymhar idho, na chwaith nebryw achwr a dhichon, o rann bôd morr gyphrêdin ac ebh ynn yr wybôdaeth honn, wneuthur cymeint â phwyso parth ac atto. Ac o'r rhai vchod, hwnnw a elwir yn cadeirbardh a bhô ynn dwyn y gadair aur neu arian arr ei ysewydh i dhangos i bhôd yn athro cadeirioc.

Nota.

270 Ynn amser Brenhin Pennbeirdh a'i hendeidieu, ynn yr amser yr oedh

---

<sup>1</sup> [*Y*]r obergerdhorion a geir yn y testun argraffedig.

Gydwaladr yn bhrenin ac yn bennâdur arr holh dalaith y teyrnâsoedh, yna hwy a  
aethant i eistedh ac i bharnu arr bôb rhyw bêth o'r a gymrei prydydhion y dalaith  
ynn lhaw, nyd amgen arr geighcieu telyn a'i chaniâdeu. Ac yno y daeth vn gwr  
ger eu bronn i ganu isgyweir arr y bragad danneu, yr honn isgyweir a bhu seml  
275 a drwg ganthynt ei chlywed, o achaws i bôd ynn dybhod o lais Pibeu Morbhydh.  
Ac yna y gorchmynnasont idhaw, dann bhawrboen, pa bryd bynnac y delei  
geirbronn gwyr dyscêdic ganu ohonaw Mwynen Gwynedh, yr honn a dharoedh  
i Bhrenhin Pennbeirdh ac i Gydwaladr Bhrenhin yn gyntabh ei doddi i mâes ynn  
eu hamser hwy a'i cydgyghhorion. Ac na bei i nêb ganu mywn iawn  
280 gyghhânedh onyd gyd â Mwynen o achos i bôd ynn dybhod o'r cyweirdanneu  
a'r lhalh o'r cymysceid. A hynn a dystolaetha Caniad Cebhyliwr, a Chaniad o  
Bhawr Wyrthieu, a Chaniad Ieuan ab y Gôbh, a Chaniad Anrhec Dewi, a Chaniad  
Cydwgi, a Chaniad Einiawn Delynior, a'r Caniad Crych arr y Carsi, heblaw  
lhawer o ganiâdeu ereilh, y rhain a elhir eu henwi ac ymarbher onadhunt pann y  
285 mynner.

[t. 304] Rapsôdi officium.

Swydh datceiniad.

Ac yn gyntabh, ebh a dhyly datceiniad wybod cyweiriaw telyn neu grwth,  
a chanu amcan o brobhiâdeu drwy blethiâdeu yn warantêdic, a dwy ostec, a  
290 chlwm, a chaniad, a'i dair arr dhêc o bribhgeighcieu a'e cessailweision, a'i drî  
phribh accan arr dhêc, a chanu gyd â hwy, ac amcan o geighcieu a phuroriaeth,  
a'i bedwar mesur arr hugeint cerdh dant a'e dosparth yn iawn. Hebhyd ebh a

dhyly medru darlhen Cymraec yn berphaith a'i yscribhennu yn gybhiawn, ac a  
dhyly wybod ei bedwar mesur arr hûgaint cerdh dabhawd, a'e dosparth, a'e  
295 cyghhanêdheu, ac a dhyly wybod canu ohonaw i hûn eghlyn vnawdl vniawn, ac  
eghlyn prôst, a chywydh deuair hirion, a medru gossod yn iawn bôb hengerdh o'r  
a gapho ynghamm gann aralh. Hebhyd ebh a dhyly wybod a medru  
gwasanaethu odhi wrth y gegin i bhôrt gwr o vrdhas ac enrhydedh, a thorri pôb  
rhyw ederyn o'r a dhelo ger i bhronn; a'i swydh oedh mywn priôdas  
300 bhrenhinawl wasanaethu i bhort y bherch. A chôd wenn a dhyly bôd ynghhylch  
ei grwth neu ei delyn a bhô ebh ynn eu dwyn.

Rapsôdi fustuarij officium.

Datceiniad penn pastwn a'i swydh.

Datceiniad penn pastwn a elwir yr vn a bhô ynn datcânu heb bhedru dhim  
305 canu tant i hûnan. A hwnnw a dhyly sebhylh ynghhenawl y neuadh, a churaw  
i phonn, a chanu i gywydh neu i owdl gyd â r dymodieu. Ac or bydh gwr wrth  
gerdh tant lhe y delo, ny dhyly y datceiniad hwnnw gynnyc na beithiaw cymryd  
arnaw ganu na chywydh nac owdl heb dheisybh cennad i'r gwr wrth gerdh tant  
i ganu. Ac hebhyd ebho a dhyly bôd megys gwâs i'r gwr wrth gerdh tant ac i  
310 brydydh ymmhôn lhe ac y delo.

Bardorum consuetudo in conuiuijs nuptialibus eorum,  
qui à regio stemmate erant oriundi.



Neithior bhrenhînawl a bhydh pann briôder vn o waed y tywyssawc, ac  
vndydh a blwydhyn o rybydh a bhydh i wyr wrth gerdh i baratoi i dhybhod yno.  
315 Ac ynn honno y gwneir cyph clêr, a hwnnw bhydh pēncerdh o'r goreu. Ac yno  
y rhoir testyn dhigribh, dhiwlâdaidh arr y pēncerdh i'r prydydhion erailh i ganu  
idho ebh, i lawenháu'r orsedh. A'r prydydhion hynny a dhôn a'i cerdh idho ebh,  
ac a'i canant arr ostec. A thrannoeth y daw yntau a'i ateb idhynt hwytheu; a  
dyblu eu rhodhion a gânt hwytheu yno. A hynn olh a notáynt ei wneuthur wedy  
320 ciniaw, er mwyn didhânwch i'r gynnulheidbha. A'r penncerdh ynteu, neu yr  
attêbwr, a eistêdhei mywn cadair, a'r ymholwyr hwynteu a bhydhynt ynn sebhylh.  
Ac ynn y cybhrwgh hynn y bydhei raid i'r pēncerdh dewi sôn, gann odhebh i  
bawb onadhynt mywn cerdh dhywêdyd yn ei erbyn bêth bynnac a bhei dha  
ganthynt. A thrannoeth, megys y doydais o'r bláen, y bydhei raid idho ynteu  
325 ateb mywn cerdh yn destyngar i destyn y cyph clêr ac idhynt hwytheu.

*Domine Saluam fac Reginam.*

FINIS.

## R (i)

### LLGC 13078

#### tt. 73 - 7

[t. 73]<sup>1</sup> Llyma Ystatûd Gruffyth ap Kynan, tywssog Kymrv, ar y sawl y maent yn rhydd yddynt glera, nid amgen gwr wrth gerdd anafvs, megis gwr dall; dyscybl ysbas; dyscybl dyscyblaidd; dyscybl penkerddiaidd; penkerdd ag athro.

5           Dyscybl ysbas kerdd dafod a ddyle wybod i silltafav, a phvmb mesvr englyn (nid amgen vnodl vnion, vnodl crwcka, vnodl crych, pros kyfnewidiog, pros kadwynog), a mesvr kowydd davair vnion, a'i kanv yn awenyddgar ymarn penkerdd a ddoyto ar i gydwybod a ellir gwr wrth [*gerdd*] dafod ohonno.

10           Dyscybl dyscyblaidd a ddyle wybod xij mesvre: y pvmb englyn vchod, pedwar mesvr kowydd (kowydd<sup>2</sup> davair hirion, owdl gowydd, kowydd davair fyrion a chowydd lloscymniog), tri o fesvre odle (nid amgen toddaid,<sup>3</sup> gwawdodyn hir, gwawdodyn byrr); a gochel y pvmtheg bai kyffredin; a dangos o'i waith i hvn y devddeg mesvr yn ddifai, ddyscyblaidd.

          Dyscybl penkerddiaidd a ddyle wybod i holl silltafav, rhwle yr ymadaroddion yn ol y gramadeg, dosbarth kynghaneddion, gochel yr holl feie,

---

<sup>1</sup> Gan fod conglau R (i) wedi gwisgo, defnyddiwyd testun U<sup>(1)</sup> (iii) i lenwi'r bylchau. Gwelir yr ychwanegiadau hyn wedi eu hitaleiddio rhwng bachau petryal. Wrth gwrs, cymerwyd yn ganiataol fod conglau R (i) yn ddarllenadwy adeg copio U<sup>(1)</sup> (iii).

<sup>2</sup> Llsg. *a chowydd*.

<sup>3</sup> Llsg. *toddiad*.

15 kanv yn gytsain nê yn gyvochr i gerdd [*ar*] vn mêsvr ar rûgain o'r mesvre. Er na  
chan gerdd gadwynferr na thawddgyrch gadwynogn ne ddigwydd vn o'r mesvre  
heb i wybod, er hyny i may ef yn gydymaith i benkerdd.

Penkerdd a ddyle wybod y cwbl, a chanv yn gyvochr ag yn  
groesgyghaneddawl ar gymeriade, yn destyngar ar ddigrifwch, yn ffrwythlawn  
20 o synwyr, yn ddeynyddgar o gerddwriaeth, yn warented[*ig*] o awdvrddod, ag yn  
awenyddol o ddychmygion, fel i bo esmwytha dysgv ne ddatgan i gerdd, a  
digrifa a difyrfa i wrando ne i darllen, a hwyaf gallv dal kof ar foliant Dvw a'i  
foneddigion.

Kerdd dant.

25 Dyscybl ysbas graddol. Dyscybl ysbas heb radd: nid oes [*ar i*] kelfyddyd  
nag ar i [*radd nag ar i rodd onid barn pencerdd a*] ellir gwr o [*gerdd ohono*].

[t. 74] Dyscybl ysbas graddol a ddyle wybod pvmb cwlwm o glymme, a  
chadair, a barn athro o ganiadav a gostegion.

Yn ddyscybl ddyscybliaidd a ddyle wybod deg o ganiadav, deg o glymme,  
30 kadair, a cholofn, a gwybod pa ryw gowair a font ar y mesvre a gano.

Yn ddyscybl penkerddiaidd fe ddyle wybod vgain o glymme, vgain o  
ganiade, dwy golofn, pedwar ar vgain o glyme kytgerdd, a phedwar mesvr ar  
vgain, a'i dosbarth a'i kanv yn benkerddiaidd; ag vn rodd a phenkerdd tra fo yn  
yr radd honno.

35 Yn benkerdd fe ddyle wybod deg ar rhugain o glymme ymryson, ag o  
hyny o'r hynn lleiaf tair kolofn a thair o'r kadeirie. A fynno ddwyn ariandlws  
delyn ne grwth rhaid yw iddo wybod y pedair kolofn, a'r pedair kadair, a'r  
pedwar mesvr ar vgain a phedwar ar rûgain o glyme kytgerdd amaddynt, a'i

dosbarthv bob gwahan a<sup>1</sup> rhagwan, pob kynhwysiad, a gorffwysfa pob ysmvdfa  
40 ar dynniad a chowirdant, a dangos yn warentedig o'i waith i hwnan yn  
benkerddiaidd ag yn athrawaidd, fal i bo kydwybodys i benkerddiaid a doethio[n]  
i famv a'i ddewiso yn awdvr ag yn athro i'r gelfyddyd. Ni ddyle neb ddysgv ond  
gan athro penkerddiaidd, ne gael gantho famv ne osod yn iawn a ddysger gan  
ara[//].

45 Ag os telynior fydd rhaid iddo wybo[d] try mwllch odidog, y kwlwm  
hwnw a raddiwyd gynt yn gyfiwch a deg kwlwm a degain. Pob kadair o'r  
peda[ir] kadair: pvmb kwlwm bob vn; pob kolofn o'r pedair kolofn: deg kwlwm  
bob vn.

Gwedi hyny ir ordeiniwyd i'r athrawon penkerddiaidd gymryd  
50 dyscyb[//]ion wrth rywolaeth i'r gelfyddyd, nid amgen vn ar vnwaith mewn dog[n]  
brentissiaeth; ag na bo i ddyscybl [wneu]thvr dyscybl arall; ag ar [bob dysgy]bl  
fod gida'i athro b[ob Grawys dan] boen kolli i [râdd] [t. 75] oni bydd achos –  
karchar, ne glefyd, ne'r kyfryw achos kyfreithlon.

Hefyd na bo prydydd a gano kerdd i erchi gwalch, march, na milgi, ne'r  
55 kyfryw anwyldlws, na dim a dalo ywchben deigain; na ofynner heb gennad y  
perchenog; ag nadd anfono gwr wrth gerdd dant y kowydd hwnw adre dan boen  
ffin.

Hefyd gorchymyn na wnel dyscybl gerdd heb i dangos y'w athro, a  
gwybod wrth fam i bod yn iawn kynn i chanv allan.

60 Hefyd gorchymyn i bawb na wnelont arferav vacabwnt ne grwydrad; nad

---

<sup>1</sup> Llsgr. ar.

el neb o'r ty i del [iddo] tra barho y wledd yno heb genad gwr y ty ne wahadd gan  
arall, dan boen kolli i glera a'i roi yngolevad yr eglwys. Ag o brwysca yn i  
wledd: kolli i rodd. Ag od a o dy i dy: i ddal fal facabwnt, a dwyn i glera, a'i roi  
yngolevad yr eglwys. O gwna lateieth ne ansyberwyd am wraig ne forwyn lle  
65 i del: dwyn ffin a charchar, a cholli i glera saith mlynedd.

Hefyd na ddyscant na sennav na rhimmynav gwradyddys, na chyfryw  
henwav – goganv, gwattor, dynwarded, kablv, ysbio, dychmygv kelwydd ne  
ddoydyd yn ol arall kelwdd[og] – dan boen ffin a charchar, nag ymgalyn a  
lladron na neb a wnel anllyfodraeth drwg arall; kanys gwyr wrth gerdd a ddylent  
70 ddwyn ymadroddion heddychol, hawddgaredig, vfydd, gweiniethgar, ag i bawb  
o gowiriaid i brenin a'i swyddogion i kadarnhav a'i swckrio.<sup>1</sup>

Hefyd mis o flaen pob gwyl ym[oro] a'i athro i wybod pa le i[r el], rhag  
[mynd] gormod i'r [unlle]; [ag nad el ond un at wr o ddec punt o] [t. 76] fowyd,  
dav at wr o vgain pynt, ag wrth y radd<sup>2</sup> honno at a fo ywch o rent,<sup>3</sup> ag i bob  
75 athro bod koppi o'i order gidag<sup>4</sup> ef er dangos a choffav o'i ddyscyblion pan  
ddelont i geisio dysc bob Grawys.

Bod i bencerdd o brydydd am gowydd vn a phedwar vgain; am hyny i  
kanodd Gytto i Abad Llanegwestl<sup>5</sup> fal hynn:

---

<sup>1</sup> Llsgr. *sweri*.

<sup>2</sup> Llsgr. *y rhodd*.

<sup>3</sup> Llsgr. *ag wrth y rhodd honno at a fo ywch o rent, dav at wr o vgain  
pynt*.

<sup>4</sup> Llsgr. *gida*.

<sup>5</sup> Llsgr. *egwestr*.

Lle rhwydd gwerthv kowydd kain,

80

pe drwg, er pedwar vgain.

Os athro fydde, defod oedd iddo gael rhyw dlws, arf, ne ddillad fel i bai syberwyd gan y rhoddwr.

Dyscybl dyscybliaidd: iijs iiijd.

85

Rhodd penkerdd tanne bob vn o'r gwilie arbenig (Nadolig, Pasc, Sylgwyn): iijs viijd; pob neithiar arall yr vn modd. Ag yno ir edrychir am godi gradd, a rhoi pawb fal yr ynillo; a'r neb a gotter vnwaith, ni ddylid i ostwng oni bydd a brofo arno na ddyle gael yr radd<sup>1</sup> hono.

Hefyd kwrs clera penkerdd vnwai[*th*] bob tair blynedd: xijd o rodd; neithiar gyffredin yr vn modd.

90

Rhodd dyscybl<sup>2</sup> dyscybliaidd ar wyl: ijs; kwrs klera: viijd.

95

Hefyd mae arweddfardd i son amdano, er nad yw yn y byd heddyw; hwnn a elwir datgeniaid. Yr hw[*nm*] a ddyle wybod llawer o waith y tri prifardd (nid amgen o waith Merddin Emrys, Taliesin, a Merddi[*n*] Wyllt ap Merfyn Frych), a llawer o waith posfeirdd; sef ynt y rhain: prydyddion. Hefyd fo ddylly datgeniaid wybod i silltafav rhag kamodli kerdd, a gwybod gwahan rrwng gwaith penkerdd a gwaith tinkerdd mewn llaw[*er*] o ffyrdd. Hefyd fo ddyle wybod y prif iachav mwyaf brenhinoedd, tywssogion, arglwyddi, marchogion, boneddigi[*on*]; os hynn oll a wyr, ef a dd[*oydir y dyle yr un*] rhodd a dyscybl.

---

<sup>1</sup> Llsgr. *y rhodd*.

<sup>2</sup> Llsgr. *dysbybl*.

[t. 77] Iachwr: ijd o rodd bob blwyddyn.<sup>1</sup>

100 Ag lle ir oedd gynt dri bardd kaw, nid amgen prif fardd ag arweddfardd,  
nid oes heddyw ond posfard[*d*]; hwnn yw'r prydydd.

Ag felly i terfyna yr Ystatûd honn. (1593)

---

<sup>1</sup> Llsg. *blwynyn*.

**RH**

**LLGC 16962**

**f. 296<sup>v</sup>**

[f. 296<sup>v</sup>] Gwyr wrth gerdd: Statut Gruffudd ap Cynan.

Rhodd pencerdd y tair gwyl arbenic: iijs iiijd.

Rhodd discipl cydymeith pencerdd: iijs iiijd.

Rhodd discipl disciplinaidd: ijs.

5 Rhodd discipl spas: xijd.

Cwrs clera pencerdd vnwaith bob tair blynedd: xijd; ar wyl mapsant,  
neithior: xijd.

Cwrs clera discipl disciplinaidd: viijd.

Cwrs clera discipl spas: vjd.



S (i)

**LLGC 872**

**tt. 388 - 9**

[t. 388] Llyma yr Yssdatvs a wnaeth Gruffudd ap Kynan i'r penkeirddiaid a'r athrawon i gymrvd dysgyblon wrth lyfodraeth y gylfyddydd, nid amgen noc vn ar vnwaith mewn<sup>1</sup> prentisieth; ac na bo i ddiscibil wnethvr disgibil arall; a hefyd ar bob discibil fod gida'i athro bob Grawys dan boen kolli i rodd, oni bydd  
5 achos kyfreithlon, karchar, ne glefyd.

A hefyd na bo prydydd a gano kerdd i erchi march, ne walch, ne filgi, ne gyfriw annwyldlws, a hynny heb genad y perchennoc; ac nas anfono gwr wrth gerdd dant dan boen ffin.

A hefyd na wnel ddynwarded i athro ac arall ar i feddwl na'i fyfyrdod.

10 Hefyd na wnel disgibil gerdd dant na cherdd dafod heb i dangos y'w athro, a gwybod i bod yn iawn kyn i chanv allan.

A hefyd ir ys yn gorchymyn i bawb na wnelon arferav fakymwnt nev rodiad [neu] grwodriad;<sup>2</sup> nadd elont o'r ty i delont iddaw tra pyra y wledd honno heb genad gwr y ty ne'i wadd o arall dan boen kolli i glera; ac od a i dy arall: i  
15 ddal fal fagymwnt, a dwyn i glera, a'i roi yngolevad yr eglwys blwy nessa. Ac o brwysga yn y wledd: kolli i rodd. Ac o gwna lateieth nev ansyberwyd am wraic ne forwyn yn lle i del: dwyn ffin nev carchar, a'i glera a gyll yn y wlad

---

<sup>1</sup> Llsgr. *mawn*.

<sup>2</sup> Llsgr. [*neu*] *gwrodraid*.

hono vij mlynedd.

20 A hefyd nadd elont i dyfarnav ne gornelav kyddiedic i chwarav na dissociav,  
na chardiav, na chware dim oddierth sevthv ne gwmpenieth gwyr da; os ant:  
pawb a ddylv fod yn swyddoc arnvnt o'i dal, ac i ddwyn i pyrse oddi arnvnt, a'i  
roi hwynt yngharchar, a'i ysgwrsio.

25 A hefyd na ddysgont na sennav na rimynnav gwradyddys, na chyfriw a  
hynny o ganevav, na<sup>1</sup> gwatwar, na dynwarded, na chablv, nac ysbio, na dychmygv  
kelwydd ne'i ddwedyd yn ol arall kylwddoc, dan boen ffin a charchar.

30 A hefyd na wnelont [t. 389] gynhennv na ffraie, na lledrad ne gynllwyn,  
ymgalvn a lladron nev a'r neb a wnel anllwfodraeth<sup>2</sup> na drwc arall; kanes gwyr  
wrth gerdd a ddyly dwyn ymarweiddiad heddychvs, howddgar, kredic, vfvdd,  
gwsneythgar i bawb o gywiriaid y brenin a'i swyddogion, y'w kydarnhav  
35 hwyntav a'i sswcrio rac kael kam ne i<sup>3</sup> gynnig vddvn.

A hefyd ymlaen pob gwyl i dylv pob disgibl ymddiddan a'i athro i wbod  
i b'le ir elon i fwrw i gwilie, rac myned gormodd i'r vnle; ac nad elent ond vn  
at wr xl, a dav at wr xxl ar y tair gwyl arbennic, ac yn ol hynny at wr a fo mwy  
o rent. Ac i bob athro fod copi o'r order honn gidag ef<sup>4</sup> er [i] dangos vddvnt pan  
35 ddelont i gymrvd i disc y Grawys, i ysbyssv honn ymlaen vddvnt, a nhwythe o'i  
chadw hi dan boen y dial sydd ynddi.

---

<sup>1</sup> Llsgr. *a*.

<sup>2</sup> Llsgr. *anllwfrodraeth*.

<sup>3</sup> Mae darlleniad *ne i* braidd yn aneglur gan yr ymddengys fod llaw y  
copiwr wedi llithro rywfaint.

<sup>4</sup> Llsgr. *gidaf gee*.

Rodd penkerdd ar bob vn o'r tair gwyl arbennic: ijs iiijd. Rodd disgibl  
penkeirddiaidd: ijs, oni bydd kydymayth i penkerdd. Kwrs klera i penkerdd  
bob tair blynedd: xijs<sup>1</sup> o rodd gan bob pendefic o xl allan; a dwy rod [i] ddisgibl;  
40 ac velly pob gwyl mabsant a neithiar. A disgibl disgyblaidd: xijd ar bob vn o'r  
tair gwyl arbennic, a chwech o kwrs klera. A dissgibl ysbas: o geineoc, hyd lle  
bo syberwyd y gwr i del atto er help o'i ddisc.

Ac yn y modd hynn y terfyna<sup>2</sup> Yssdattvs Gruffudd ap Kynan ar holl  
Gymry. Terfvn.

---

<sup>1</sup> Tanlinellir *xijs* yn y llsgr.

<sup>2</sup>Llsgr. *a tefyna*.

## W

### Card. 2.634 (Havod 24)

#### tt. 297 - 303

[t. 297] Llyma Ystatunn Gruffydd ap Kynan a Bleddyn ap Kynvynn, yr honn a wnaethant ar wyr wrth gerdd, ac [a] oedd yn ysgrifenedig ar y rhol uchod.

Braint ag Statvnn Grvffvdd ap Kynan a Bleddyn ap Kynvyn, yr honn a wnaethant ar wyr wrth gerd, nid amgen vod no rrag myned neb yn wyr wrth gerd  
5 mwy [t. 298] nog a delynt i vyned i eistedva vnwaith bob tair blyned ymhlas gorvchel y twyssog yn Aberffraw Ymon, ag Ymathraval Ymhowys; a nawd a gorchymyn hyd nad elai neb yn wr wrth gerdd o'r dyd hwnnw allan ond drwy gennad yr arglwydd a thrwy rod kenedl at i athro, ag i'r athro hwnnw atteb ohonaw yn wr wrth gerd abl yn y dydiav kyfraithvs.

10 A hevyd na bai i neb kynnal dwy gelvyddyd, nid amgen no phrydydiaeth a rryw gelvydyd arall o ganv telyn nev grwth.

A hevyd na bai i neb arwain krefft a chelvydyd, megis bod yn saer nev yn of, a chida hynny prydydiaeth nev delynoriaeth.

15 A hevyd nawd na bai i [t. 299] wyr wrth gerd erchi meirch, nev ychen, nev wisgoed anrrydedvs, na dim ag a ellid i gael ar werth dros benn gwerth chwevgaint, ond penkerd kadeiriog, [a] hynny dan boen kolli da wrth gerd hyd ymhen tair blyned, a'i rod yn fforffet i'r brenin.

Ag yn y gwledav hynny y gwnaethbwyd ag i kadarnhawyd braint ag Ystatvn ar wyr wrth gerd, nid amgen tair grad: nid amgen prydydiaeth,

20 tavlwrriaeth a chlerwrriaeth; a rrodion i bawb wrth ei braint; a phawb ohonvnt  
gyda'r twysogion ar bob vn o'r tair gwyl vchel.

A gwedy marw y twysogion y kymmerth y gwyr bonheddigion, a hanoedynt  
o waed y twyso[t. 300]gion, y gwyr wrth gerd attvnt, ag i roesant vddvn gylchwy  
vnwaith bob tair blyned; ag yn amod, i'r prydydion kynnal iaith y Brvtaniaid, a  
25 chynnal yr achoed, a chynnal y gweithredoed.

Ag i roesant i'r klerwyr gainiog o bob aradr ymhob vn o'r tair talaith, a  
dimav o bob hanner aradr, a lle ni cheffynt yr arian: dwyn attavael.

Ag nad elai y klerwr i dy yr vchelwr, ag nad elei y penkerd i dy'r  
gwreang; ag od elai, na bai ido ond rrod y klerwr.

30 Ag ar y klerwyr y<sup>1</sup> rroed danwarded, ag ymsennv, ag ymdyvalv, ag  
ymwradwydio, a hynny ar gerd dafod [t. 301] ag i gyd ar vnwaith; a'r gainiog yn  
y kyd er mwyn ardelw ohonvnt o wyr wrth gerd, a'r ovram er mwyn dirmygv y  
kythrel a'i tynnodd hwynt mewn diogi, a llesgedd, a glothineb a godineb.

Ag ar y tavlwrwyr y rroed testynio, a digrifhav, a gorderchgerd, ag ervyn  
35 da'n davlvoid.

Ag os dychanu a wnaid yn y gwledav, a rrodi testvn ar wr wrth gerd, iawn  
oed rodi testvn ni bai wir, rrag kewilydio o'r gwr wrth gerd am i destvno am  
beth a fai wir; a'r gwr a dychenid a dylyai gael dwy rod megys i bai i vrait.

Ag yn ol Grvffvd ap Kynan, Bledyn ap Kynvyn, twysog<sup>2</sup> Powys, a

---

<sup>1</sup> Ceir y llythyren *i* uwchben y llythyren *y* yn y llsgr. wreiddiol.

<sup>2</sup> Llsgr. *a twysog*.

40 gadarnhawdd [t. 302] breiniav ag ystatvniav<sup>1</sup> gwr wrth gerd, ag a wnaeth eraill  
o newyd.

A'r vn gyffelib a hynny, yr Arglwyd Rys ap Tewdwr, twyssog  
Dehevbarth, pan darvv wnavthvr y twr newyd yn Abertaivi, a wnaeth wahaod a  
gorchymyn ar bawb a'r a geisiev da wrth gerd – Kvmrv, a Lloegr, ag Ewerdon  
45 ag Yskottlont – i dyvod i'r twr newyd yn Abertaivi dan rrybydd vndydd a  
blwyddyn.

Ag velly y terfyna honn yr ail dydd o fis Gorffenna yn oedran Krist 1607,  
yr honn oedd yn ysgrifenedig [t. 303] ar gefn y dwned o'r vn llaw a'r dwned.  
John Jones.

---

<sup>1</sup> Llsg. *ystvniav*.

**Peniarth 73****tt. 154 - 8**

[t. 154]<sup>1</sup> Ystatvd Grvffydd ap Kynan am wyr wrth gerdd.

Braint ag Ystatvs ar wŷr wrth gerdd, nid amgen tair gradd: prydyddiaith, tevlwriaeth a cherddwriaeth; a rhoddion i bawb wrth i braint; a ffawb ohonynt gida'r twyssogion ar bob vn o'r tair gwyl vchel.

5 Ag wedi meirw y twyssogion y kymmerth y gwyr boneddigion, a hanoeddynt o waed y twyssogion, y gwyr wrth gerdd attynt, ag i roessant iddyn gylchwn (nid amgen kwrs klera) vnwaith bob tair blynedd; ag yn amod, i'r prydyddion kynal iaith y Brvtaniaid, a chynal yr iachoedd, a chynal i gweithredoedd.

10 Ag i rhoessant i'r klerwr geniog o bob aradr ymhob vn o'r tair talaith, a dime o bob haner aradr; a lle ni cheffynt yr arian: dwyn attafel.

Ag nadd elai yr klerwr i dŷ yr vchelwr, ag nadd elai y penkerdd i dŷ gwrengwr; ag od ai, na bai iddo ond rhodd klerwr.

Ag ar y klerwr rhoed ymsennv, ag ymddyfalv, ag ymwradyddo, a hynny

---

<sup>1</sup> Pan welir gair yn cynnwys y llythrennau *er, ir, wr, yr*, ac weithiau *vn* neu *un*, a phan fo angen acen grom uwchben yr *e, i, w, y, v/u*, tuedda copïwr y testun hwn i leoli'r acen grom uwchben y llythyren *r* neu'r llythyren *n*. Fodd bynnag, lleolwyd yr acen uwchben y llythrennau 'cywir' yn y testun uchod, gan yr ymddengys mai arfer y copïwr hwn yn unig ydyw lleoli'r acen uwchben y llythrennau anghywir.

15 ar gyhoedd dafod ag i gîd ar vnwaith. Rhoi keniog yn kydnabod er mwyn arddelw  
ohonynt o wŷr wrth gerdd, a'r ofram er mwyn dirmygv y kythrel a'i tynnodd  
hwynt mewn diogi, a llesgedd, a glothineb a godineb.

Ag ar y tevlwyr i rhoed testvniio, a digrifhav, a gordercherdd, ag erfyn  
da yn devlvaidd.

20 Ag os dychanu a wnaid yn y gwleddav, a rhoddi testyn ar wŷr wrth gerdd,  
iawn oedd roddi testyn ni bai wŷr rhag kwilyddu y gŵr wrth gerdd am destynio  
am beth na<sup>1</sup> fai wŷr; a'r gŵr a ddychanid a ddyle gael dwy rod modd i bae ei  
frait.

Ag yn ôl Grvffydd ap Kynan i doeth Bleddyn ap Kynfyn, twyssog Powys,  
25 ag a gadarnhaodd breiniav ag Ystatvniav gwŷr wrth gerdd, ag a wnaeth eraill o  
newydd.

Ag vn gyffelib i hynny yr Arglwydd Rŷs ap Tewdwr, mawr twyssog  
Dehevbarth, pan ddarfv gwnevthvr y tŵr newydd yn Aberteifi, y gwnaeth  
gwahodd a gorchymyn ar bawb a'r a geissiai da wrth i gerdd – Kymrv, a Lloegr,  
30 ag Ywerddon ag Ysgotland – ddyfod [t.155] i'r tŵr newydd yn Aberteifi dann  
rybydd vndydd a blwyddyn.

Ag felly byd ysbys i bawb o foneddigion a chyffredin fod eisteddfod ar  
wyr wrth gerdd dafod a cherdd dant o fewn tref Gaerwys yn Sir y Fflint, y  
devddegfed dydd o fis Gorffenna yn y bymthegfed flwyddyn o goroniad y Brenin  
35 Harri Wythfed, garbronn Rissart ap Howel ap Ieuan Vychan, ysgwyer, drwy  
gyttvndeb Syr Wiliam Grvffydd a Syr Roger Salsbri, a thrwy bressennol gyngor

---

<sup>1</sup> Llsgr. *a*.



Grvffydd ap Ieuan ap Llywelyn Vychan a Thvdvr Aled, bardd kadeiriog, a llawer  
o foneddigion a doethion eraill, yn gwnevthvr order a llyfodraeth ar gerddwyr ag  
ar i kylfyddyd, nid amgen ag i gadarnhav a chonffvrmio y penkerddiaid a'r sawl  
40 a gafas grâdd yn y blaen, ag i raddio y sawl a haeddai, ag i rod-di i eraill ysbâs i  
ddysgv ag i fefyriaw nessa ag i galler wrth gydwybod ag wrth hên Ystattvs  
Grvffydd ap Kynan.

Llyma y sawl y mae rhydd iddyn glêra: gŵr wrth gerdd anafvs, er na bo  
gradd iddo, megis<sup>1</sup> dall; disgybl sbâs; disgybl disgyblaidd; disgybl penkerddiaidd;  
45 a ffenkerdd.

Disgybl sbâs kerdd dafod a ddylai [i] wybod svlldafav, a ffum messvr ar  
englyn, a messvr kowydd devar, a'i kanv yn ywenyddol ymarn penkerdd a ddoeto  
i gellir prydydd ohono.

Disgybl disgyblaidd a ddy[lai] wybod devddeg o'r messvra: pvmp ar  
50 englynion, pedwar [o] gowyddav, a thri o fessvre odle (toddyn, gwavdodyn hir  
a byrr<sup>2</sup>); a gochel y pymtheg bai kyffredin; a dangos kerdd o'i waith i hvn ar bob  
vn o'r devddeg messur yn ddifai, ddisgyblaidd.

Disgybl penkerdd a ddylai wybod yr holl svlldafav, a rhiwl ymadrodd yn  
ôl gramadeg, a dosbarth y kynghaneddion, gochel yr holl gamav, kanv yn  
55 gytssain ne yn gyfochrgerdd ar xxi o'r messvra. Er na chano gerdd o gadwynfyr  
a thowddgrych kadwynog, ne o digwydd vn o'r messvra heb i wybod, y mae yn  
gydymeth i benkerdd.

---

<sup>1</sup> Llsgr. *ne megis*.

<sup>2</sup> Llsgr. *gwavdodyn toddyn hir a byrr*.

Yn benkerdd i dyle wybod y kwbl, a chanv yn gyfochyr-gynghaneddus ar gymeriadav, yn destvngar ar ddygrifwch, yn ffrwythlawn o ssynwyr, yn  
60 ddevnyddgar o gerddwriaeth, yn warantedig o awdvrdaud, ag yn ewenyddol o ddychmigion, fal i bo ysmwytha i dysgv ne i datgan, a difyrfa i'r gwranda-wyr ne i'r darllennydd, a hwy a galler dal kof ar voliant boneddigion rhag llaw.

[t. 156] Kerdd dant.

Disgybl heb radd: nid oes dogyn ar i rodd nag ar i gylfyddy onid barn  
65 penkerdd a ellir gwr wrth gerdd ohonaw.

Disgybl o sbâs graddol a ddyle wybod pvm kwlwm, a chadair, ag a farno athro o ganiadav a gostegion.

Disgybl disgyblaidd a ddyle wybod dêg o ganiadav, kadair, a cholofn, a gwybod pa gweiriadav a'r messvra i bôn.

70 Yn ddisgybl penkerddiaidd: vgen o glvme, dwy gadair, dwy golonn, a'r pedwar gosteg, pedwar ar higain o glyme kytgerdd, a'r pedwar messvr ar higain, a'i dosbarthv a'i kanv yn benkerddiaidd; ag yn vn rodd a ffenkerdd, eithr ni ddyle ymgystadlv a ffenkerdd tra vo yn y radd honno.

75 Yn benkerdd i dyle wybod deg ar higain o glyme – o'r hynn lleiaf tair o'r kolofnav, tair o'r kadeiriav. Ag a fynno dwyn ariandlws telyn ne grwth rhaid iddo wybod y pedair kadair, a'r pedair kolonn, a'r pedwar messvr ar higain, a ffedwar ar higain o glyme kytgerdd, a chledde kerdd, a dosbarthv pob gwahan a rhagwahan, pob kynhwysiad, a gorffwysfa pob ysmvdfa ar dyniad a chowiriant, a dangos kerdd warantedig o'i waith i hvn<sup>1</sup> yn benkerddiaidd ag yn athrawaidd,

---

<sup>1</sup>Ceir acen grom uwchben y llythyren v.

80 fal y bo kydwbybodvs i'r penkerddiaid a'r doethion i varnv a'i dewisso yn awdvr  
ag yn athro ar i gylfyddy; kanys ni ddyle neb ddysgv ond gan athro  
penkerddiaidd, ne gael gantho farnv ne ossod yn vnion a ddysger gan arall.

Ag os telynior, rhaid iddo wybod y tri mwlech godidog, y kwlwm a  
raddiwyd yn gifwch a deg kwlwm a devgain, a'r nis mettro. Pob kolon a  
85 raddiwyd yn ddeg kwlwm, pob kadair yn ddeg kwlwm ar higain.

Wedi hynn yr ordeniwyd athrawon a ffenkerddiaid i gymryd disgyblion  
wrth reolaeth i kylfyddy, vn ar vnwaith mewn dogyn o brentissiaith,<sup>1</sup> ag nâ bo  
i'r dysgybl wnevthvr dysgybl arall; ag ar bob disgybl fod gida'i athro bob  
Grawys dan boen kolli i radd oni bydd achos – karchar, ne glefyd, ney'r kyfryw  
90 achos kyfreithlon.

Hefyd na bo prydydd a gano kerdd i erchi march, ne walch, ne filgi, ney'r  
kyfriw anwyldlws, heb gennad perchennog; ag nas anfono gŵr wrth gerdd [dan]t  
dann boen ffin a charchâr.

[t. 157] Hefyd na wnêl neb ddynwarded i athro nag arall ar i feddwl a'i  
95 fyfyriad.

Hefyd na wnel gerdd heb i dangos y'w athro, a gwybod i bôd yn i lle kynn  
i chanv allan.

Hefyd gorchymyn i bawb na wnelon arferav vakabwnd, rhodiaid<sup>2</sup> ne  
grwydriad; ac nadd el neb o'r tŷ y dêl iddaw tra byrhao y wledd yno heb gennad  
100 gŵr y tŷ ne'i wahodd gan arall, dan boen kolli i rodd; ag od â o dŷ i dŷ: i ddal

---

<sup>1</sup> Llsgr. *o brentissiaidd*.

<sup>2</sup> Llsgr. *rhoddiaid*.

fal vakabwnd, a dwyn i glera, a'i roi yn olevad yr eglwys blwyf; ag o brwysga yn y wledd: kôlli i rodd. O gwna lateieth ne anssyberwyd am wraig ne forwyn lle i dêl: dwyn ffin a charchar, a cholli i glera saith mlynedd.

105 Hefyd nadd elant i dafarne ne i gornele kuddiedig a chware dissie, ne gardie, ne chware arall am dda; pawb yn sswyddogion arnynt a dwyn a fo yn i pyrssav.

Hefyd na ddysgant na sennav na rhimynav gwradyddvs, na chyfriw a hynny – goganv, gwatwar, dynwared, [cablu, ysbïo, dychmygu celwydd neu ei ddywedyd] yn ôl arall kelwyddog – dann boen ffin a charchar.

110 Hefyd na wnelont gynnen, ffraie, twyll ne ladrad, mvrn ne gynllwyn, ymgalynn a lladron ne a'r neb a wnel anllyfodraith ddrwg arall; kanys gwŷr wrth gerdd a ddylant ddwyn ymarweddiad heddychol, howddg[ar], kariadvs, vfydd, gwasnaethgar, ag i bawb o gowiriaid y brenin a'i sswyddogion i kadarnhav a'i sswckrio.

115 A mis ymlaen pob gwŷl ymorol a'i athrawon i wybod p'le ir ânt, rhag myned gormod i'r vnle; ag nadd êl ond vn at wyr o ddeg pvnt o fowyd, dav at wŷr o vgain pvnt o fowyd ar y tair gwyl arbennig, ag at radde honno at wŷr a fo vwch o rent; ag i bob athro bod kopi o'r order honn er i dangos vddynt ag y'w koffav pan ddelont i gymryd dysg Grawys.

120 Llyma roddion pawb wrth i radd:

Rhodd penkerdd ar tair gwŷl arbennig: iijs iiijd

Rhodd disgybl disgyblaidd: ijs.

Rhodd disgybl o sbâs: xijd.

Rhodd penkerddiaid ar wyl mabsant ne neithior oni bydd neithior reiol:

125 xijd.

Kwrs klera disgybl disgyblaidd, [ ]d.

Kwrs klera disgybl o sbâs, v[ ].

Hefyd o daw gwr o wlad arall i glera heb [ysgrifen] vn o'r penkerddiaid  
i ddangos beth a ddyly, ag o[nis bydd] bod heb i rodd.

130 [t. 158] Hefyd tevlvwr, o ran iache bonneddigion, lle i gwypo ddwyn iache  
y gŵr a'r wraig at vn o'r llwythe yreiol a fv yn dwyn arfe gynt: gida ssyberwyd  
boneddigion, ijd.

**BL 14943****ff. 3<sup>r</sup> - 8<sup>v</sup>**

[f. 3<sup>r</sup>]<sup>1</sup> Statud y gwŷr wrth gerdd o waith Gruffudd ap Cynan, twysawc Cymru, yr hwn a ddechreuodd lywodraethu Gwynedd ynghylch y flwyddyn 1079, ac a fu farw yn y flwyddyn 1136. Yr hon Statud a gadarnhawyd mewn eisteddfod gan amryw o athrawon celfyddyd o<sup>2</sup> Gymru, a Gwyddelod hefyd, y  
 5 rhai a ddygasai Gruffudd ap Cynan gydag efo o'r Iwerddon.<sup>3</sup>

[f. 4<sup>r</sup>] Llyma'r sawl sydd rydd iddynt glera:

1. Gwr wrth gerdd anafus, megis gwr dall.
2. Disgybl ysbâs.
3. Disgybl disgyblaidd.
- 10 4. Disgybl penceirddiaidd.
5. Pencerdd.

Disgybl ysbâs cerdd dafawd a ddylai wybod y silldafau, a phum mesur ar englyn (nid amgen unodl union, unodl crwcca, unodl cyrch, proest cadwynog, proest cyfnewidiog), a mesur ar gowydd dauair hirion, a'i canu yn awenyddgar  
 15 ymarn pencerdd a ddwedo ar ei gydwybod a ellir prydydd ohono.

---

<sup>1</sup> Ar waelod y ffolio ceir yr wybodaeth a ganlyn: "A ysgirfennwyd allan o Hen Lyfr 'sgrifen genifi Lewis Morris yn y flwyddyn 1727."

<sup>2</sup> Mae'r llythyren 'o' wedi ei hysgrifennu ar ben dwy lythyren arall, sef *y ac r*.

<sup>3</sup> Mae ffolio 3<sup>v</sup> yn wag.

Disgybl disgyblaidd a ddylae wybod dauddeg o fesurau, sef pum mesur englyn, pedwar mesur cowydd, ag owdl (toddaid, gwawdodyn byr a gwawdodyn hir); a gochel [t. 4<sup>v</sup>] y pymtheg bai cyffredin; a dangos o'i waith ei hun bob un o'r deuddeg mesur yn ddisgyblaidd.

20 Disgybl penceirddiaidd a ddylai wybod i holl silldafau, a rheol yr ymadroddion yn ol y gramadeg, a dosbarth y cynganeddion, a gochel yr holl feiau, canu'n gydsain neu'n gofiwchgerdd ar un ar hugain o'r mesurau. Er na chano fyr na thawddgrych cadwynog, neu ddigwydd un o'r mesurau heb wybod, mae ef yn gydymaith i bencerdd.<sup>1</sup>

25 Pencerdd a ddylai wybod y cwbl, a chanu'n gyfochr, yn gydsain, yn groesgynganeddawl ar<sup>2</sup> gymeriade, yn destyngar ar ddigrifwch, yn<sup>3</sup> ffrwythlon o synwyr, yn ddeunyddfawr o gerddwriaeth, yn warantedig o awdurdod, yn awenyddol o ddychymig, fal y bo hawsaf ei ddysgu a dadganu y gerdd, a ddifyrra ei gwranddo neu ei darllen, [f. 5<sup>v</sup>] a hwyra gallu dal cof ar foliant boneddigion.

30 Cerdd Dant.

Disgybl ysbâs heb râdd: nid oes ar ei reol nag ar ei gelfyddyd ond barn pencerdd a ellir gwr wrth gerdd ohono. A rhaid iddo wybod deg cwlwm, a

---

<sup>1</sup> Ar ddiwedd y paragraff hwn ceir y geiriau a ganlyn ar ymyl chwith y ddalen: "This is not in John dd Rhys. Gram."

<sup>2</sup> Llsg. *at*.

<sup>3</sup> Llsg. '*n ffrwythlon*.

phum cwlwm o gydgerdd, ag wyth o ganiadau.<sup>1</sup>

35 Disgybl disgyblaidd a ddylae wybod ugain o glymmau, a dwy golofn, a deg cwlwm o gydgerdd, a dwy gadair, ag un ar bymtheg o ganiadau, a phedwar mesur ar hugain, a'i canu drwy reol.

40 Disgybl penceirddiaidd a ddylae wybod deg ar hugain o glymmau, a thair colofn, a phymtheg o glymmau cydgerdd, a thair cadair, a phedwar ar hugain o ganiadau, [f. 5<sup>v</sup>] a'r pedair gosdeg, a medru ei dosbarthu, a gwybod<sup>2</sup> gwahan rhwng pob rhyw a'i gilydd.

Pencerdd a ddylae wybod daugain cwlwm, a phedair colofn, ag ugain cwlwm cydgerdd, a phedair cadair, a XXXII o ganiadau, a phedair gosdeg, a gwybod ei fesurau a'i rheol, gwybod pedwar ar hugain o ddifre, a dosparth y mesur megis y mae yn y llyfr.<sup>3</sup>

45 Dosparth yw dangos a medru gwneuthur cerdd ei hunan yn ddifai ymarn penceirddiaid, a medru holl ddosparthau, a phob gwahan a rhagwahan, pob cynwysiad, a gorphwysiad pob ysmydfa o dyniade a'r cowirdannau cuddiedig ag anghuddiedig, a'i dangos yn warantedig o'i waith ei hun yn benceirddiaidd [f. 6<sup>r</sup>] ag yn athrawaidd, fal i bo cydwybodus i benceirddiaid a doethion farnu a'i dewiso'n awdwr ag 'n athro ar y gelfyddyd.

Ni ddyle neb ddysgu ond gan athro penceirddiaidd, neu un a feder osod

---

<sup>1</sup> Gyferbyn â'r frawddeg hon yn y llsgr. wreiddiol, ceir y geiriau a ganlyn ar ymyl dde y ddalen: "disgybl ysbas graddol medd. J. dd rhys. p. 298."

<sup>2</sup> O flaen y gair *gwybod* ceir croes, ac ar ymyl chwith y ddalen ceir croes arall, ac ysgrifennir y gair *adnabod*.

<sup>3</sup> Ar ymyl chwith y ddalen ychwanegir y geiriau canlynol: "megis y mae yn y llyfr dosparth medd. J dd rh."



yn iawn y peth a ddysger gan eraill.

Ag os telyniwr a fydd rhaid iddo wybod y tair mwchwl godidog, yr hwn  
a raddiwyd yn ogyfiwch a'r pedair colofn. Pob colofn o'r pedair a raddiwyd yn  
55 ddeg cwlwm; pob un o'r tair mwchwl newydd yn ogyfiwch o radd a'r pedair  
cadair, a'r pedair cadair yn bum cwlwm bob un.

Gwedi hynny yr ordeiniwyd i'r athrawon penceirddiaidd gymryd  
disgyblion wrth reolaeth y gelfyddyd, nid amgen nag un ar unwaith mewn dogn  
o amser brentisiaeth; ag na bo i'r [f. 6<sup>o</sup>] disgybl wneuthur disgybl arall; ag ar bob  
60 disgybl y Grawys fod gida'i athro dan boen colli ei radd oni bydd achos  
cyfreithlon.

Hefyd na bo i neb ddynward na gwatwar ei athro am ei feddwl a'i  
fyfyrdod.

Hefyd na wnel disgybl gerdd heb ei dangos i'w athro, a gwybod wrth farn  
65 ei bod yn iawn cyn ei chanu allan.

Hefyd gorchymyn i bawb na wnelont arferoedd rhodiad neu grwydrad.<sup>1</sup>

Hefyd nad el neb i wyl mabsant o'r ty y del gynta tra barhao y wledd yno  
heb genad gwr y ty neu wadd gan arall dan boen colli ei glera; ag od eiff o dy i  
dy rhaid ei ddal fal<sup>2</sup> vacabwnd, a dwyn ei glera, a'i roi wrth raid yr eglwys. [f.  
70 7<sup>o</sup>] Ag o brwysga yn y wledd: colli ei rodd. Ag os gwneiff ansyberwyd neu  
fariaeth am wraig neu forwyn lle i delo: dwyn ffin a charchar, a cholli ei glera

---

<sup>1</sup> Ar ymyl chwith y ddalen ceir y geiriau a ganlyn: "arferoedd o glêr y dom rhodiad J dd Rh. gram. p 301."

<sup>2</sup> Ar ôl y gair *fal* ceir croes, ac ar ymyl chwith y ddalen ceir croes arall a'r geiriau "gwibiawdr Crwydrad. d<sup>o</sup>. p. 301."

dros saith mlynedd.

Hefyd nad elo i dafarnau neu gornelau cuddiedig i chware disiau a  
chardiau, neu gware arall am dda; ag os gwnan: pawb yn swyddog arnyn i ddwyn  
75 hynny a fo yn ei pyrsau.<sup>1</sup>

Hefyd na ddysgont na sennau na rhimmynnau gwardwyddus, na gwatwor,  
na dynwared, cablu, ysbio, a dychymmyg celwydd neu ei ddoedyd yn ol arall, dan  
boen ffin a charchar.

Hefyd na wnelont gynnen, ffrac, twyll neu ledrad, murn neu gynllwyn,  
80 nag ymgalyn a lladron na neb a wnel anllyfodraeth dan boen ffin a charchar;  
canys gwyr wrth gerdd a ddylant ddwyn ymadroddion [f. 7<sup>v</sup>] hawddgar,  
heddychlon, caredig, ufyddwasnaethgar i bawb o gowiriaid<sup>2</sup> y brenin a'i  
swyddogion, i'w gadarnhau a'i swccrio.<sup>3</sup>

Hefyd mis ymlaen pob gwyl ymofyn a'i hathro i wybod pa le'r el, rhag  
85 mynd gormod i'r unlle; ag nad el ond un at wr a deg punt o fowyd, dau at wr o  
ugain punt, ag wrth y radd honno at wr a fo uwch o rent.

Rhodd disgybl disgyblaidd am gowydd: tri swlld a grot.

Rhodd disgybl penceirddiaidd am gowydd: chwe swlld a naw ceiniog; ag  
i athro chwaneg o syberwyd neu ryw elw.

---

<sup>1</sup>Ar ymyl dde y ddalen ceir y geiriau a ganlyn: "This Excells that In S. dd rhys. gram p. 301."

<sup>2</sup>Llsgr. o *gowiriad*.

<sup>3</sup>Ar ymyl chwith y ddalen ceir y geiriau a ganlyn: "By J. dd rhys thus a phawb o gowiriad a swyddogion y Brenin, a ddylent ei swccrio, y gwyr wrth gerdd".

90

[f. 8<sup>v</sup>] Rhoddion gwyr wrth gerdd dant.

Disgybl ysbas graddol: dauddeg ceiniog ar bob un o'r tair gwyl arbennig.

Disgybl disgyblaidd: chwe cheiniog ar hugain bob un o'r tair gwyl arbenig  
(Pasc, Nadolig a Sulgwyn), a phob neithior reiol; a neithior arall a chwrs clera:  
saith ceiniog.

95

Rhodd disgybl penceirddiaidd bob un o'r tair gwyl arbennig: 3s 4d, a  
phob neithier reiol; a neithier arall a chwrs clera bob tair blynedd: dauddeg  
ceiniog. Rhodd pencerdd fwy syberwyd na disgybl.

Diraddiadau ar wyr wrth gerdd.

Disgybl ysbâs graddol: oni ddysg mewn tair blynedd, colli ei radd.

100

Disgybl disgyblaidd: oni ddysg y tair blynedd, colli ei radd ddisgyblaidd.

[f. 8<sup>v</sup>] Disgybl pencerddiaidd: oni ddysg fod yn bencerdd mewn tair  
blynedd, colli ei radd a syrthio i radd ddisgyblaidd.

Terfyn y Statud.

Grammadeg CymraegO Gasgliad, Myfyriad ac ArgraphiadJohn Rhydderch.tt. 177 - 89

[t. 177] Statud Gruffudd ap Cynan, sef braint ar wyr wrth gerdd drwy  
waith tywysogion Cymru a oeddynt yn cynnal gwir ddefodau y Brutaniaid.

Gruffudd ab Cynan, tywysawg Aberffraw, a Bleddyn ab Cynfyn, tywysog  
Mathrafael, a wnaethont fraint a threfn ar wyr wrth gerdd, nid amgen rhag  
5 myned neb yn wyr wrth gerdd namyn y rhai a ddylai fyned drwy eisteddfod, a  
hono unwaith bob tair blynedd yng goruchel lÿs y tywysog yn Aberffraw ym  
Môn ac yn Mathrafael ym Mhowys; a nawdd a gorchymyn hyd nad elai neb yn  
wyr wrth gerdd o'r dydd hwnnw allan onid a elai drwy gennad yr arglwydd a  
thrwyr rôdd cenattâd yr athraw, ac i'r athraw hwnnw ateb ohono yn wr wrth  
10 gerdd abl erbyn dydd cyfreithiawl, gosodedig.

Ac hefyd na bai i neb gynnal dwy gelfyddyd, megis prydyddiaeth a chanu  
telyn neu grŵth, neu gynnal crefft a chelfyddyd pa bynnag oddieithr ei gelfyddyd  
ei hun.

Ac hefyd nawdd na bei i wyr wrth gerdd er[t. 178]chi dros benn gwerth  
15 chweigien o ddim yn y byd, megis meirch, neu ychain, neu wiscoedd  
anrhydeddus, a hynny dan boen colli eu da wrth gerdd hyd benn y tair blynedd,

a'r rhodd yn fforffet i'r brenhin.

20 Ac yn ol Gruffydd ab Cynan, tywysawg Gwynedd, Bleddyn ab Cynfyn,  
tywysog Powys, a gadarnhawdd breiniau a Statutau gwyr wrth gerdd, ac a wnaeth  
rai eraill o newydd.

Tair Gwlêdd Ynys Brydain, sef: Gwlêdd Caswallon, Gwlêdd Arthur  
Frenhin Ynghaerlleon-ar-Wysc, a'r wlêdd isod.

25 A chyda hynny, yr Arglwydd Rhys ab Gruffydd ap Rhys ab Tewdr,  
tywysog Deheubarth, talaith Ddinefwr, gwedi iddo orphen y tŵr newydd yn  
Aberteifi, a anfonnes wahoddiad a gorchymmyn i bawb a'r a geisiau dda wrth  
gerdd o Gymru, a Lloegr, ac Iwerddon, ac o Scotland, ddyfod i'r wledd fawr i  
Aberteifi dan rybudd undydd a blwyddyn.

30 Ac yn y gwleddoedd anrhydeddus hynny y gwnaethpwyd ac y  
cadarnhawyd braint a Statutau celfyddydau gwyr wrth gerdd, nid amgen  
prydyddiaeth, teuluwriaeth a chlerwriaeth, a rhoddion i bawb wrth i fraint o'r  
cerddorion gyda'r tywysogion ar bob un o'r tair gwyl arbennig.

35 Ac wedi meirw o'r tywysogion y cymmerth gwyr bonheddigion, y rhai  
oeddynt o waed y tywysogion, y gwyr wrth gerdd attynt, ac y rhoesont iddynt  
gylchwy yn ol pob un o'r tair gwyl arbennig o fewn eu talaith eu hun, ac unwaith  
bob tair blynedd drwy y tair talaith, [a] chyda hynny hwy a roesant iddynt  
neithiorau morwynion jeuaingc; ac yn ammod, i'r prydyddion gynnal iaith y  
Brutaniaid, a'i hachoedd a'i gweithredoedd.

Ac i rhodded i'r clerwyr geiniog [t. 179] a gofram o bob aradr, a dimmau  
o bob hanner aradr; a lle ni chaent arian: dwyn gafael.

40 Ac nad elei y clerwr i dŷ yr uchelwr, na'r pencerdd i dŷ y gwreng; ac od

elei, na chaffai onid rhôdd y clerwr.

Ac ar y clerwr yr oedd ymsennu, a dyfalu, a dynwared, ac ymbil trwy  
wradwydd, a hynny ar eulun cerdd dafawd; a'r geiniog a roddydd iddo er mwyn  
ei fod yn arddel i hanfod, megis chwynn, o wyr wrth gerdd, a gofram a roddydd  
45 iddaw er mwyn dirmygu y cythraul a'i tynawdd mewn diogi, a glythineb a  
llesgedd.

Ac ar y teuluwr ir oedd tystunniaw, a digrifhau, a phrydu gordderchgerdd,  
ac erfynniad da yn deuluaidd heb neb ryw ymbil amdanynt.

Ac os rhoi testyn a wneid yn y gwleddoedd hynny ar wr wrth gerdd, jawn  
50 oedd i rhoddi o beth ni bei wir, rhag cywilyddio y gwr wrth gerdd; a'r gwr a  
ddychenid a gae i ddwy rodd oherwydd i fraint i hun.

Pencerdd gwlad a geiff gobreu merched y cerddorion a faent ynddi. Ef  
a geiff gyfarwys y morwynion jeuaingc pan wrhaont, nid amgen pedair ar hugain,  
sef rhôdd.

55 Pan fynno y brenhin wrandaw canu cerdd, caned y pencerdd ddau ganu  
iddo ynghyntedd y neuadd, un o Dduw ac arall o'r brenhin; canys ef a ddyleu  
ddechreu cerdd yn y llÿs, a'r bardd teulu a ddylu canu y trydydd canu is cyntedd  
y neuadd.

60 Pan fynno y frenhines gerdd o'i gwrandaw yn yr ystafell, caned y bardd  
teulu iddi dri chanu o gerdd angau trwy lef gymhedrawl, rhag rhwystro yn y  
neuadd. Y tir a geiff yn rhydd, ac ni cheiff ddim o neithiorau gwragedd gwriawg  
cyn na hynny, sef gwragedd gweddwon gwedi ailbriodi.

Sef yw pencerdd: bardd gwedi'r ennillo cadair. Ni ddichon bardd erchi  
[t. 180] dim hyd i bo yn i swydd ef heb gennad, oni bydd bardd gorwlad. Cyd

65 gwrafuner rhoddi dim i eirchiad yn y wlad, hyd ymhen ysbaid o amser, rhydd  
fydd y pencerdd.

Llyma'r sawl sydd rydd iddynt glera:

1. Gwr wrth gerdd anafus, megis gwr dall.

2. Disgybl ysbâs.

70 3. Disgybl disgyblaidd.

4. Disgybl penceirddiaidd.

5. Pencerdd.

Disgybl yspâs cerdd dafawd a ddylai wybod y sillafau, a phum mesur ar  
englyn (nid amgen unodl union, unodl crwcca, unodl cyrch, proest cadwynog,  
75 proest cyfnewidiog), a mesur ar gywydd dauair hirion, a'i canu yn awenyddgar  
ym marn pencerdd a ddwedo ar ei gydwybod a ellir prydydd ohono.

Dysgybl dysgyblaidd a ddylae wybod deuddeg o fesurau, sef pum mesur  
englyn, pedwar mesur cywydd, ac owdl (toddaid, gwawdodyn byrr a gwawdodyn  
hir); a gochel y pymtheg bai cyffredin; a dangos o'i waith ei hun bob un o'r  
80 deuddeg mesur yn ddisgyblaidd.

Discybl penceirddiaidd a ddylai wybod i holl sillafau, a rheol yr  
ymadroddion yn ol y grammadeg, a dosparth y cynghaneddion, a gochel yr holl  
feiau, canu'n gydsain neu'n gyfochrgerdd<sup>1</sup> ar un ar hugain o'r mesurau. Er na  
chano gadwynfyr na thawddgyrch cadwynog, neu ddigwydd un o'r mesurau heb  
85 wybod, mae ef yn gydymmaith i bencerdd.

Pencerdd a ddylai wybod y cwbl, a chanu'n gyfochr, yn gydsain, yn groes

---

<sup>1</sup> Testun *neu'n gyfochr*gerdd.

gynghanedd ar gymmeriadau, yn destyngar ar ddigrifwch, yn ffrwythlon o  
synwyr, yn ddeunyddfawr o gerddwriaeth, yn warantedig o awdurdod, yn  
awenyddol o ddychymmyg, fal y bo hawsaf i ddysgu a dadgan y gerdd, a ddifyrra  
90 ei gwrando neu ei darllen, a hwyra gallu dal côf ar foliant boneddigion.

[t. 181] Cerdd Dant.

Disgybl yspâs heb radd: nid oes ar ei reol nac ar ei gelfyddyd ond barn  
pencerdd a ellir gwr wrth gerdd ohono. A rhaid iddo wybod deg cwlwm, a phum  
cwlwm o gydgerdd, ac wyth o ganiadau.

15 Disgybl disgyblaidd a ddylae wybod ugain o glymmau, a dwy golofn, a  
deg cwlwm o gydgerdd, a dwy gadair, ac un ar bymtheg o ganiadau, a phedwar  
mesur ar hugain, a'i canu drwy reol.

Disgybl penceirddiaidd a ddylae wybod deg ar hugain o glymmau, a thair  
colofn, a phymtheg o glymmau cydgerdd, a thair cadair, a phedwar ar hugain o  
100 ganiadau, a'r pedair gosteg, a medru ei dosparthu, ac adnabod a gwybod gwahan  
rhwng pob rhyw a'i gilydd.

Pencerdd a ddylae wybod deugain cwlwm, a phedair colofn, ag ugain  
cwlwm cydgerdd, a phedair cadair, a 32 o ganiadau, a phedair gosteg, a gwybod  
ei fesurau a'i rheol, gwybod pedwar ar hugain o ddifre, a dosparth y mesur megis  
105 y mae yn y llyfr.

Dosparth yw dangos a medru gwneuthur cerdd ei hunan yn ddifai ym  
marn penceirddiaid, a medru ei holl ddosparthau, a phob gwahan a rhagwahan,  
pob cynnwysiad, a gorphwysiad pob ysmudfa ar dyniade a'r cywirdannau  
cuddiedig ac anghuddiedig, a'i dangos yn warantedig o'i waith ei hun yn



110 bencerddiaidd<sup>1</sup> ac yn athrawaidd, fal y bo cydwybodus i benceirddiaid a doethion  
farnu a'i dewiso'n awdwr ac yn athro ar y gelfyddyd.

Ni ddyle neb ddysgu ond gan athro penceirddiaidd, neu un a fedr osod yn  
iawn y peth a ddysger gan eraill.

115 Ac os telyniwr a fydd rhaid iddo wybod y tair mwchwl godidog, yr hwn  
a raddiwyd yn ogyfuwch [t. 182] a'r pedair colofn. Pob colofn o'r pedair a  
raddiwyd yn ddeg cwlwm; pob un o'r tair mwchwl newydd yn ogyfuwch o râdd  
a'r pedair cadair, a'r pedair yn bum cwlwm bob un.

120 Gwedi hynny yr ordeiniwyd i'r athrawon penceirddiaidd gymryd  
disgyblion wrth reolaeth y gelfyddyd, nid amgen nag un ar unwaith mewn dogn  
o brentisiaeth; ac na bo i'r disgybl wneuthur disgybl arall; ac ar bob disgybl y  
Grawys fod gyda'i athro dan boen colli ei râdd, oni bydd achos cyfreithlon.

Hefyd na bo i neb ddynwared na gwatwar ei athro am ei feddwl a'i  
fyfyrdod.

125 Hefyd na wnel disgybl gerdd heb ei dangos i'w athro, a gwybod wrth farn  
ei bod yn iawn cyn ei chanu allan.

Hefyd gorchymmyn i bawb na wnelont arferoedd rhodiad ne grwydrad.

130 Hefyd nad êl neb i wyl na mabsant o'r tŷ y del gynta tra parhao y wlêdd  
yno heb gennad gwr y ty neu wâdd gan arall, dan boen colli ei glera; ac od â o dŷ  
i dŷ rhaid i ddal fel gwibiawdr/crwydrad, a dwyn ei glera, a'i roi wrth raid yr  
eglwys. Ac o brwysca yn y wlêdd: colli ei rôdd. Ac os gwnâ ansyberwyd ne  
fariaeth am wraig neu forwyn lle i delo: dwyn ffin a charchar, a cholli ei glera

---

<sup>1</sup> [Y]n *Benceirddiaid* a geir yn y testun argraffedig.

dros saith mhlynedd.

135 Hefyd nad elo i dafarnau neu gornelau cuddiedig i chware disiau, a  
chardiau, neu chwareu arall am dda; ac os gwnan: pawb yn swyddog arnynt i  
ddwyn hynny fo yn eu pyrsau.

Hefyd na ddysgont na sennau na rhimmynnau gwradwyddus, na gwatwor,  
na dynwared, cablu, yspio, a dychymmyg celwydd neu ei ddywedyd yn ol arall,  
dan boen ffin a charchar.

140 Hefyd na wnelont gynnen, ffræ, twyll neu ledrad, murn neu gynllwyn,  
nag ymganlyn a lladron na neb a wnel anllywodraeth dan boen [t. 183] ffin a  
charchar; canys gwyr wrth gerdd a ddylant ddwyn ymadroddion hawddgar,  
heddychlon, caredig, ufyddwasnaethgar i bawb o gywiriaid<sup>1</sup> y brenhin a'i  
swyddogion, i'w gadarnhau a'i swccrio.

145 Hefyd mis ymlaen pob gwyl ymofyn a'i hathro i wybod pa le'r êl, rhag  
mynd gormod i'r unlle; ac nad êl ond un at wr a deg punt o fywyd, dau at wr o  
ugain punt, ac wrth y râdd honno at wr a fo uwch o rent.

Rhodd disgybl disgyblaidd am gywydd: tri swllt a grôt.

Rhodd disgybl penceirddiaidd am gywydd: 6 swllt a naw ceiniog; ac i  
athro chwaneg o syberwyd neu ryw elw.

150 Disgybl yspas graddol: deuddeg ceiniog ar bob un o'r tair gwyl arbennig.

Disgybl disgyblaidd: chwe cheiniog ar hugain bob un o'r tair gwyl  
arbennig (y Pasc, Nadolig a Sulgwyn), a phob neithior freiniol; a neithior arall  
a chwrs clera: saith geiniog.

---

<sup>1</sup> [O] *gywiriad* a geir yn y testun argraffedig.

155 Rhodd disgybl penceirddiaidd bob un o'r tair gwyl arbennig: 3s a 4d, a phob neithior reioli; a neithior arall a chwrs clera bob tair blynedd: deuddeg ceiniog. Rhôdd pencerdd fwy syberwyd no disgybl.

Disgybl yspâs graddol: oni ddysg mewn tair blynedd, colli ei radd.

Disgybl disgyblaidd: oni ddysg yn y tair blynedd, colli ei râdd ddisgyblaidd.

160 Disgybl pencerddiaidd:<sup>1</sup> oni ddysg fod yn bencerdd mewn tair blynedd, colli ei râdd a syrthio i râdd ddisgyblaidd.

#### Rhywiau Cerddorion.

165 Wyth ryw gerddawr sydd, nid amgen pedwar cerddawr graddol, sef prydydd neu fardd caw (a hwnnw o dri rhyw, sef telynior, crythawr, [t. 184] datceiniad), prifardd, posfardd, arwyddfardd.

170 Pwy bynnag a ddywetto i fod yn arwyddfardd, gwybydded achoedd brenhinoedd a thywyssogion, a chyfarwyddyd oddi wrth y Tri Prif Fardd Ynys Brydain, nid amgen Myrddin ab Morfryn, a Myrddin Emrys, a Thaliesin Ben Beirdd; ac ynghelfyddyd arwyddfarddoniaeth, o ran gwybod yn berffaith wir achoedd, ac arwyddion, a theilyngdawd, ac odidogion weithredoedd pendefigion a boneddigion Cymru.

Ac o'r rhai uchod, hwnnw a elwir yn gadeirfardd a fo yn dwyn y gadair aur neu arian ar ei ysgwydd i ddangos i fod yn athro cadeiriog.

Pedwar ofergerddawr, nid amgen: pibydd, hudawl, tabret, ffidler (sef

---

<sup>1</sup> *Pencerddiaid* a geir yn y testun argraffedig.

175 cerddawr grŵth dri thant); a rhôdd pob un o'r pedwar hynn, sef yr offergerddorion, yw ceiniawg, a chanu o'e sefyll.

Yn amser Brenhin Penbeirdd a'i hendeidiau, yn yr amser yr oedd Cadwaladr yn frenhin ac yn bennadur ar holl dalaith y teyrnasoedd, yna hwy a aethant i eistedd ac i farnu ar bob rhyw beth a'r a gymrei prydyddion y dalaith yn  
180 llaw, nid amgen ar geingciau telyn a'i chaniadau. Ac yno y daeth un gwr ger eu bron i ganu isgyweir ar y bragod dannau, yr honn isgyweir a fu seml a drwg ganhynt ei chlywed o achos i bod yn dyfod o lais Pibeu Morfydd. Ac yna y gorchmynnasont iddo dan fawrboen, pa bryd bynnac y deler gerbron gwyr dyscedig ganu ohono Mwynen Gwynedd, yr hon a ddaroedd i Frenhin Penbeirdd  
185 ac i Gydwaladr Frenhin yn gyntaf ei rhoddi allan yn eu hamser hwy a'u cydgynghorion. Ag na bei i neb ganu mewn jawn gynghanedd ond gyda Mwynen o achos i bod yn dyfod o'r cyweirdanneu a'r llall o'r cymysciaid. A hyn a dystiolaetha [t. 185] Caniad Cefyliwr, a Chaniad o Fawr Wyrthiau, a Chaniad Ieuan ab [y] Gof, a Chaniad Anrhec Dewi, a Chaniad Cydwgi, a Chaniad  
190 Einion Delyniwr, a'r Caniad Crych ar y Carsi, heblaw llawer o ganiadau eraill. A'r rhain a ellir eu henwi ag ymarfer ohonynt pan y mynner.

#### Swydd Datceiniaid.

Ac yn gyntaf, ef a ddyly datceiniad wybod cyweiriaw telyn neu grŵth, a chanu amcan o brofiadau drwy blethiadau'n warantedig, a dwy osteg, a chlwm,  
195 a chaniad, a'i dair ar ddeg o brifgeingciau a'i cessailweision, a'i dri phrif accen ar ddêg, a chanu gyda hwy, ac amcan o geingciau a phuroriaeth, a'i bedwar mesur ar hugain cerdd dant, a'i dosparth yn jawn. Hefyd ef a ddyly fedru

darllen Cymraeg yn berffaith a'i yscrifennu yn gyfiawn, ac a ddylu wybod ei  
bedwar mesur ar hugain cerdd dafawd a'i dosparth a'i cynganeddau, ac a  
200 ddylae wybod canu ohono'i hun englyn unodl union, ac englyn prost, a chywydd  
deuair hirion, a medru gossod yn jawn bob hengerdd o'r a gaffo yn gamm gan  
arall. Hefyd ef a ddylae wybod a medru gwasanaethu oddi wrth y gegin i fort gwr  
o urddas ac anrhydedd, a thorri pob rhyw aderyn a'r a ddelo ger i fron; a'i swydd  
oedd mewn priodas frenhinawl wasanaethu i fort y ferch. A chôd wenn a ddylu  
205 bod ynghylch ei grŵth neu ei delyn a fo ef yn ei dwyn.

#### Datceiniad Pen Pastwn a'i swydd.

Datceiniad pen pastwn a elwir yr un a fo yn datcanu heb fedru ddim canu  
tant i hunan. A hwnw a ddylae sefyll ynghanol y neuadd, a churo a'i ffonn, a  
chanu'i gywydd neu 'i owdl gyda'r dyrnodiau. Ac os bydd gwr wrth gerdd tant  
210 lle y delo, ni ddylau y datceiniaid hwnnw gynnyg na meiddio cymryd arno ganu  
na chywydd [t. 186] nac owdl heb ddeisyf cennad i'r gwr wrth gerdd tant i ganu.  
Ac hefyd efe a ddylu bod megis gwas i'r gwr wrth gerdd tant ac i brydydd  
ymhob lle ac y delo.

Neithior frenhinawl a fydd pan brioder un o waed y tywysawg, ac undydd  
215 a blwyddyn o rybudd a fydd i wyr wrth gerdd i baratoi i ddyfod yno. Ac yn  
honno y gwneir cyff clêr, a hwnnw fydd bencerdd o'r gorau; ac yno rhoir testyn  
digrif, diwladaidd ar y pencerdd i'r prydyddion eraill i ganu iddo ef, i lawenhau'r  
orsedd. A'r prydyddion hynny a ddont a'i cerdd iddo ef, ac a'i canant ar osteg.  
A thrannoeth y daw yntau a'i ateb iddynt hwythau, a dyblu eu rhoddion a gant

220 hwythau yno. A hyn oll a notaent ei wneuthur wedi ciniaw, er mwyn diddanwch  
i'r gynnulleidfa. A'r pencerdd yntau, neu yr atebwr, a eisteddei mewn cadair,  
a'r ymholwyr hwyntau a fyddant yn sefyll; ac yn y cyfrwng hyn y byddei raid i'r  
pencerdd dewi son, gan oddef i bawb ohonynt mewn cerdd ddywedyd yn ei  
erbyn beth bynnag a fae dda ganthynt. A thrannoeth, megis y dwedais o'r  
225 blaen, y byddei raid iddo ynteu ateb mewn cerdd yn destyngar i destyn y cyff  
clêr, ac iddynt hwythau.

#### Gwahoddiad Awdurdodawl i Eisteddfod.

Bid hysbys i bawb o foneddigion a chyffredin fod eisteddfod ar wyr wrth  
gerdd dafod a thant o fewn tref Gaerwys yn Sir y Fflint, yr ail dydd o fis  
230 Gorphenhaf, 1523, a'r bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Harri yr Wythfed,  
brenhin Lloegr, drwy gomissiwn yr enwedig frenhin, garbron Richard of Hywel  
ap Efan Vaughan, esquier, o gyttundeb Syr William Griffith a Syr Roger Salbri,  
a thrwy gyngor [t. 187] Gruffydd ap Efan ap Llywelyn Vaughan a Theodor Aled,  
bardd cadeiriawg, a llawer o foneddigion a doethion eraill, er gwneuthur order  
235 a llywodraeth ar wyr wrth gerdd tafod a thant ac ar eu celfyddyd.

Hanes yr ail eisteddfod fawr Ynghaerwys yn Sir y Fflint, a gynhaliwyd y  
26 dydd o fis Mai yn y flwyddyn o oedran Christ 1565, a'r nawfed o deyrnasiad  
y Frenhines Elizabeth, &c., gerbron Elis Prys, doctor o'r gyfraith, ac un o  
gynghoriaid ardaloedd Cymru, William Mostyn, Pirs Mostyn, Owen ap John ap  
240 Howel Vaughan o Gaergai (hendaid Rowland Vaughan y cyfieithydd), Sion ap  
William ap Sion o Ysceifiog, Sion Lewis Owen o Ddolgelley, Morus Gruffudd,  
Simon Thelwal o Blâs y Ward, Sion Gruffydd Sersiant, Robert Pilstwn, Syr John

Lloyd o Iâl, ac William Gruffydd, esgweiriaid.

Ac yn yr eisteddfod honno y graddiwyd prydyddion:

245

William Llŷn, Owen Evan (alias Gwynedd), a Simwnt Vaughan: 3 yn benceirddiaid cerdd dafod.

William Cynwal, Lewys Menai, Sion Tudur, Huw Llyn, Bedo Hafesp, Sion Phylip a Huw Conwy: 7 yn ddisgyblion penceirddiaidd cerdd dafod.

250

Jeuan Tew, Huw Pennant a Howel Ceiriog: 3 disgyblion disgyblaidd cerdd dafod.

Dafydd Alaw, Edward Brwynllys, Rhys Celli: yn ddisgyblion spâs cerdd dafod.

[t. 188]Telynorion: Sion ap Rhys, William Penllyn ac Hwlcyn Lloyd: yn benceirddiaid ac athrawon cerdd dant.

255

Thomas Anwyl, Dafydd Llwyd, Edward ap Evan, Robert ap Howel Llanfor ac Humphrey Gôch: yn benceirddiaid cerdd dant.

Richard Glyn, Robert Lloyd, Efan Penllyn, Lewys Llanfor: yn ddisgyblion penceirddiaidd<sup>1</sup> cerdd dant.

260

Huw Dai, Huw ap Morus, Siamas Morlas, Sion Niwbwrch ac Ellis Gruffydd: yn ddisgyblion disgyblaidd cerdd dant.

Lewys Berain, Jeuan Meredydd a Gwalchmai ap Dafydd: disgyblion spas cerdd dant.

Crythorion : Siams Eytyn, Evan Penmon, Robert ap Rhys Guttun, Thomas Môn: yn benceirddiaid ac athrawon cerdd dant.

---

<sup>1</sup> *Penceirddiaid* a geir yn y testun argraffedig.

Thomas Grythor, Sion Ddu Grythor: yn ddisgyblion penceirddiaidd cerdd dant.

Robert ap Evan Lloyd, Edward Grythor, Thomas Cegidfa, Rhys Grythor Hiraethog, Thomas Grythor Côch, Dafydd ap Howel Grythor ac Wiliam Ednyfed: yn ddisgyblion disgyblaidd cerdd dant.

Richard Conwy, Sion Alaw, Robert Conwy, Crythor Lloyd: disgyblion spâs cerdd dant.

Statud Gruffydd ab Cynan ynghylch cadw eisteddfod,

a threfn ac ordinadau prydyddion cerdd dafod a'u perthynasau, &c.

Pan ymgdygyfarfyddo'r gynulleidfa ynghyd yn ol rhybudd neu wysiad  
 275 rhagflaenol [t. 189] i ryw drêf arbennig, neu bentref, y maent hwy'n gyntaf i  
 ddewis deuddeg o wyr deallus yn yr jaith Gymraeg, ac nid yn hynny yn unig, eithr  
 mewn prydyddiaeth, a barddoniaeth ac arwyddfarddoniaeth. Os bydd y cyfryw  
 i'w cael yn farnwyr, y rhai hynny sy i roddi testun i'r beirdd i ganu arno, naill ai  
 mewn englynion unodl union, cywydd, neu ryw un o'r pedwar mesur ar hugain,  
 280 ac nid mewn dyri, carol, neu ryw wael gerddi, y rhai na fu wiw gan y prif feirdd  
 gynt gymmaint a'i crybwyll oherwydd nad oes rheolau perthynasol iddynt. A'r  
 barnwyr sydd i orchymmyn iddynt na chanont dduchan na gogangerdd y naill i'r  
 llall, a rhoddi iddynt amser cymmhesur i wneuthur bob un ohonynt ei englyn, neu  
 gywydd, neu'r peth a welont hwy'n gymmwys. Y cwest hyn sydd i dderbyn  
 285 henwau cynnifer ac a fyddo yn bresennol o'r beirdd ar feder canu, fel y gallont  
 eu galw bob un wrth ei enw mewn trefn i'r gadair i ddadcan eu cerdd. A  
 chynnifer o'r beirdd a gollo'r gadair sydd i addef hynny mewn papur, a'i  
 draddodi i'r prifardd neu'r hwn a ynnillo'r gadair. A'r beirdd hynny a gollo sydd



i yfed iechyd y prifardd, ac i roddi bob un ohonynt chwe cheiniog yn yr odart i'r prif fardd. A hwnnw fydd pennadur arnynt, oni bydd iddynt hwythau ynnill mewn eisteddfodau eraill.

S<sup>(1)</sup> (i)

**B 15003**

**ff. 29<sup>v</sup> - 32<sup>r</sup>**

[f. 29<sup>v</sup>]<sup>1</sup> Llyma Ystatut y gwyr wrth gerdd dafawd a ddodes Ruffudd ap Cynan, tywysawc Gwynedd a brenin Aberffraw, er trefn ar brydyddion ac eraill o wyr wrth gerdd dafawd, pob un herwydd braint a gradd, a threfn hefyd ar wyr wrth gerdd dant, rhag eu myned yn annefodawl ac yn annosparthus modd na  
5 weddai i lysoedd tywysogion a neuaddau uchelwyr gwlad a chenedl y Cymry.

Tri bardd caw ysydd: prifardd, posfardd ac arwyddfardd; a chyfarwyseu iddynt herwydd rhodd cenedlad y tywysogion<sup>2</sup> yngeisteddfod<sup>3</sup> unwaith yn y tair blynedd yngoruchel lys y tywysawc yn Aberffraw ym Môn, un modd ac y mae yn llys tywysawc Mathrafal ym Mhywys Wynfa.

10 Nid rhydd i neb fyned yn brydydd, nag ymarfer a chelfyddyd o swydd gwr wrth gerdd dafawd, namyn a rodder ac a freinier mewn eisteddfod unwaith yn y tair blynedd yn llys y tywysawc yn Aberffraw ym Môn, modd ag y mae yn llys tywysawc Mathrafal o drefniad Bleddyn ap Cynfyn, tywysawc Powys; a nawdd nad elo neb yn wr wrth gerdd dafawd ond a elo drwy gennad y tywysawc neu  
15 arglwydd y cyfoeth, a thrwy rodd cenedlad athraw abl o radd awdurdodawl a gwarantedig yn gyfreithawl ym marn eisteddfod.

---

<sup>1</sup> Ar frig y dudalen ceir y geiriau “yn y Greal VI”.

<sup>2</sup> Ceir y geiriau y *Tywysawc* ar ôl *tywysogion* yn y llsg. wreiddiol.

<sup>3</sup> Tanlinellir y gair yn y llsg.

Nid rhydd i neb gynnal dwy gelfyddyd, mal pai prydyddiaeth a chanu  
telyn neu grwth, na chynnal dwy grefft celfyddyd, neu grefft a chelfyddyd ba  
bynnag namyn ei un ei hunan, can mai gormes y bernid dwy gelfyddyd i'r un  
20 gwr, ag nis gellir yn gyfiawn wasnaethu dwy gelfyddyd, ag nis dylid namyn un  
cyfarwys i nebun o neb.

Tair gwassaw<sup>1</sup> cerdd dafawd ysydd o wassail<sup>2</sup> defodedig parth pwys y  
gelfyddyd a braint a gradd eisteddfod ddefodawl:

[f. 30'] Prydyddiaeth. Ag ar brydydd y mae prydu, a chynnal cof am  
25 achoedd a phriodasau mal y bont deilyngion, a chof am weithredoedd  
enrhydeddus tywysogion ac uchelwyr, a phob cof gwlad a chenedl, a chymmeryd  
athynt<sup>3</sup> ddisgyblon i'w dysgu yn wyr wrth gerdd dafawd yn ddefodawl ag yn  
ddyledus parth braint a chelfyddyd y gwŷr wrth gerdd dafawd.

Teuluwriaeth. Ac ar deulüwr y mae cynnal iaith y Bryttaniaid, a'i  
30 darllain a'i ysgrifennu yn gyfiawn, a phob cof teulu, a phob dosparth gwlad, a  
digrifhâu, ac ymdystyniaw, a phrydu gordderchgerdd heb serthedd, a chanu gan  
erfyniad da yn deuluaidd heb ryfawr ymbil ar ei gerdd.

Clerwriaeth. Ag ar glerwr y mae ymsennu, a dyfalu, a dynwarded, a  
gwradwyddaw man y gwedd hynny; a lle del yngeisteddfod,<sup>4</sup> sefyll a wna, can ni  
35 ddylai glerwr eisteddfa ynddi.

---

<sup>1</sup> Tanlinellir y gair yn y llsg.

<sup>2</sup> Tanlinellir y gair yn y llsg.

<sup>3</sup> Tanlinellir y gair yn y llsg.

<sup>4</sup> Tanlinellir y gair yn y llsg.

Rhoddion a fyddant i bob un o'r tri cherddorion tafawd hynn herwydd eu graddau gan dywysogion ac uchelwyr ymhob llys tywysawc a neuadd uchelwr ar bob un o'r tair gwyl arbennig, nid amgen y Nadolig, y Pasc a'r Sulgwyn.

40 Nid rhydd i wr wrth gerdd dafawd erchi dros benn chweugaint o ariant, neu dda, neu gwerth yn y byd am ei gerdd neu am rôl achau, na dim dan amgen o enw – megis ychen, neu feirch, neu wiscoedd – dan boen colli da wrth gerdd hyd ymhen y tair blynedd; a rhodd a gaffo cerddor yn ormes yn fforffed i'r tywysawc neu arglwydd y cyfoeth neu'r swydd.

45 Sef yw pencerdd: bardd wedi yr enillo gadair; ag ni ddichon erchi dim heb gennad, cyd y bo yn ei swydd ef, oni bydd bardd gorwlad; yna rhydd fydd a fytho pencerdd, cyd y gwarafuner rhoddi dim i eirchiaid yn y wlad hyd ymmhen yspaid amser.

50 Cyfarwys gwr wrth gerdd dafawd, o bydd pencerdd gwarantedig o radd a swydd: neithioreu morwynion ieuainc ban wrhäont; a nawdd nas gwrhäont eithr yn ddosparthus a chyfreithiawl ac yn erthyst o brydydd cadeiriawg gwarantedig o radd a swydd. A lle gwnelo efe'r neithior, swllt iddaw; ac efe a geiff gobrwyon merched y cerddorion a font yn y swydd y bo ef yn warantedig ynddi, nid amgen ugeint; ag ni cheiff efe ddim o neithioreu gwagedd a fuant cyn no hynny yn wriawg, ag a briodasant yr ailwaith; a rhodd gwarantedig am bob rhôl 55 achau o fewn ei swydd ef.

[f. 30<sup>v</sup>] Pencerdd gwlad a gaiff geiniawg o bob aradr, a dimmai o bob hanner aradr, a lle ni chaffer arian: dwyn gafael. A hynn yn y swydd y bo ynddi yn warantedig o rodd a chennad y tywysawc.

Nid rhydd i amgen na gwr wrth gerdd dafawd cadeiriawc gymmeryd

60 disgyblon attaw, ag nid rhydd iddaw amgen nag un disgybl ar unwaith, ag nid rhydd i ddisgybl gymmeryd attaw a gwneuthur disgybl arall.

Ni ddylit grâdd i ddisgybl namyn o rodd cenhedlad athraw mewn geisteddfod,<sup>1</sup> a chyda hynny cennad y tywysawc neu arglwydd y cyfoeth y bo ynddo,<sup>2</sup> a hynny lle dywetto'r athraw o bencerdd ar ei air o gydwybod y gellir  
65 prydydd ohonaw. Ag ni ddylit eisteddfod namyn yn llys y tywysawc, a hynny unwaith yn y tair blynedd.

Ni ddylit gwr wrth gerdd dafawd o wr na wyppo ddarlain y Gymraeg a'i hysgrifennu yn gyfiawn, ag nid iawn cyfarwys i gloff o wybodau.

Nid gradd i ddisgybl na wyppo y drefn honn ar wyr wrth gerdd dafawd,  
70 ac a'i gnelo yn gydwybodgar.

Amser y Garawys y disgyblon a ymoralwant a'u hathrawon, ag a fyddant gydag wynt yr holl amser hwnnw i gymmeryd eu dysg a'u celfyddyd ganthynt. A phob athraw a rydd i'w ddisgybl rôl neu goppi o'r drefn honn, mal a'i dysgo ag a'i gwyppo ag a wnelo yn ei hôl, rhag myned yn annosparthus ag yn  
75 annhrefnus.<sup>3</sup>

Mis ymlaen pob gwyl y disgyblon a ymoralwant a'u hathrawon i wybod a ddotto arnynt o ddeddf a pha le yr elont, rhag myned mwy nag a ddylai i'r unlle, rhag myned o fwy nag a weddaint at uchelwr herwydd ei rent. Sef yn ol y bo ei rent yr ânt attaw: un at wr gwerth deg punt, dau at wr gwerth ugein punt

---

<sup>1</sup> Tanlinellir y gair yn y llsgr.

<sup>2</sup> Tanlinellir y gair yn y llsgr.

<sup>3</sup> Llsgr. yn *anmhrefn*.

80 o rent, ag wrth y radd honno rhag myned yn ormes.

Ni ddyly'r clerwr fyned i dy'r uchelwr, ag od â: canu o'i sefyll; a cheiniawc a gaffo a fydd er mwyn ei hanfod o wyr wrth gerdd dafawd, a gofram gyda hynny er mwyn dirmygu y cythraul a'i gyrras er diogi a glythineb ar eilun gwr wrth gerdd dafawd yn rodiad o grwydrad ddefodau.

85 [f. 31] Ni ddyly pencerdd fyned i dy gwreng, ag od â: rhodd a braint clerwr iddaw; ag a gaffo dros hynny: gormes.

Teuluwr, cyd na bo pencerdd cadeiriawc, od â i dy uchelwr a gan o'i eistedd, a'i rodd yn anrhydeddus can mai gwr wrth gerdd dafawd dosparthus yw efe. Ag nid rhydd iddaw fyned yngwest heb gennad ei arglwydd teulu.

90 Llyma y rhai ysydd rydd iddynt glera, nid amgen: gwr wrth gerdd anafus, megis gwr cloff neu ddall; a disgybl cyn no'i gradder o eisteddfod; a phencerdd cyn y dotter iddaw gyfarwys o swydd yn warantedig. Sef yw swydd: dogn o gyfoeth y brenin a rhodder ar brydydd y priodasau a chof iachau a'r cydfodau a'r dosparthau.

95 Cylch clera a fydd i'r pencerddiaid drwy yr holl dalaith a chyfoeth y tywysawc unweith yn y teir blynedd.

Cylch clera a fydd i'r penceirddiaid o bob gwr wrth gerdd graddawl ar bob un o'r tair gwyl arbennig, nid amgen y Pasg, a'r Sulgwyn a'r Nadolic; a rhoddion cyfarwys iddynt bob un herwydd ei radd a'i fraint.

100 Doder y gwyr wrth gerdd dant wrth y drefn honn parth eu celfyddyd herwydd graddau a breiniau, a rhoddion cyfarwys iddynt, nid amgen dogn o ddeunogn gwr wrth gerdd dafawd parth y cyfarwysau. Ag nid oes o swydd i wr wrth gerdd dant namyn canu telyn neu grwth, a chymmeryd attaw ddisgyblon

dospathus er dysgu'r gelfyddyd.

105           Datgeiniad a fydd wr wrth gerdd dafawd o brydydd a wypo ddarllain y  
Gymraeg a'i ysgrifennu yn gyfiawn, ag a wyppo y gelfyddyd wrth gerdd dafawd,  
a'r holl fesurau cerdd dafawd, a'u dosparthu yn gyfiawn. Ac efe a ddatgan a ddel  
o gerdd dafawd gerbron eisteddfod yn llys y tywysawc, a phob rhôl achau, a phob  
côf gwlad, a phob neithior a goffaed yn warantedig y gan bencerdd y swydd. Ag  
110 i bob swydd, datgeiniad; a rhoddion a chyfarwysau iddaw herwydd y gradd a geir  
arnaw; a rhydd iddaw ei eistedd yn y llys a'r eisteddfod. Ac arnaw y bydd  
canu cerdd arwest yn y wledd, o eirch y tywysawc; ac nid oes arnaw ganu ei  
gerdd gan dant, achaws i arall y perthyn hynny.

Tri rhyw gerdd arwest dosparthus ysydd, nid amgen: canu telyn, canu  
115 crwth a chanu arwest. A datgeiniad arwest gan dant a gan yn ei sefyll yn llys  
y tywysawc ag yn neuadd yr uchelwr, ac a saif yngorphwys ar ei bastwn. Ag efe  
a ddylai wybod cyweiriau telyn a thyniadau crwth, a'u dosparth a'u pwyllau, a  
chanu gydag wynt lle y cano y pencerddiaid yn llys y tywysawc [f. 31'] ac yn  
neuadd yr uchelwr; a thra chano y telynior a'r crythor, caned y datgeiniad ei  
120 arwest y gydag wynt ar osteg y llys. Ag i'r cerddorion hynn y bydd hanneregau  
rhoddion llys gwyr wrth gerdd dafawd.

Neithiawr frenhinawl a fydd ban briotter un o waed y tywysawc. Ag yna  
dodi gosteg a rhybydd undydd a blwyddyn i barattoi prydyddion a cherddorion  
o bob rhyw a gradd, ai wrth gerdd dafawd ai wrth gerdd dant y bont, i ddyfod i'r  
125 wledd a'r neithiawr er cof a gwarant ar y briodas yn ddefodawl, a'i theilyngu yn  
anrhydeddus. Ag yn y wledd honno, iawn yw doddi graddeu a breiniau a  
chyfarwysau i wyr wrth gerdd dafawd yn unrhyw a phe'i eisteddfod ddefodawl ar

wyr wrth gerdd dafawd y byddai yn llys y tywysawc.

130 Ni ddylit gradd i ddisgybl namyn o rodd cenhedlad athraw a ddywetto ar  
ei gydwbybod y gellir prydydd ohonaw; a nawdd nad elont nebun o neb yn wyr  
wrth gerdd onid yn narbod y drefn honn. A nawdd na wnelont y prydyddion  
ddynward<sup>1</sup> neb, na'i ddyfalu, na gwradwyddaw. Ag na wnelont arfer o glêr y  
domm, a rhodiad, neu grwydriad,<sup>2</sup> ag eraill o wyr annosparthus ag  
anllywodraethlyd. Ag nad elont i dafarnau neu lëoedd cil a chudd i whareu  
135 whareuon<sup>3</sup> anghyfreithawl am arian, nag am ddim arall o dda byd nag o werth a  
gobr; ag o gwnânt: swyddog pob un a'i gwyppo i'w dal, a'u rhoi yngharchar, a  
dwyn a fo yn eu pyrseu a'i rhoddi yngoleuad yr eglwys. Ag na wnelont  
frwyscaw<sup>4</sup> mewn gwledd dan boen colli rhodd cyfarwys y wledd honno a phob  
da wrth gerdd hyd ymhen y flwyddyn. Ag na wnelont ddyscu sennau<sup>5</sup> a rhiniau  
140 gwradwyddus, na dychymyg celwydd ar air nag ar eu cerddi, na'i ddywedyd ar  
ôl arall, dan boen ffin a charchar a cholli rhodd a chyfarwys. Ag nas gwnelont  
gynhenau, na thwyll, na lledrad, na murn, na chynllwyn, na brâd, nag un  
anllywodraeth arall, dan boen a fo cyfraith am eu hanllywodraeth, a cholli da  
wrth gerdd, a dwyn eraill o gospeu cyfreithawl. Ag na wnelont glera<sup>6</sup> heb yn  
145 gyntaf cennad athraw o dan ei law ef; ag od ant i glera yn annosparthus: eu dal,

---

<sup>1</sup> Tanlinellir y geiriau [g]wnelont y *Prydyddion ddyward* yn y llsgr.

<sup>2</sup> Llsgr. *neu grwydraid*.

<sup>3</sup> Tanlinellir y geiriau *whareu whareuon* yn y llsgr.

<sup>4</sup> Tanlinellir y geiriau *na wnelont frwysaw* yn y llsgr.

<sup>5</sup> Tanlinellir y geiriau *ag na wnelont ddyscu sennau* yn y llsgr.

<sup>6</sup> Tanlinellir y geiriau [g]wnelont *Glera* yn y llsgr.



a'u rhoi yngharchar; a swydd ar bob un eu dal lle a wypper eu hanllywodraeth.

150 A'r drefn honn y mynnes y tywysawc Gruffudd ap Cynan, ag efe yn  
dywysawc Aberffraw ym Môn, ei doddi ar brydyddion a phob gwyr wrth gerdd  
dafawd, a doddi gwyr wrth gerdd dant yn ei lân ag yn ei nawdd yn ei holl  
gyfoetheu ef yng Ngwynedd, nid amgen no holl wlad Gwynedd a thalaith  
Aberffraw, modd y dodes Fleddyn ap Cynfyn, [f. 32<sup>7</sup>] tywysawc Pywys Wynfa,  
yn llys Mathrafal ag yn ei holl gyfoethau, gan ei thynnu yn ddosparthus o'r hen  
drefneu a'r hen ddefodau enrhydeddus a fuant gynt ar feirdd a phrydyddion a  
155 yn oes oesoedd, a doddi ar bawb a ymwnaent a cherdd dafawd ei dysgu a'i  
gwybod a'i gwneuthur yn llywodraethgar.<sup>1</sup>

Ag felly y terfyna Ystatut Gruffudd ap Cynan; a hon yw'r hen Ystatut.

---

<sup>1</sup> Tanlinellir y gair yn y llsg. wreiddiol.

S<sup>(1)</sup> (iii)

**B 15003**

**ff. 99<sup>r</sup> - 110<sup>v</sup>**

[f. 99] Llyma'r drefn a wnaeth Gruffudd ap Cynan, tywysawc Aberffraw, ar wyr wrth gerdd dafawd a thant yng Nhlyn Achlach yn yr Iwerddon. Ac o Gymru y daethant Alon ap Ceneu, gwr o Ddeheubarth, a Rhydderch Foel o Arfon, yn brydyddion a gwyr wrth gerdd dafawd; ac yn wyr wrth gerdd dant, 5 Matholwch Wyddel ac Olof Gerddor. A'r rhai hynny a ossodasant drefn ar gerdd dafawd a thant yn amser Gruffudd ap Cynan a'r Brenin Ystyffan, a nawdd nad elei neb yn wyr wrth gerdd dafawd nag wrth gerdd dant yn ol hynny eithr yn ol a ofynnid yn y drefn honno.

Y prydyddion – sef y beirdd, yn wyr wrth gerdd dafawd a chyfrwyddyd 10 – a oeddynt yn hanfod o wlad Gymru, a chanddynt y cawsant y Gwyddelod ei cerdd dafawd herwydd bannau celfyddyd wrth gerdd. A'r cerddorion cerdd dant a ddaethant o'r Iwerddon i Gymru yn oes Gruffudd ap Cynan a'r Brenin Ystyffan, a'r drefn arnynt a rodded ynghysgod un y beirdd, sef y gwyr wrth gerdd dafawd, sef nis gellir graddeu iddynt onid yn eisteddfodeu gwyr wrth [f. 99<sup>v</sup>] gerdd 15 dafawd, can nad oes arnynt – y gwyr wrth gerdd tant – ddarllain y Gymraeg a'i ysgrifenu, ac am hynny nis gallant o ansawdd gynnal cof a gwybodaeth am drefn a chyfraith a ddylei iddynt.

A gwedi lluniaethu y drefn yng Nglynn Achlach yn yr Iwerddon, fal y dywedtpwyd, y daeth Gruffudd ap Cynan i Gymru, a gwedi caffael ohonaw ef ei

20 gyfoeth a'i vrenhiniaeth y cymmerth efe atto Bleddyn ap Cynfyn, tywysog  
Mathraval, a chydag ef y beirdd (sef y gwyr wrth gerdd dafawd) a'r gwyr wrth  
gerdd dant ([y] rai a ddaethant gyda Gruffudd ap Cynan o'r Iwerddon), ac yna  
deddfu a wnaethant fal y mae yn canlyn, nid amgen:

Gruffudd ap Cynan, brenin Aberffraw, a Bleddyn ap Cynvyn, brenin  
25 Mathraval, a wnaethant fraint a threfn ar wyr wrth gerdd, nid amgen rhag myned  
o neb yn wyr wrth gerdd – na thafawd na thant y byddai – o'r dydd hwnnw allan  
onid drwy gennad arglwydd y cyfoeth a rhodd cenhedliad athraw, a hynny mewn  
eisteddfod ddyledawl, a'i chynnal unwaith bob tair blynedd yn llysoedd  
goruchelion y tywysogion yn Aberffraw a Mathraval; [f. 100] a nawdd a  
30 gorchymyn i bob athraw ateb ohonaw ar ei air a'i gydwybod tros ei ddisgybl y  
gellid gwr abl wrth gerdd ohonaw erbyn dydd cyfreithiawl gosodedic.

Nawdd hefyd na bai i neb gynnal dwy gelfyddyd, megis prydyddiaeth a  
chanu telyn, neu gynnal unrhyw grefft neu gelfyddyd o'r byd amgen na'i  
gelfyddyd ei hun, dan boen colli ei fraint a'i dda wrth gerdd hyd oni bo athrefn.

35 Tri unben cerdd ysydd:

Prydydd neu fardd caw, a hwnnw o dri rhyw, sef prifardd, posfardd ag  
arwyddfardd; a'i gelfyddyd yw prydyddiaeth.

Teuluwr neu fardd teulu, a'i gelfyddyd yw teuluwriaeth. Sef yw hynny:  
cyfarwyddyd, a chanu yn deuluaidd, a medru ar wybodeu teuluaidd, sef darllain  
40 ac ysgrifennu yr iaith Gymraeg yn gyfiawn, a'i haddysgu a'i dangos i eraill a'i  
dily.

Telynior; a'i gelfyddyd yw cerdd dant a'i pherthynasau.<sup>1</sup>

45 A rhoddion ysydd i bob un o'r gwyr wrth gerdd hynn herwydd eu graddau  
a'u breiniau ar bob un o'r tair gwyl arbennig, nid amgen y Nadolig, y Pasc a'r  
Sulgwyn.

Prydydd neu wr wrth gerdd dafawd a ddyly wybod pob dosbarth ar gerdd  
dafawd a'i pherthynasau, a medru cerdd dafawd ei hunan yn gelfyddydawl a difai  
ym marn eisteddfod ddefodawl. Hefyd efe a ddyly [f. 100'] wybod yr iaith  
Gymraeg yn berffaith, a'i hysgrifenu herwydd ei theilyngdawd a'i hansawdd a'i  
50 chyfiawn leferydd, a gwybod hefyd<sup>2</sup> y drefn ddyledawl ar freiniau a defodau gwyr  
wrth gerdd dafawd a thant.

A ddywetto ei fod yn arwyddfardd: gwybydded gyfarwyddyd oddi wrth  
Dri Phrifeirdd Ynys Prydain (nid amgen Taliesin Ben Beirdd, a Merddin Emrys  
a Merddin ap Morfryn), a medru achau a bonedd pendefigion a bonheddigion  
55 cenedl y Cymry, a'i gweithredoedd moliannus, a'r arfau a ddugynt, a'u lluniadu  
yn gyfiawn.

Nawdd yw na bo i wyr wrth gerdd erchi dros gwerth chweugain o dda yn  
y byd, megis pei meirch, neu wisgoedd, neu unrhyw dlws arall ba bynnag, dan  
boen colli ei radd a'i dda wrth gerdd hyd ymhen y tair blynedd, a'r rhodd yn  
60 orfod i'r arglwydd cyfoeth.

Nawdd yw rhoddi o'r tywysogion i'r gwyr wrth gerdd neithioreu y  
morwynion ieuainc, dan ammod i'r prydyddion gynnal achoedd y teuluoedd

---

<sup>1</sup> Llsgr. *ai pherthynasai*.

<sup>2</sup> Llsgr. *hefydd*.

hynny. Ac hefyd arnynt y mae cynnal achoedd y tywysogion a'r arglwyddi a'r  
bonheddigion a'u gweithredoedd moliannus ar gof a chadw yn ddyledawl, a  
65 chynnal iaith cenedl y Cymry; ag am hynny, ceiniog a roddwyd iddynt o bob  
aradr, a dimai o bob hanner aradr, a lle ni cheffynt [f. 101<sup>7</sup>] arian: dwyn  
gafael.

Ag i bencerdd gwlad y rhoddwyd gobreu merched y cerddorion, a  
chyfarwys y ganthynt ban wrhäont y morwynion ieuainc, nid amgen pedair ar  
70 hugain. Sef yw pencerdd gwlad: bardd gwedi yr ennillo dair cadair; ag nid rhydd  
i fardd o bencerdd gwlad glera, can y dylid iddaw ef ei dda wrth ei gelfyddyd yn  
warantedic.

Y rhai sydd rydd iddynt glera ydynt:

1. Gwr wrth gerdd anafus, megis gwr dall.
- 75 2. Disgybl ysbas.
3. Disgybl disgyblaidd.
4. Disgybl pencerddaidd.
5. Pencerdd graddol na fythei bencerdd gwlad.

A rhoddion ysydd i bob un ohonynt herwydd eu braint, ag i bob un ei radd  
80 yn warantedig.

Nawdd yw na bo i ofergerddor, sef clerwr heb radd, ei rodd y warantedig;  
a chanu o'i sefyll a wna. A'r geiniog a rodder iddaw a fydd am ei fod yn hanfod,  
megis chwyn, o'r gwyr wrth gerdd, a gofram a rodder iddaw er dirmygu y  
cythraul a'i tynawdd mewn diogi, a glythineb, a llesgedd i grwydraw gwlad, ac  
85 ynteu heb awdurdawd iddaw wrth radd a braint. Ac nid felly cerddawr anafus,  
sef y bernir ef o gerdawd ym mraint disgybl ysbas; a'r geiniog a rodder iddaw a

fydd er mwyn Duw.

[101'] Llyma'r rhywiau ysydd ar wyr wrth gerdd dafawd herwydd eu graddau.

90

1.

Cyntaf yw disgybl ysbas heb radd, sef cyn y caffo radd. Ac nid oes arno namyn barn pencerdd y gellir prydydd ohonaw, ac yna, wedi profi hynny arno o gerdd o'i waith ei hun, gradd iddaw.

2.

95

Ail yw disgybl ysbas graddol. Ac ef a ddyly wybod y silltafau, a mesurau ynglyn, a mesur cywydd, a'r cyhydeddau, a chanu yn awenyddgar ar y mesurau hynny ym marn pencerdd a ddywetto ar ei gydwybod y gellir bardd ohonaw.

3.

100

Trydydd yw disgybl disgyblaidd. Ef a ddyly wybod yr holl silltafau, a'r holl gyhydeddau, a mesurau yr holl ynglynion, a'r cywyddau, a mesur toddaid, a mesur gwawdodyn, a phob cynghanedd, a gochel y pymtheg bai cyffredin, a dangos o'i waith ei hun bob un o'r mesurau hynny yn awenyddawl, ddisgyblaidd ym marn pencerdd a'i rhotho'n warantedig.

4.

105

Pedwerydd yw disgybl pencerddaidd. Ac efe a ddyly wybod yr holl silltafau, a'r cyhydeddau, a'r cynghaneddion, a'r ynglynion, a'r cywyddau, a deg mesur awdl, a phob profest, a'r holl ymadroddion herwydd ansawdd a theilyngdawd y Gymraeg, a gochel [f. 102'] yr holl feiau, a phob dosparth celfyddyd wrth gerdd, a'r drefn ar gerddorion; a chyfaill yw ef i bencerdd.

Pencerdd yw'r bumed. Ac efe a ddyly wybod y cwbl parth y gelfyddyd wrth gerdd a'i pherthynasau a pharth y Gymraeg, a dosparth breiniau a defodau y gwyr wrth gerdd, a phob dosparth ach a bonedd, a chyfarwyddyd am dywysogion a phendefigion a bonheddigion y Cymry a'u gweithredoedd moliannus, a Thri Chof Beirdd Ynys Prydain, a chanu yn destyngar ar ddigrifwch, yn ffrwythlawn o synwyr, ac yn ddeunyddfawr gerddwriaeth, ac yn awenyddfawr ddychymyg, ac yn warantedig awdurdawd, a chanu yn gydsain ar gymeriadau a chynghaneddion, fal y bo hawsaf dysgu a datgan y gerdd a'i chofio, a difyrraf ei gwrandaw a'i darllain. Ac efe a ddylai hyd hwyaf gallu ddal cof ar foliant arglwyddi, a phendefigion, a bonheddigion; ac arno ef yn arbennig y mae cynnal yr iaith Gymraeg, a chof am bob moliannus o weithred a gair a defawd, a phob hynod o ddamwain a hanfod. Ac efe a ddylai ymddwyn yn fucheddawl ei foes a'i ddefawd, fal nas galler a feier arnaw. Sef tri pheth a ddylai fod arnaw: yn dda ei ddysg, yn dda ei gof, ac yn dda ei gynheddfau. A chyfaill yw ef i fonheddig a phendefig.

[f. 102<sup>v</sup>] Ag o'r cerddorion cerdd dafawd hynn, hwnnw a elwir yn gadeirfardd a ennillo dair cadair, ac ef a dddwg ar ei ysgwydd arwydd cadair aur neu ariant yn dangos ei fod yn athraw cadeiriog. A phencerdd gwlad y bydd efe. Ac nid rhydd iddo glera, canys ei dda wrth gerdd a fydd iddo yn warantedig y lle bynnag yr elo o fewn cyfoetheu yr arglwyddi lle bo gorphwysfaoedd y tair cadair.

Sef y cymmerant yr athrawon cadeiriog a'r pencerddiaid attynt eu disgyblion wrth reol a chelfyddyd a herwydd y defodau cyfreithiawl, nid amgen nag un ar unwaith, a hynny yn nogon amser cyfaddas iddo ddysgu'r gelfyddyd

cerdd dafawd a'i pherthynasau; ac nid rhydd i ddisgybl wneuthur disgybl arall;  
135 ac ar bob dysgybl y mae bod gyda ei athraw hyd y Grawys dan boen colli ei radd  
a'i dda wrth gerdd, lle ni bo achos cyfreithiawl yn lluddias.

Rhoddion beirdd a phrydyddion, pob un herwydd ei radd ai fraint, nid  
amgen:

1.

140 Disgybl ysbas heb radd, sef cyn a'i gradder: ei rodd yw a rother o  
syberwyd am ei hanfod o wyr wrth gerdd yn gyfreithiawl; ac namyn hynny, nid  
oes iddo, can nas gellir yn warantedig iddo dda wrth gerdd cyn ei gradder ef; a'r  
hynn a gaffo o syberwyd a fydd ym [f. 103'] mraint ei athraw a ddywetto ar air  
a chydwybod y gellir prydydd ohonaw.

145 2.

Disgybl ysbas graddawl: ei rodd yw pedwar ar hugaint am ei gerdd, o  
bydd gwarantedig y dan law ei athro.

3.

150 Disgybl disgyblaidd: ei rodd yw tri swllt a grod – sef deugaint – am ei  
gerdd, a'i bod yn warantedig dan farn ei athraw.

4.

Disgybl pencerdddaidd: ei rodd yw pedwar ugaint – sef chwe swllt ag wyth  
ceiniog – am ei gerdd, o bydd hi gwarantedig gan ei athraw.

5.

155 Pencerdd: ei rodd yw pedwar ugaint, a rhydd iddo erchi chweugaint; ac  
nid gwarantedig iddo hynny eithr syberwyd; ac nad archo dros ben hynny o  
ddim yn y byd, megis meirch, neu ychen, neu wisgoedd, neu arfau, neu unrhyw



dlws arall ba bynnag; a nawdd yw nad archo brydydd ddim yn y byd heb gael yn  
gyntaf gennad ei berchennog, o bydd mwy na gwerth chweugaint, dan boen colli  
160 ei dda wrth gerdd.

Ni ddichon prydydd erchi dim hyd y bo yn ei swydd ef heb gennad, oni  
bydd bardd gorwlad. Cyd gwarafuner rhoddi dim i eirchiad yn y wlad, hyd  
ymhen yspaid o amser, rhydd fydd y pencerdd.

[f. 103<sup>v</sup>] Llyma'r diraddu ysydd ar wyr wrth gerdd dafawd, sef:

165 1.

Disgybl ysbas diradd: oni ddysg mewn tair blynedd, mal y galler gradd  
iddo, barn yw nas dylid ac nas gellir prydydd ohono, a naccau iddaw radd a da  
wrth gerdd a wneir.

2.

170 Disgybl ysbas graddol: onis dysg mewn tair blynedd, mal y bo cyfiawn  
iddaw radd disgyblaidd, colli ei radd a'i dda wrth gerdd dafawd.

3.

Disgybl disgyblaidd: onis dysg mewn tair blynedd, mal y bo iawn iddaw  
radd pencerddaidd, colli ei radd disgyblaidd a syrthiaw i radd ysbas.

175 4.

Disgybl pencerddaidd: onis dysg mewn tair blynedd, mal y galler iddo  
radd pencerdd, syrthiaw i radd disgyblaidd; ac o chais gradd amgen wedi hynny,  
rhaid dechreu o'r newydd yngradd ysbas, can nas cyrraidd yn amgen o fodd na  
hynny radd pencerdd.

180 5.

Pencerdd, o gwna ba ryw bynnag o'r anllywodraeth a waherddir i wyr

wrth gerdd dafawd yn erbyn cyfraith y tywysog, a gyll ei raddau oll a'i holl dda  
wrth gerdd; a gwedi hynny, nis gellir iddaw radd yn y byd tra fo byw, can nas  
dylid goddef ar bencerdd [f. 104'] ryw yn y byd o'r anllywodraeth a'r  
185 anneddfoldeb a'r drygddefodau a waherddir i wyr wrth gerdd dafawd.

Llyma'r drefn gyffredin ysydd ar brydyddion o bob gradd, fal y gwyppont  
eu deddfoliaeth a'u cyfymddwyn dyledawl herwydd y gofyn arnynt.

Nawdd yw:

Ni ddylai neb ddysgu onid gan brydydd o athraw pencerddaidd a fedro  
190 ddangos a fo iawn ar bob peth dosparthus a berthyn i gerdd dafawd ac i wyr wrth  
gerdd dafawd a thant herwydd y deddfau dyledawl ysydd arnynt, ac a fedro osod  
yn iawn beth bynnag a welo yngham ac a ddysger yngham gan arall ar gerdd  
dafawd. A'r deddfoliaeth ysydd ar bob gwyr wrth gerdd.

Pencerdd a ddyly wybod gwneuthur cerdd ei hun yn bencerddaidd o  
195 ddifai, a medru pob caingc, a phob mesur, a phob dosparth ar gerdd dafawd a'i  
holl berthynasau, ac ar yr iaith Gymraeg, ac ar y drefn a berthyn i wyr wrth gerdd  
dafawd a thant, a'u dangos yn warrantedig o'i waith ei hun fal y bo cydwybodus  
i benceirddiaid ac athrawon a doethion y gelfyddyd farnu a'i dewiso'n awdur ac  
yn athraw ar y gelfyddyd wrth gerdd dafawd.

200 [f. 104'] Gwyr wrth gerdd dafawd a fyddant wrth orchymyn cyfreithiawl  
arglwydd y cyfoeth i wneuthur a fo raid iddaw herwydd eu swyddau.

Hefyd y disgyblion a fyddant wrth orchymyn defodawl eu hathraw i  
wneuthur a ddangoso iddynt herwydd celfyddyd prydyddiaeth a'r drefn gyffredin  
ysydd ar wyr wrth gerdd dafawd a thant.

205 Hefyd na bo i'r disgybl ddynewared na gwatwar ei athraw am ei feddwl,

a'i fyfyrdawd, a'i ddychymyg, ar ei gerdd a'i gelfyddyd, na datgan ei rin, na dywedyd yn hagr nac yn ansyber wrthaw ef nac wrth un dyn arall o'r byd.

Hefyd na wnelo'r dysgybl gerdd a'i datgan ar gyhoedd heb ynghyntaf ei dangos i'w athraw, a gwybod o'i farn ef ei bod yn iawn cyn a'i cano allan.

210 Hefyd gwahardd i bawb o'r gwyr wrth gerdd arferoedd rhodiaid neu grwydriaid, ac na bo iddynt ymgyfrin nac ymgyfeilliaw a chler y dom.

Hefyd nad elont i dafarnau a lleoedd cuddiedig ag annosparthus i lynna, a phutteina, ac i chwareu cardiau a disiau, nac unrhyw chwareuon eraill anghyfreithiawl ac annosparthus am arian nag am ddäoedd eraill yn y byd; ag os  
215 gwnant: swyddog pawb arnynt i ddwyn a geffir amddynt o arian a da. A'r prydydd a gyll ei dda wrth gerdd hyd ymhen y tair blynedd, a gwr wrth [f. 105'] gerdd dant a gyll ei rodd gwarantedig hyd ymhen yr un amser.

Hefyd na chanont ac na ddysgont na gogangerdd, na sennau, na rhigymmau gwaradwyddus, na gwatwor, na dynward, na chablu neb, nag ysbio,  
220 na dychymyg celwydd, na dywedyd ar ol arall a wyppont ei fod yn gelwydd, dan boen ffin a charchar a cholli da wrth gerdd hyd ymhen y tair blynedd.

Hefyd na wnelont na ffraeeu, na chynheneu, na thwyll, na lledrad, na brad, na murn, na chynllwyn, nag ymganlyn a lladron a murnwyr a thwyllwyr a bradwyr gwlad, nag a neb a wnelont ryw yn yn y byd o anllywodraeth ac  
225 anneddfoldeb, dan boen ffin a charchar a cholli da wrth gerdd tra font byw, a bod herwydd cyfraith yn enaidfaddeu; canys prydyddion a phob gwyr wrth gerdd a ddylaint ymddwyn yn hawddgar-ymadrodd, ac yn heddigar a charedig, ac yn ufudd, ac yn gymmwynasgar i bawb o gywiriaid gwlad ac arglwydd, a choledd a chadarnhau y tywysog a phob arglwydd cyfoeth a'u dosparthau cyfreithiawl,

230 a'u hamddiffyn hyd eitha gwybod a gallu, mal y caffant hwythau eu hamddiffyn  
a'u cadarnhau yn eu braint.

Hefyd na bo i wr wrth gerdd dafawd ddangos na dysgu i neb o gywiriad  
y brenin y peth na bo iawn a dosparthus herwydd celfyddyd cerdd dafawd a'r  
ddosparth gyfreithiawl ysydd ar wyr wrth gerdd dafawd a thant, dan boen colli  
235 da wrth gerdd hyd ymhen y tair blynedd, a chyda hynny dan boen a ddylit yn  
gyfreithiawl herwydd yr anllywodraeth a wneler; canys ar y prydyddion y mae  
iawn ganu, ac iawn ddysgu, ac iawn farnu, a chynnal<sup>1</sup> cof a gwybod am bob  
llywodraeth a dosparth a chelfyddyd a font gyfiawn a daionus a moliannus.

[f. 105<sup>v</sup>] Hefyd nid rhydd i wr wrth gerdd – ai prydydd, ai gwr wrth gerdd  
240 dant y bo – fyned i wledd, na gwyl mabsant, nac i unrhyw wyl arall, o'r ty y del  
iddo gyntaf (amgen na chyfarach o syberwyd, heb erchi na chymeryd rhodd ym  
mrant ei swydd, a hyn tra pharhao y wledd yn y ty y dathoedd gyntaf iddaw) heb  
gennad gwr y ty hwnnw, neu wahawdd drwy ei gennad ef gan arall, neu o achos  
annosparth neu ansyberwyd argywedus ymddangosedig yn y ty y doethai iddo  
245 gyntaf; ac od a efe heb y cyfryw achos: colli ei rodd a'i glera. Ac od â o dy i dy,  
rhaid yw ei ddal fal crwydryn, a dwyn oddi arno ei glera, a'i roi wrth raid yr  
eglwys. Ac o brwysga yn y wledd, efe a gyll ei rodd. Ac os gwna efe unrhyw  
ansyberwyd ar wraig neu forwyn lle delo: dwyn ffin a charchar, a cholli ei dda  
wrth gerdd hyd ymhen y tair blynedd.

250 Hefyd mis ymlaen pob gwyl ymfyned disgybl a'i athraw i wybod pa le  
yr elo, rhag myned gormod ohonynt i'r un ty; ac nad elo amgen nag un at wr o

---

<sup>1</sup> Llsgr. *a chynnaf*.

ddeg punt o fywyd, dau at wr ugein punt, ac yn ol y reol honno at wr a fo mwy o rent.

255 Hefyd pob pencerdd a ddyly ymweld a'r eisteddfod a fydd bob tair blynedd yng ngoruchel lys y tywysog neu arglwydd y cyfoeth y bo iddo gadair neu radd pencerdd o athraw, a dangos yno ei gerdd a'i rol achau a phriodaseu yn warantiedig, a gwarantu cerdd a rhol achau ei ddisgybl, a gwarantu o ddisgybl a fo iawn iddaw o radd, a hefyd [f. 106'] gwarantu pob cof a chyfarwydd a wnaethoedd er pan fu yr eisteddfod ddiweddaf ymlaen y bo ynndi, ac er gwybod 260 gorchymyn a rhaid yr arglwydd, dan boen colli ei dda wrth gerdd hyd ymhen y tair blynedd.

Llyma ddangos rhywieu a graddeu y gwyr wrth gerdd dant pob un herwydd ei radd, a'r rhoddion ysydd iddynt yn warantedig:

1.

265 Disgybl ysbas heb radd: nid oes iddo un swydd na rheol na chelfyddyd yn warantedig ond barn pencerdd a ddywetto y gellir gwr wrth gerdd dant ohonaw.

2.

Disgybl ysbas graddol a ddyly wybod deg cwlwm, a phump cwlwm cytgerdd, ag wyth o ganiadau.

270

3.

Disgybl disgyblaidd a ddyly wybod ugain o gylmeu, a dwy golofn, deg cwlwm cytgerdd, dwy gadair, un ar bumtheg o ganiadau, a'r pedwar mesur ar hugain cerdd dant, a'u canu wrth reol a dosparth ag yn warantedig y dan a ddywetto ei athraw.

Disgybl pencerddaidd a ddyly wybod deg ar hugain o gylmeu, a thair colofn, pymtheg cwlm cytgerdd, a thair cadair, a phedwar ar hugain o ganiadau gwarantedig, tair gosteg, a gwybod ei holl fesureu a'i rôl yn gwbl a pherffaith.

[f. 106<sup>v</sup>] Ac ef a ddyly wybod un ar hugain o ddeifreu, a dosparth yr holl fesureu  
280 fal y maent yn y llyfr dosparth, a hynny yn warantedig o athraw pencerddaidd.  
A chyfaill pencerdd y bydd efe.

## 5.

Pencerdd a ddyly wybod deugain cwlm, a phedair colofn, ag ugain cwlm cytgerdd, a phedair cadair, a deuddeg ar hugain o ganiadau gwarantedig, a  
285 phedair gosteg. Ag efe a ddyly wybod ei holl fesurau a'u rhôl, a gwybod pedair deifr ar hugain, ag adnabod y gwahaniaethau rhyngddynt a'u gilydd herwydd dosparth yr athrawon ar y gelfyddyd.

## 6.

Dosparth yw dangos a medru gwneuthur cerdd herwydd athrawiaeth y  
290 gelfyddyd warantedig o farn pencerdd o athraw ei bod yn iawn, a medru yr holl ddosparthau a'u dosparthiadau, a phob gwant a rhagwant, a phob cynhwysiad, a gorphwysiad, a phob symud ac esmud ar dyniadau a chyweirdannau cuddiedig ag anghuddiedig; a phencerdd a ddyly wybod a dangos hynn oll yn warantedig o'i waith ei hun, yn gelfyddydaidd ac athrawaidd ym marn a'u gwyppo, gerbron  
295 eisteddfod beirdd a gwyr wrth gerdd dafawd a thant, fal y byddo cydwybodus i bencerddiaid a doethion farnu a'i dangos yn awdur ac yn athraw ar y gelfyddyd.

## 7.

Ni ddyly neb geisio addysg ond gan athraw o bencerdd gwarantedig o

300 radd ac awdurdawd, sef un a wyppo iawnhau a ddysger neu a wneler yngham gan  
arall. Ag os telynior y bydd, rhaid iddo wybod y tair mychwyl odidog a raddwyd  
yn ogyfuwch a'r pedair colofn. Sef y greddir: pob colofn o'r pedair yn ogyfuwch  
a deg cwlwm, a phob un o'r tair mychwyl newydd a radder yn ogyfuwch a'r  
pedair cadair, a'r pedair cadair yn bump cwlwm bob un. Nid fal hynn crythor.

305 [f. 107] Rhoddion pob un o'r gwyr wrth gerdd dant herwydd eu graddeu,  
nid amgen:

1.

Disgybl ysbas diradd: nid oes namyn syberwyd iddo lle y dywetto athraw  
y gellir gwr wrth gerdd ohonaw.

2.

310 Disgybl ysbas graddol: ei rodd yw deuddeg ceiniog ar bob un o'r tair gwyl  
arbennig, a phedair ceiniog ei glera.

3.

Disgybl disgyblaidd: chwe cheiniog ar hugain ei rodd ar bob un o'r tair  
gwyl arbennig, a saith geiniog ei glera.

315 4.

Disgybl pencerddaidd: ei rodd deugein ceiniog ar bob un o'r tair gwyl  
arbennig, a deuddeg ceiniog ynghylch clera.

5.

320 Pencerdd: yr un faint ei rodd a'i glera, eithr o syberwyd y rhodder iddo  
fwy nag i ddisgybl, sef dilledyn neu ryw dlws.

6.

Cylch clera a fydd unwaith bob tair blynedd gwedi caffael gwarant

eisteddfod ar a radder o'r gwyr wrth gerdd; ag nid oes yn warantedig i wyr wrth gerdd dant namyn eu rhoddion ar bob un o'r tair gwyl arbennig ag yn eu cylch clera.

325

7.

Gwyr wrth gerdd dant a ddylynt ymfucheddu yn llywodraethus ac yn iawn a threfnus eu defodeu, fal nas gwnelont yn y byd o ansyberwyd nac anghyfraith yn ail ac y dangoswyd am y gwyr wrth gerdd dafawd; a'r un gosp arnynt am bob anllywodraeth ac ansyberwyd.

330

[f. 107<sup>v</sup>] Llyma ddangos swydd datgeiniad:

Datgeiniad a ddyly wybod darllain Cymraeg a'i ysgrifennu yn gyfiawn, ac efe a ddyly wybod holl ddospartheu a dosparthiadeu cerdd dafawd, sef yr holl sillteu, a'r cyhydeddau, a'r cynganeddion, a'r mesureu cerdd, a'r drefn herwydd defod a chyfraith ysydd ar wyr wrth gerdd dafawd a thant, a modd y cynhelir eisteddfod ac y trefner ynddi; a'i swydd yw yspysu hynny gerbron eisteddfod.

335

Ac efe a ddyly roddi ar gyhoedd ymhob llys a llann, a phob ffair a marchnad a gwyl mabsant o fewn i gyfoeth yr arglwydd lle y bo, ba amser a pha le y cynhelir eisteddfod, a phwy y pencerddiaid a'r athrawon a'r barnwyr; ac arno y mae datgan pob cerdd dafawd, neu beth bynnag amgen o berthynasau cerdd, a ddelo gerbron eisteddfod. Ac ef a ddylai medru englyn unodl, ac englyn profest, a chywydd deuir yn ddosparthus o'i waith ei hun, a medru gosod yn iawn a gaffo yngham o waith arall ar gerdd dafawd. A syberwyd iddo wybod trefnu gwledd llys ac eisteddfod, a gwybod pob cysswyn a weddo i bob gwr a phob gradd ynddi.

340

A chanu ei gerdd gan dant y dily. Hefyd efe a ddyly wybod cyweiriaw telyn a [f. 108<sup>r</sup>] chrwth, a chanu amcan o brofiadau drwy blethiadau yn warantedig, a

345



dwy osteg, a chwlm, a chaniad, a'i dair ar ddeg o brifgeinciau a'u ceseilweision,  
a'i dri phrif accen ar ddeg, a chanu gyda nhwy, ac amcan ar geinciau a  
phuroriaeth cerdd dant, a'r pedwar mesur ar hugain cerdd dant, a'u dosparthu yn  
350 gyfiawn. Hefyd efe a ddyly wybod gwasanaethu mewn gwledd gwr o urddas ac  
anrhydedd o'r gegin i'r neuadd, a threfnu a'r a berthyn i'r fort a bwyd a llynn,  
a thorri pob golwyth ac aderyn a ddelo ger ei fron; a'i swydd mewn neithiawr  
frenhinawl yw gwasanaethu wrth fort y ferch; ac am ei delyn neu eu grwth cod  
wenn a'i rhoter gan y ferch. Ag ef a fydd wrth orchymyn pencerdd o wr wrth  
355 gerdd dafawd, sef o ryw gwyr wrth gerdd dafawd yr henyw, ac onaddynt ei glera;  
ac iawn iddaw radd disgybl ysbas gwedi y gwypper gerbron eisteddfod ei  
wybodau a'i fedrusrwydd. A gwedi ydd el wrth gerdd dafawd, nid rhydd iddo  
gerdd dant namyn yn rhodd ac yn rhad, canys nis gellir braint i wr wrth gerdd  
namyn un o'r ddwy gelfyddyd. Rhydd iddo a fynno gan ddewis, a bydded wrth  
360 a ddewiso.

Swydd datgeiniad pen pastwn:

Datgeiniad pen pastwn yw a fettro ddatgan cerdd dafawd yn gyfiawn ar  
gof a llafar, ac na fettro gerdd o'i waith ei hun, na'r dosparthau a'r dosparthiadau  
ysydd ar gelfyddyd prydyddiaeth, ac na fettro a ddyly [f. 108<sup>v</sup>] datgeiniad  
365 dyledawg eu medru, sef canu gan dant, ac englyn a chywydd o'i waith ei hun, ac  
a ddywedwyd am gelfyddyd y brydyddiaeth. Ei swydd a'i le yw sefyll ynghanol  
y neuadd, ac yno curaw'r mesur a'i ffon, a chanu ei gerdd dafawd gyda'r  
dymodiau. A lle bo gwr wrth gerdd dafawd ac un wrth gerdd dant, gofynned y  
datgeiniad gennad y prydydd cyn y datgano ei gywydd neu ei awdl; ag os gwr  
370 wrth gerdd dant yn unig a fydd yno, na chaned y datgeiniad cyn y caffo ei gennad

ef ond o berthynasau cerdd dafawd na fo caniadwy gyda thant y bydd ar ddatgan  
gantho, megis cyfarwyddyd, neu rôl achau, neu arall o'r cyfryw berthynasau.  
Nid oes arno ofyn cennad namyn un gwr y ty neu arglwydd y wledd, ond bydd  
yno brydydd. Ar ddatgeiniad pen pastwn y dodir cychwedl eisteddfod dros  
375 yspaid undydd a blwyddyn; ac efe a lafara fal a'i dysger gan ddatgeiniad  
dyledawg. Efe a ddwg negeseu y prydyddion a'r gwyr wrth gerdd dant  
na font ym mherthynasau'r eisteddfod; a gwas y bydd i brydydd ac i gerddor  
tant.

O bydd gradd wrth gerdd dafawd i'r datgeiniad, megis y gwelir wrth raid  
380 hynny weithieu eisieu amgen, mal dodi'r datgan ar ddisgybl ysbas neu arall o  
ddisgybl, yna na fydded gwas y datgeiniad i wr wrth gerdd dant, achos fod iddo  
frait prydydd yn warrantedig o radd; a gwas pencerdd o brydydd, ag nid i amgen,  
y bydd y datgeiniad hwnnw, am ei hanfod o wyr wrth gerdd dafawd dyledogion  
o raddau ac awdurdodau.

385 [f. 109] A'r drefn hon a wnaethpwyd yn ddosparthus gan Ruffudd ab  
Cynan, tywysawg Aberffraw, a Bleddyn ap Cynfyn, tywysog Mathrafal; a honn  
a dynnwyd ac a wellhawyd o hen ddefodau beirdd Cymru, ac o ddosparthau a  
dosparthiadau prif feirdd Cymru, nid amgen Taliesin Ben Beirdd, a Merddin  
Emrys, a Merddin ap Morfryn ac eraill. A hynn a fu drwy gyngor beirdd o  
390 bencerddiaid ac athrawon cerdd dafawd Cymru; ac ohonynt yn awduron: Alon  
ap Ceneu, a Rhydderch Foel, ac eraill yn brydyddion; ac yn athrawon cyngor wrth  
gerdd dant: Matholwch Wyddel, ac Olof Gerddor ac eraill. A'r drefn a'r  
ddosparth honn a ddangoswyd ymhob llys arglwydd cyfoeth yng Ngwynedd, a  
Deheubarth, a Phowys, ac Ewerddon, ac Ysgotlond, a Lloegr a Cherniw dan

395 osteg undydd a blwyddyn; a gwedi eu gwellhau ymhob un o'r llysoedd cyfoeth  
hynny, hyd na chaid neb a ddywetai yn ei herbyn, y cadarnhäed ac a'i breinied  
yn yr holl gyfoetheu hynny, hyd nad oedd ar Gymru benbaladr amgen o drefn a  
dosparth yn warantedig o awdurdod a braint.

Ac felly terfyna.

400 [f. 109<sup>v</sup>]<sup>1</sup> Gwedi amser Gruffudd ap Cynan a Bleddyn ap Cynfyn y  
gwnaeth yr Arglwydd Rhys ap Gruffudd, tywysawg Dinefwr, gastell newydd yn  
Aberteifi, a gwedi ei orphen efe a beris wledd anrydeddus yno, ac a ddodes  
wahoddiad dan osteg undydd a blwyddyn i bawb a geisient dda wrth gerdd  
dafawd a cherdd dant o Gymru, a Lloegr, a Llydaw, ac Iwerddon ac Ysgotlont  
405 ddyfod yno, a nawdd a chroesaw iddynt dros deugain diwrnod, a rhoddion  
gwarantedig i bob un herwydd ei radd wrth gerdd, a barn o eisteddfod a geffid  
ar ei gelfyddyd, a chyda hynny rhoddion o syberwyd a weddai i urddasoldeb y  
tywysawg eu rhoddion. Ag yn y wledd honno y cadarnhäed breiniau gwŷr wrth  
gerdd herwydd trefn a dosparth Gruffudd ap Cynan a Bleddyn ap Cynfyn, a  
410 herwydd dosparth ar fraint y gelfyddyd, nid amgen prydyddiaeth, teuluwriaeth a  
chlerwriaeth; a rhoddion gwarantedig i bob gwr wrth gerdd herwydd ei radd a'i  
frait celfyddyd yn llysoedd tywysogion ag arglwyddi ar bob un o'r tair gwyl  
arbennig, nid amgen y Nadolic, a'r Pasc a'r Sulgwyn; a chylch clera iddynt  
unwaith bob tair blynedd drwy'r tair talaith. A gyda hynn, rhoddwyd i'r  
415 cerddorion neithiorau morwynion ieuainc, a chadwedigaeth achau bonedd cenedl  
y Cymry a'u gweithredoedd moliannus. Ag arnynt y rhodded cynnal iaith y

---

<sup>1</sup> Ar frig y ffolio hon, ac ar ddiwedd y ffolio flaenorol, ceir "Yn y Greal Rhiv VIII".

Cymry a'u gwybodau moliannus, a phob cof [f. 110'] ar deilyngdawd a champ a  
gorchest ar wr, ac ar ddigwydd, ac ar bob arganfod a ddirperai gof a gwybod  
amdanaw; ac fal y gellynt hynn, rhoddydd iddynt geiniog o bob aradr, a dwyn  
420 gafael lle ni chaint y geiniog. Gwnaed hefyd nad elai y pencerdd i dy'r taiog, ac  
od elei: rhodd clerwr iddo; ac nad elai glerwr i dy uchelwr.

Ag yn y wledd anrhydeddus honno y gwnaethpwyd reol ar gyff clêr. Sef  
y bydd cyff cler: pencerdd o'r goreu. Ac ef a roddir testun arnaw, ac iawn yw  
ei fod o beth na fai gwir, rhag peri cywilydd a gwarth argywedddus ar y pencerdd;  
425 a dylid testun a fai digrif a diwladaidd ar a wnelid o'r prydyddion yn gyff cler;  
a'r prydyddion eraill i ganu arnaw yn destyngar. A thranoeth, dangos a datgan  
eu cerddi gerbron yr orsedd ar osteg a chlyw, er llawenhau a digrifhau a'u  
clywont; ac ni ettyb y pencerdd iddynt y dythwn hynny, eithr tranoeth y daw ef  
a'i atebion i bob un o'r prydyddion a ganasant ar y testun cyff; ag yna, dwy rodd  
430 iddaw ym mraint ei swydd. A'r hyd y bo cyff, eistedd a thewi yn ollol a wna, a  
sefyll a wna'r prydyddion a ganont iddo; a phan ettyb ynteu iddynt, eistedd a  
thewi a wnant wynteu. Ac am a fo yn destun cyff ac a ganer arno, nid rhydd ei  
ysgrifenu na chof llyfr amdanaw, can mai gogan y bydd, ac hefyd nid gwir, ac nid  
rhydd i brydydd ddodi ar gof a chadw y peth na bo gwir nac, ychwaith, a fo  
435 gogan.

[f. 110'] Pencerdd gwlad yw a ennillo dair cadair ym marn eisteddfodeu  
cyfreithiawl, ac eiddaw y mae arwain y tlws euraid neu arianaid ar ei ysgwydd;  
sef y bydd hynny: cyflawn cadair. Ac arno y mae trefnu a darparu eisteddfod  
unwaith bob tair blynedd yn llysoedd y tywysogion a'r arglwyddi a font o fewn  
440 y cyfoetheu y bo efe bencerdd anaddynt; a'r eisteddfod a gynhelir ar y tair gwyl

arbennigion, ar gyrch o'r cyntaf i'r ail ac o'r ail i'r trydydd ohonynt. A phan  
fynner eisteddfod yn amgen na honno bob tair blynedd, rhaid ei bod o ddawn a  
than gennad arglwydd y cyfoeth lle bytho, a thrwy farn tri phencerdd gwlad o  
leiaf, a'i chynnal dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, a than nawdd ac  
445 arganfod deuddeg uchelwyr yn gywiriaid gwlad a brenin. Ac nis gellir mewn  
eisteddfod roddi na gradd na braint o unrhyw yn y byd i brydydd oni bydd ef  
ddisgybl i athraw gwarantedig o bencerdd a ddywetto ar air a chydwybod y gellir  
gwr wrth gerdd ar a'i cais mewn amser cyfaddas; a'r lle bo felly, gradd a weddo  
herwydd a wyppo parth ei gelfyddyd i'r prydydd a'i ceisio.

450 Ac felly y terfyna.

(O Lyfr Mr. Wiliam Williams o Landegai yn Arfon.)

NLW 13154 (Llanover C. 67)

tt. 56 - 60

[t. 56] Llyma drefn ar wyr wrth gerdd dafawd a elwir hen drefn Deheubarth, ag a fu yng Ngwynedd cyn nag amser Gruffydd ap Cynan.<sup>1</sup>

Tair cangen celfyddyd cerdd dafawd ysydd, nid amgen: cyntaf, clerwriaeth; ail, teuluwriaeth; a thrydydd, prydyddiaeth.

5 Clerwr: gwr wrth gerdd yspyddeid yw, ac arnaw o swydd a chelfyddyd y mae ymsennu, ag ymoganu, ag ymddyfalu, ag ymgroesaw gair tra gair, ag ymddynwarded, ag ymwarthruddiaw, ag ymwaradwyddaw, ag ymserthu, ag ymfasweddu, a doddi ar warth ac anfawl yn warantedig o gaffaeliad, a doddi argyffred gyhoeddus ar y dyriau a'r moddeu a'r petheu nas gellir clod a mawl  
10 prydydd dosparthus iddynt; can nis dylai y prydydd gwarantedig o awdurdawd a dosparth eisteddfod ymarfer a'r petheu a safant ar y clerwr, eithr eu gadael arnaw; ag nid oes amgen o ddosparth arnaw na llys gwlad a chyfraith.

Teuluwr: gwr wrth gerdd ddosparthus ydyw ef, ac yn warantedig o awdurdawd. Ag arnaw y mae canu yn fesuraidd herwydd y gelfyddyd wrth  
15 gerdd dafawd, a medru ar achau a'u dosparth, a theilyngdawd priodaseu, ag ar bob gwybodau teuluaid, a darllain y Gymraeg a'i hysgrifennu yn gyfiawn, a chynnal cof [t. 57] dosparthus ar achau a phriodaseu y teulu maeth yn y bo ef, a

---

<sup>1</sup> Ar ddiwedd y frawddeg ceir y geiriau "O'r un llyfr" mewn cromfachau.

dodi addysg i'r dynion ieueinc, a dangos cyfarwyddyd o'r hen gerddi a'r hen  
awduron cof a chadw. Ac arnaw y mae cyfaneddu, ag ymddiddanu, ag  
20 ymddigrifhâu yn ddiserthedd, ag ymdestyniaw drwy eiriau ammwys, ag  
ymddyfalu gan syberwyd wers tra gwers, ag ymarfolli'n garuaidd, a doddi  
gwybodau yn ddosparthus, ag ymwybyddu yn awdurdodawl ag yn ddosparthus,  
ag ymgyfarwyddaw ag ymarddangos ar wybodau Cymreigolion, ag ymsyberwydu  
yn fonheddigaid, a medru ar wleddau anrhydeddus, a neithiorau, a phob arfolleu  
25 teuluaid, a chadw rhôl ddosparthus, a chyfarwyddyd a ddylit i'r teulu parth  
achau, a phriodasau, a holion, a phob braint ag arddelw, mal y gwyper a ddylit  
parth breiniau y teulu a chanu'n deuluaid fwythusgerdd gyfannedd, a chanu  
rheingerdd yn garuaidd, ddigoddiant, heb ordderchedd, ag yn deuluaid o  
gelfyddyd, megis gwr yn hanfod o gerdd dafawd warantedig o awdurdawd.

30 Prydydd: gwr wrth gerdd ddosparthus o awdurdawd ydyw ef herwydd  
gwarant gan eisteddfod a chadair. Ag efe a ddylai wybod cyfarwyddyd oddi  
wrth y Tri Phrif Feirdd, ac arnaw y mae cynnal cof cadwedig ar achau  
brenhinoedd a bonheddigion a chenedl y Cymry, [t. 58] a chadw ar deilyngdawd  
priodasau, ac iawn gynnal y Gymraeg a gwybodau cerdd dafawd a'i  
35 pherthynasau. Hefyd arnaw y mae iawn ddysgu, iawn farnu, ac iawn ganu yn  
warantedig o awdurdawd, a chynnal gan ei gelfyddyd; a rhoddion gwarantedig  
o ddefawd iddaw am ei gerdd a'i gyfarwyddyd. Hefyd arnaw y mae canu mawl  
pob moliannus o gamp a gweithred a gwybod, a chanu o Dduw a'i saint, ag o  
ddaioni, ag yn erbyn pechawd, a mawl pob gweddus a syber, a gwrthwynebu  
40 serthedd y clerwr, a chanu yn fesuraidd ag yn gerddwraidd gan gelfyddyd a  
dosparth awdurdodawl, megis athraw awdurdodawl a gwarantedig o gadair ar y

gwr wrth gerdd dafawd. Ag arnaw y mae tri gorchest, nid amgen dychan heb serthedd, rhieingerdd heb ordderchedd, a mawl heb druth a gwestleidiaeth. Sef yw gwestleidiaeth: peth ni chyngein ag a fo cyfiawn o syrth, ag a elo'n erbyn a  
45 weddei a'r a foler, megis moli gwraig am ymladd, neu foli gwr eglwysig am gampeu chwaryddion. Ag ef a ddylai glodfoli pob haelioni a digrifwch meddwl, a chanu cyfannedd, canys prif ofyn ar brydydd yw cyfanneddu, a moliannu pob awenyddiaeth a cherddwriaeth, a phob gwybodau molianus, a phob arferion [t.  
59] a defodeu anrhydeddus a bonheddigaidd a daionus. Ag efe a ddylai wrthneu  
50 a gwrthwynebu gogangerdd y clerwr lle y prytto prydydd dosparthus a gwarantedig o awdurdawd; ag nid rhydd iddaw ef oganu neb, canys cynnal moliant a chlod anrhydeddus lle bo a'i dirper y dylai efe. Ag arnaw y ddefawd y mae digrifwch meddwl, a diddanu dynion, a doddi addysg ar wybodau Cymreigiolion ag ethrylith awenyddawl. Hefyd arnaw y mae ymwrthawd yn  
55 gadarn a'r saith brifwyd a'r pechodeu marwolion, nid amgen trais, a lledrad, a balchedd, a godineb, a glythineb, a llid, a llesgedd, a chenfigen; canys y rhai hynn a ddiffwrwythant gof ag awen ag ethrylith a dychymmyg y prydydd. Ag yn lle y rhai hynny y dylai efe ymarfer a'r wÿth gynheddfeu dwyfolion; sef ydynt: haelioni, a chywirdeb, ag<sup>1</sup> ufudd-dawd, a diweirdeb, a dirwest, a chariad  
60 perffaith, a diwydrwydd, a thangnefedd, y rhain a wellhânt gof ag awen ag ethrylith a dychymygydd y prydydd, ag a amlhânt wybodau moliannus a daionus, ag y ffrwythlonant<sup>2</sup> gerdd dafawd. Prydydd gwarantedig o gelfyddyd a ddwg

---

<sup>1</sup> Llsgr. *a ag*.

<sup>2</sup> Llsgr. *fflwythlonant*.



65 arwydd o dlws euraid neu arianaid, sef a'i dodir iddaw [t. 60] o awdurdawd  
eisteddfod defodawl yn warantedig; a chanthaw ef y cymmerant y gwyr wrth  
gerdd dafawd eu hansoddeu a'u cyfarwyddyd a'u dysg a'u gwybodau, mal y bont  
deilyngion.

A hên drefn ar wyr wrth gerdd dafawd yw honn a oedd cyn noc amser  
Gruffudd ap Cynan, a gymmerwyd o lyfr Ieuan Fawr ap y Diwlith o Gil Fynydd.

## Geirfa

Yn yr eirfa hon fe nodir y testunau sy'n cynnwys y geiriau a restrir isod. Cyfeirio at rifau'r llinellau o fewn y testunau a wna'r rhifau sy'n dilyn enw pob testun yn hytrach nag at rifau'r tudalennau.

### A

**abad** (pen mynach, pennaeth ar fynachlog) R (i).78

**accan** (pwyslais rheolaidd ym mhob bar; cân) PH.291; **accen** LL<sup>(1)</sup>. 195, S<sup>(1)</sup>(iii).348

**ach** (llinach, tras, cofrestr hynafiaid) CH.119, L.229, S<sup>(1)</sup>(iii).113; **iach** CH.121, D.112, F.125 N.135; *llu.* **achav** CH.119, H.248; **achev** L.229; **achau** S<sup>(1)</sup> (i).40, S<sup>(1)</sup> (i).55, S<sup>(1)</sup> (i).108, S<sup>(1)</sup> (iii). 54, S<sup>(1)</sup> (iii).256, S<sup>(1)</sup> (iii).257, S<sup>(1)</sup> (iii).372, S<sup>(1)</sup> (iii).415, Y<sup>(1)</sup> (ii).15, Y<sup>(1)</sup> (ii).17, Y<sup>(1)</sup> (ii).26, Y<sup>(1)</sup> (ii).32; **iache** D.112, Y.130; **iachav** F.125, H.248, N.27, R (i).97; **iachau** S<sup>(1)</sup> (i).93; **achoedh** L.49, PH.37, PH.256, PH.260; **achoed** W.25; **achoedd** LL<sup>(1)</sup>.37, LL<sup>(1)</sup>.166, LL<sup>(1)</sup>.170, S<sup>(1)</sup> (i).25, S<sup>(1)</sup> (iii).62, S<sup>(1)</sup> (iii).63; **iachoedd** Y.8

**achos** (rheswm) A.60, B.68, CH.62, CH.63, D.72, E.61, E.62, F.56, FF.51, FF.52, H.105, N.78, PH.178, R (i).52, R (i).53, S (i).5, Y.89, Y.90, I<sup>(1)</sup>.60, LL<sup>(1)</sup>.121, S<sup>(1)</sup> (iii).245; **achaws** L.149, PH.178

**achos** (angen) B.73, H.120

**achos** (achos cyfreithiol) S<sup>(1)</sup> (iii).136

**achwr** (olrheiniwr achau, arwyddfardd) PH.265; **iachwr** R (i).99

**adnabod** (adnabod, gwybod) F.37, FF.32, LL<sup>(1)</sup>.100, S<sup>(1)</sup> (iii).286; **ydnabod** N.56; **adnâbod** PH.105

**adnav** (cadw, gofalu am; perchnogi) CH.146, F.149, L.244

**addef** (cydnabod) LL<sup>(1)</sup>.287

**addysg** (dysg, gwybodaeth, hyfforddiant, cyfarwyddyd) S<sup>(1)</sup> (iii).298, Y<sup>(1)</sup> (ii).18, Y<sup>(1)</sup> (ii).53

**addysgu** (dysgu, cyfarwyddo, hyfforddi) S<sup>(1)</sup> (iii).40

**anghyfraith** (camwedd, trosedd, tor cyfraith) S<sup>(1)</sup> (iii).329

**ailbriodi** LL<sup>(1)</sup>.62

**amcan** (cynllun (?); syniad, bras amcan) PH.289, PH.291, LL<sup>(1)</sup>.194, LL<sup>(1)</sup>.196, S<sup>(1)</sup> (iii).346, S<sup>(1)</sup> (iii).348

**amdhiphyn** (gwarchod, gwyllo, noddi) L.185; **amddiffyn** S<sup>(1)</sup> (iii).230

**amledd** (lluosogrwydd, lliaws) CH.104, F.112

**[amlhau]** (helaethu, ymledu, amlhau) *3 un. gorff. myn. amhlaawdh* L.69; *3 llu. pres. myn. amlhânt* Y<sup>(1)</sup> (ii).61

**amod** (cytundeb rhwng dau) H.119

**amod** (teler, ymrwymiad, addewid) L.48, W.24, Y.7; **ammod** PH.36, LL<sup>(1)</sup>.36, S<sup>(1)</sup> (iii).62

**amser** (cyfnod, ysbaid neu adeg arbennig, oes) B.60, CH.131, F.116, F.135, H.96, H.121, N.150, PH.64, PH.176, PH.270, PH.279, I<sup>(1)</sup>.59, LL<sup>(1)</sup>.65, LL<sup>(1)</sup>.177, LL<sup>(1)</sup>.185, LL<sup>(1)</sup>.283, S<sup>(1)</sup> (i).47, S<sup>(1)</sup> (i).71, S<sup>(1)</sup> (i).72, S<sup>(1)</sup> (iii).6, S<sup>(1)</sup> (iii).133, S<sup>(1)</sup> (iii).163, S<sup>(1)</sup> (iii).217, S<sup>(1)</sup> (iii).338, S<sup>(1)</sup> (iii).400, S<sup>(1)</sup> (iii).448, Y<sup>(1)</sup> (ii).2, Y<sup>(1)</sup> (ii).67; **ammser** CH.108; *llu. amseroedd* CH.113, CH.115, D.108, F.120, F.122; **yn ol i amser** H.165

**anaf** B.51, H.82

**anant** (cerddorion, beirdd) B.37, H.67

**anfawl** (anghlod, anair) Y<sup>(1)</sup> (ii).8

**[anfodd]** o'i hanbhodh (yn erbyn eu hewyllys) L.190

**[anfon]** (anfon, gyrru, danfon) *3 un. gorff. myn. anfonnes* LL<sup>(1)</sup>.25; *3 un. pres. dib. anvono* A.63, B.75, E.64, FF.54, H.111; **anhôno** PH. 180

**anian** (natur, ansawdd) PH.218

**anivail** H.177

**anllywodraeth** (diffyg llywodraeth, afreolaeth, anhrefn) CH.85, F.78, LL<sup>(1)</sup>.140, S<sup>(1)</sup> (i).143, S<sup>(1)</sup> (i).146, S<sup>(1)</sup> (iii).181, S<sup>(1)</sup> (iii).184, S<sup>(1)</sup> (iii).224, S<sup>(1)</sup> (iii).236, S<sup>(1)</sup> (iii).330; **anllyfodraeth** N.90, R (i).69, I<sup>(1)</sup>.80; **anllwfodraeth** S (i).27; **anllyfodraith** Y.111

**anneddfoldeb** (anllywodraeth, penrhyddid) S<sup>(1)</sup> (iii).185, S<sup>(1)</sup> (iii).225

**annosparth** (anhrefn) S<sup>(1)</sup> (iii).244

**annwydlws** (hoff dlws neu addurn, trysor) A.63, PH.180, S (i).7; **anwydlws** B.75,

[**anrheg**] *llu. anrregion* H.226

**ansawdd** (natur, gallu (?)) S<sup>(1)</sup> (iii).16

[**ansawdd**] (nodwedd, teithi) *llu. ansoddeu* Y<sup>(1)</sup> (ii).65

**ansawdd** (nodwedd, teithi) S<sup>(1)</sup> (iii).49, S<sup>(1)</sup> (iii).107

**ansyberwyt** (anghwerteisi, anurddas, anfoesgarwch, anweddustra) A.74; **ansyberwyd** B.84, CH.76, D.85, E.74, F.69, FF.64, H.127, N.100, PH.196, R (i).64, S (i).16, I<sup>(1)</sup>.70, LL<sup>(1)</sup>.130, S<sup>(1)</sup> (iii).244, S<sup>(1)</sup> (iii).248, S<sup>(1)</sup> (iii).328, S<sup>(1)</sup> (iii).330; **anssyberwyd** Y.102

**aradr** (= 'plowland' (?)) L.52, PH.38, PH.39, W.26, W.27, Y.10, Y.11, LL<sup>(1)</sup>.38, LL<sup>(1)</sup>.39, S<sup>(1)</sup> (i).56, S<sup>(1)</sup> (i).57, S<sup>(1)</sup> (iii).66, S<sup>(1)</sup> (iii).419

**ardreth** (incwm, cyfoeth) N.106, N.107, PH.213, PH.214

**ardhel** (hawlio, mynnu, honni, haeru) L.244, PH.43; **arddel** LL.44; **ardelw** W.32; **arddelw** Y.15

**arf** E.102, H.238, R (i).81; *llu. arvav* CH.120; **arfau** S<sup>(1)</sup> (iii).157

[**arf**] (yn y *ll.* pais arfau, llun neu ddyfais mewn herodraeth) *llu. arfau* D.113, S<sup>(1)</sup> (iii).55; **arfav** F.126, N.138; **arfe** Y.131

**ar fedr** (yn bwriadu, gyda'r bwriad o) LL<sup>(1)</sup>.285

**arfer** (ymddygiad sefydlog, moesau) S<sup>(1)</sup> (i).132; *llu. arveroedd* A.69, B.79, CH.71, D.80, E.69, FF.60, H.122; **arferoedd** F.64, N.95, I<sup>(1)</sup>.66, LL<sup>(1)</sup>.126, S<sup>(1)</sup> (iii).210; **arbheroedh** PH.190; **arferav** S (i).12, Y.98

[**arfer**] (defod, cwstwm) *llu. arferion* Y<sup>(1)</sup> (ii).48

[**arfolll**] (croeso, derbyniad (?)) *llu. arfolleu* Y<sup>(1)</sup> (ii).24

**arvolli** (derbyn, croesawu) B.39, H.69

**arganfod** (canfyddiad (?)) S<sup>(1)</sup> (iii).418, S<sup>(1)</sup> (iii).445

**arglwydh** (brenin, tywysog, pendefig, meistr) L.22, L.24, L.36, L.37, L.162, PH.11; **arglwydd** W.8, LL<sup>(1)</sup>.8, S<sup>(1)</sup> (i).15, S<sup>(1)</sup> (i).43, S<sup>(1)</sup> (i).63, S<sup>(1)</sup> (i).89, S<sup>(1)</sup> (iii).27, S<sup>(1)</sup> (iii).60, S<sup>(1)</sup> (iii).201, S<sup>(1)</sup> (iii).228, S<sup>(1)</sup> (iii).229, S<sup>(1)</sup> (iii).255, S<sup>(1)</sup> (iii).260, S<sup>(1)</sup> (iii).338, S<sup>(1)</sup> (iii).373, S<sup>(1)</sup> (iii).393, S<sup>(1)</sup> (iii).443; *llu. arglwyddi* R (i).97, S<sup>(1)</sup>

(iii).63, S<sup>(1)</sup> (iii).120, S<sup>(1)</sup> (iii).130, S<sup>(1)</sup> (iii).412, S<sup>(1)</sup> (iii).439

**argyffred** (dealltwriaeth (?), dimadaeth (?), amgyffrediad (?)) Y<sup>(1)</sup> (ii).9

**arian** *enw* CH.139, D.125, F.143, PH.39, W.27, Y.11, LL<sup>(1)</sup>.39, S<sup>(1)</sup> (i).57, S<sup>(1)</sup> (i).135, S<sup>(1)</sup> (iii).66, S<sup>(1)</sup> (iii).214, S<sup>(1)</sup> (iii).215; **ariant** L.53, L.163, L.239, S<sup>(1)</sup> (i).39

**ariandlws** (tlws arian a wisgai athrawon cerdd dafod a cherdd dant, sef tlws ar ffurf cadair, telyn, crwth, tafod) A.46, B.21, CH.48, CH.132, CH.137, CH.139, CH.140, CH.143, CH.157, D.49, D.64, D.118, D.123, D.125, D.126, D.132, E.47, F.136, F.141, F.143, F.144, F.146, F.147, F.158, H.49, H.155, H.157, H.159, H.161, H.163, H.165, H.188, L.123, L.140, L.233, L.236, L.238, L.239, L.240, L.251, N.43, R (i).36, Y.75; **aryandlws** H.154; *llu.* **ariandlwsav** H.148

**arwain** (cludo, dwyn, gwisgo (?)) CH.133, D.121, D.128, F.138, H.153, L.179, S<sup>(1)</sup> (iii).437; **arwein** L.176, L.235

**arwain** (dilyn, ymarfer â, dilyn galwedigaeth) H.216, W.12; **arwein** L.29

**arweniawdr** (gwisgwr) CH.140; **arwenawdr** F.144; **arwedhiawdr** L.249

**arwenwr** (gwisgwr) D.132 (Gw. **arweniawdr**)

**arwest** (cerdd dant, cerddoriaeth (?)) L.75, S<sup>(1)</sup> (i).115, S<sup>(1)</sup> (i).120

[**arwydd**] (h.y. wrth gyfeirio at achau) *llu.* **arwydhon** PH.260; **arwyddion** LL<sup>(1)</sup>.170

**arwydd** (arwydd, symbol (?)) S<sup>(1)</sup> (iii).127, Y<sup>(1)</sup>.63; *llu.* **arwyddion** LL<sup>(1)</sup>.170

**arwyddfardd** (bardd yn olrhain achau, yn eu cofnodi mewn llyfrau, ac yn hyddysg mewn herodraeth, achyddwr a chroniclwr) N.134, N.135, LL<sup>(1)</sup>.165, LL<sup>(1)</sup>.166, S<sup>(1)</sup> (i).6, S<sup>(1)</sup> (iii).37, S<sup>(1)</sup> (iii).57; **arwydhhbardh** PH.252, PH.256; **arweddfardd** R (i).91, R (i).100

**arwydhhbardhoniaeth** (herodraeth, gwybodaeth am achau ac arfbeisiau) PH.259; **arwyddfarddtoniaeth** LL<sup>(1)</sup>.169, LL<sup>(1)</sup>.277

**assen** (asyn benyw) H.177

**astudiaw** (astudio, dysgu) H.255

**atkan** (datgan, llafarganu, canu, cyhoeddi) B.8, H.196, H.204; **atgan** H.37, H.253; **atken** H.192

**atkeiniad** (datgeiniad) H.172, H.173, H.192, H.193, H.201; **atkanriad** H.205; **atgeiniad** H.206; *llu.* **atkeniaid** H.171; **atgeiniaid** H.175

- ateb enw** (atebiad) H.154; *llu. atebion* S<sup>(1)</sup> (iii).429
- ateb berf** (bod yn gyfrifol, cymryd cyfrifoldeb) CH.135, D.121, L.122, L.236; **ateb** F.139, H.21
- ateb berf** (rhoi ateb, bodloni (?), gorchfygu (?)) CH.143, D.126, L.241, PH.318, PH.325, LL<sup>(1)</sup>.210, LL<sup>(1)</sup>.225; **ateb** F.147; *3 un. pres./dyf. myn. ettyb* S<sup>(1)</sup> (iii).428, S<sup>(1)</sup> (iii).431
- ateb berf** (tystiolaethu) L.25, PH.11, W.8, LL<sup>(1)</sup>.9, S<sup>(1)</sup> (iii).30
- ateb berf** (cyflawni) L.122
- attêbwr** (un sy'n rhoi ateb, gwrthwynebydd mewn dadl neu ornest) PH.321; **attebwr** LL<sup>(1)</sup>.221
- athrawiaeth** (cyfarwyddyd) L.199
- athrawiaeth** (cyfarwyddyd, hyfforddiant, dysgeidiaeth, dysg) S<sup>(1)</sup> (iii).289
- athrefn** (rheol (?), trefn (?)) S<sup>(1)</sup> (iii).34
- athro** (un sy'n dysgu, hyfforddwr; gŵr wrth gerdd wedi ennill ariandlws) A.37, A.52, A.60, A.65, A.67, A.89, B.13, B.27, B.39, B.66, B.77, CH.16, CH.38, CH.45, CH.46, CH.53, CH.62, CH.69, CH.92, CH.98, CH.133, CH.147, D.15, D.28, D.38, D.45, D.47, D.54, D.70, D.71, D.76, D.78, D.102, D.119, D.130, E.39, E.52, E.60, E.66, E.68, E.87, E.89, E.102, F.46, F.55, F.60, F.62, F.84, F.107, F.108, F.137, F.151, FF.42, FF.51, FF.56, FF.58, FF.77, FF.79, FF.83, H.81, H.102, H.113, H.167, H.240, H.250, L.23, L.37, L.88, L.101, L.102, L.120, L.129, L.147, L.148, L.154, L.157, L.193, L.199, L.208, L.227, L.234, L.246, N.7, N.36, N.67, N.75, N.77, N.92, N.93, N.105, N.107, PH.116, PH.177, PH.187, R (i).3, R (i).28, R (i).42, R (i).52, R (i).58, R (i).72, R (i).75, R (i).81, S (i).4, S (i).9, S (i).11, S (i).31, S (i).34, W.8, Y.67, Y.81, Y.88, Y.94, Y.96, Y.118, I<sup>(1)</sup>.50, I<sup>(1)</sup>.60, I<sup>(1)</sup>.62, I<sup>(1)</sup>.64, I<sup>(1)</sup>.84, I<sup>(1)</sup>.89, LL<sup>(1)</sup>.111, LL<sup>(1)</sup>.121, LL<sup>(1)</sup>.122, LL<sup>(1)</sup>.124, LL<sup>(1)</sup>.144, LL<sup>(1)</sup>.149, S<sup>(1)</sup> (iii).147; **athraw** B.46, B.49, B.50, B.58, B.66, B.67, B.76, CH.68, H.41, H.57, H.69, H.76, H.79, H.88, H.91, H.100, H.102, H.103, H.114, H.164, H.192, H.218, H.238, PH.11, PH.182, PH.189, PH.211, PH.214, LL<sup>(1)</sup>.9, S<sup>(1)</sup> (i).15, S<sup>(1)</sup> (i).62, S<sup>(1)</sup> (i).64, S<sup>(1)</sup> (i).73, S<sup>(1)</sup> (i).129, S<sup>(1)</sup> (i).145, S<sup>(1)</sup> (iii).27, S<sup>(1)</sup> (iii).30, S<sup>(1)</sup> (iii).135, S<sup>(1)</sup> (iii).143, S<sup>(1)</sup> (iii).150, S<sup>(1)</sup> (iii).153, S<sup>(1)</sup> (iii).199, S<sup>(1)</sup> (iii).202, S<sup>(1)</sup> (iii).205, S<sup>(1)</sup> (iii).209, S<sup>(1)</sup> (iii).250, S<sup>(1)</sup> (iii).256, S<sup>(1)</sup> (iii).274, S<sup>(1)</sup> (iii).290, S<sup>(1)</sup> (iii).296, S<sup>(1)</sup> (iii).298, S<sup>(1)</sup> (iii).307, S<sup>(1)</sup> (iii).447, Y<sup>(1)</sup> (ii).41; **athro cadeirioc** PH.268; **athro cadeiriog** LL<sup>(1)</sup>.173; **athraw cadeiriog** S<sup>(1)</sup> (iii).128; **athro o gerdd dant** H.167; **athro penkeirddiaidd** A.52/3, E.53; **athro pennkerddiaid** B.28; **athro pennkerddiaidd** CH.54, F.47; **athro penceirddiaidd** D.55, I<sup>(1)</sup>.51, LL<sup>(1)</sup>.112; **athro pencerddiaidd** FF.43; **athraw pennkerddiaidd** H.57/8; **athro pencerddiaidh** L.131; **athro penceirddiaidh** PH.117; **athro**

**penkerddiaidd** R (i).43, Y.81/2; **athraw pancerddiaidd** S<sup>(1)</sup> (iii).189, S<sup>(1)</sup> (iii).280; *llu. athrawon* A.57, A.86, B.43, B.97, CH.59, CH.89, D.68, D.99, E.58, F.52, F.81, FF.48, H.73, H.142, H.170, N.53, N.73, S (i).2, Y.86, Y.155, I<sup>(1)</sup>.4, S<sup>(1)</sup> (i).71, S<sup>(1)</sup> (i).76, S<sup>(1)</sup> (iii).198, S<sup>(1)</sup> (iii).287, S<sup>(1)</sup> (iii).339, S<sup>(1)</sup> (iii).390, S<sup>(1)</sup> (iii).391; **athrawion** L.194; **athrâwon** PH.174; **athrawon cadeiriog** S<sup>(1)</sup> (iii).131; **athrawon cerdd dant** LL<sup>(1)</sup>.254, LL<sup>(1)</sup>.264; **athrawon penkerddiaidd** R (i).49; **athrawon penceirddiaidd** I<sup>(1)</sup>.57, LL<sup>(1)</sup>.118

**avr enw** (arian pres) CH.139, F.143, L.239; **aur** D.125

**awdurdod** A.30; **awdurdod** B.7, B.35, CH.146, FF.20, H.193, I<sup>(1)</sup>.27, LL<sup>(1)</sup>.88, S<sup>(1)</sup> (iii).299, S<sup>(1)</sup> (iii).398; **awdvrdod** CH.31, E.31, N.32, R (i).20; **awdyrdawd** D.31, D.129; **awdyrdod** F.23, F.150; **awdŭrdod** H.36, H.64, H.202; **awdurdawd** L.105, L.244, S<sup>(1)</sup> (iii).85, S<sup>(1)</sup> (iii).117, S<sup>(1)</sup> (iii).299, Y<sup>(1)</sup> (ii).10, Y<sup>(1)</sup> (ii).14, Y<sup>(1)</sup> (ii).29, Y<sup>(1)</sup> (ii).30, Y<sup>(1)</sup> (ii).36, Y<sup>(1)</sup> (ii).51, Y<sup>(1)</sup> (ii).63; **awdurdawt** PH.91, PH.184; **awdvrdawd** Y.60; *llu. awdurdodau* S<sup>(1)</sup> (iii).384

**awen** (dawn, athrylith neu ysbrydoliaeth farddonol) H.99, Y<sup>(1)</sup> (ii).57, Y<sup>(1)</sup> (ii).60

**awenydd** (awen, dawn, athrylith neu ysbrydoliaeth farddonol) H.214

**awenyddiaeth** (dawn neu athrylith farddonol, awen) B.62, H.98, Y<sup>(1)</sup> (ii).48

## B

**backamwnt** E.69

**bai** (diffyg, gwall, nam, camgymeriad) H.197; **bai kyffredin** A.21, CH.22, E.22, F.13, H.25, R (i).11, Y.51; **bai cyffredin** D.21, FF.11, I<sup>(1)</sup>.18, LL<sup>(1)</sup>.79, S<sup>(1)</sup> (iii).101; **bai cyphredin** L.94; **bai cyphrêdin** PH.82/3; *llu. beieu* A.25, PH.87; **beia** B.1, CH.25, E.25, F.16, N.23; **beiau** D.24, I<sup>(1)</sup>.22, LL<sup>(1)</sup>.83, S<sup>(1)</sup> (iii).108; **beiaû** FF.14; **beiev** L.99; **beie** R (i).14; **beia** kyffredin H.29, N.16

**balchedd** Y<sup>(1)</sup> (ii).56

[**ban**] (cangen (?)) *ll. bannau* S<sup>(1)</sup> (iii).11

**bardd** R (i).100, LL<sup>(1)</sup>.63, LL<sup>(1)</sup>.167, LL<sup>(1)</sup>.280, S<sup>(1)</sup> (i).44, S<sup>(1)</sup> (iii).70, S<sup>(1)</sup> (iii).71, S<sup>(1)</sup> (iii).97; **bardh** PH.62, PH.63; **bardd cadeiriawc** A.7; **bardd kadeiriawc** CH.8; **bardd cadiriawg** D.7; **bardd kadeiriog** E.6, Y.37; **bardd kadairiawc** H.6; **bardd cadeiriawg** LL<sup>(1)</sup>.234; **bardh caw** PH.251; **bardd kaw** R (i).100; **bardd caw** LL<sup>(1)</sup>.164, S<sup>(1)</sup> (i).6, S<sup>(1)</sup> (iii).36; **bardh gorwlad** PH.63; **bardd gorwlad** LL<sup>(1)</sup>.64, S<sup>(1)</sup> (i).45, S<sup>(1)</sup> (iii).162; **bardh teulu** PH.56, PH.59; **bardd teulu** LL<sup>(1)</sup>.57, LL<sup>(1)</sup>.59/60, S<sup>(1)</sup> (iii).38; *llu. beirdh* L.6; **beirdd** LL<sup>(1)</sup>.278, LL<sup>(1)</sup>.285, LL<sup>(1)</sup>.287, LL<sup>(1)</sup>.288, S<sup>(1)</sup> (iii).9, S<sup>(1)</sup> (iii).13, S<sup>(1)</sup> (iii).21, S<sup>(1)</sup> (iii).21, S<sup>(1)</sup> (iii).115,

S<sup>(1)</sup> (iii).137, S<sup>(1)</sup> (iii).295, S<sup>(1)</sup> (iii).387, S<sup>(1)</sup> (iii).388, S<sup>(1)</sup> (iii).389; **beirdh caderioc** L.79

**barddoniaeth** LL<sup>(1)</sup>.277

**bariaeth** (drygioni, trachwant (?)) I<sup>(1)</sup>.71, LL<sup>(1)</sup>.131

**barn** (tyb, meddwl, cyfrif) A.17, CH.18, D.17, E.18, E.39, F.9, FF.7, FF.37, H.21, L.90, N.11, N.53, N.62, PH.77, PH.111, R (i).6, R (i).28, I<sup>(1)</sup>.15, I<sup>(1)</sup>.45, LL<sup>(1)</sup>.76, LL<sup>(1)</sup>.107, S<sup>(1)</sup> (i).16, S<sup>(1)</sup> (iii).48, S<sup>(1)</sup> (iii).97, S<sup>(1)</sup> (iii).103

**barn** (gallu i farnu neu i feirniadu, synnwyr, craffter, dirnadaeth, deall) A.68, E.68, F.63, FF.58, N.94, PH.188, R (i).59, Y.47, I<sup>(1)</sup>.64, LL<sup>(1)</sup>.124, S<sup>(1)</sup> (iii).150, S<sup>(1)</sup> (iii).209, S<sup>(1)</sup> (iii).290, S<sup>(1)</sup> (iii).294

**barn** (penderfyniad) E.36, S<sup>(1)</sup> (iii).167, S<sup>(1)</sup> (iii).443

**barn** (prawf) S<sup>(1)</sup> (iii).406, S<sup>(1)</sup> (iii).436

**[barnu]** (ystyried, penderfynu (?)) *3 un. pres. dyf. myn. barn* A.36, CH.37, D.37; *amhers. pres. myn. bernir* PH.262, S<sup>(1)</sup> (iii).86; *amhers. amherff. myn. bernid* S<sup>(1)</sup> (i).19

**barnu** (rhoi ar brawf, eistedd mewn barn ar) A.51, A.53, H.56, PH.115, PH.272, I<sup>(1)</sup>.49, LL<sup>(1)</sup>.111, LL<sup>(1)</sup>.179, S<sup>(1)</sup> (iii).198, S<sup>(1)</sup> (iii).296; **barnv** CH.53, CH.54, E.52, E.54, FF.41, H.148, L.129, L.130, L.131, N.66, R (i).42, R (i).43, Y.80, Y.82; **barny** D.54, D.55, F.46

**barnu** (penderfynu) S<sup>(1)</sup> (iii).237, Y<sup>(1)</sup> (ii).35; *3 un. pres./dyf. myn. barn* A.36, CH.37, D.37, E.36, F.27, FF.24, H.17, L.110, N.46, PH.97, R (i).26, Y.64, I<sup>(1)</sup>.31, LL<sup>(1)</sup>.92, S<sup>(1)</sup> (iii).92, S<sup>(1)</sup> (iii).266; *3 un. pres. dib. barno* A.37, B.12, CH.38, D.38, H.40, H.88, Y.66

**[barnwr]** (beirmiad) *llu. barnwyr* LL<sup>(1)</sup>.278, LL<sup>(1)</sup>.282, S<sup>(1)</sup> (iii).339

**bath** (math) B.51, N.142

**beiaw** (beio, ceryddu, sennu) L.178

**[beio]** (gweld bai ar, rhoi bai ar) *amhers. pres. dib. beier* S<sup>(1)</sup> (iii).123

**beithiaw** (beiddio) PH.307; **meiddio** LL<sup>(1)</sup>.210

**blaen** (blaenoriaeth, rhagoriaeth) CH.157, F.158, L.142

**blwyddyn** A.3, B.70, CH.5, CH.128, CH.136, CH.138, D.3, D.122, D.124, F.132, F.140,



F.142, H.3, H.115, H.155, H.162, H.254, R (i).99, W.46, Y.31, Y.34, I<sup>(1)</sup>.2, I<sup>(1)</sup>.3, LL<sup>(1)</sup>.27, LL<sup>(1)</sup>.215, LL<sup>(1)</sup>.230, S<sup>(1)</sup> (i).123, S<sup>(1)</sup> (i).139, S<sup>(1)</sup> (iii).375, S<sup>(1)</sup> (iii).395, S<sup>(1)</sup> (iii).403, S<sup>(1)</sup> (iii).444; **bloyddyn** E.3; **blwydhyn** L.14, L.73, L.221, L.222, L.223, L.237, L.239, PH.27, PH.314; *llu.* **blwydhynev** L.4

